Y DRYSORFA.

RHIF. 718.] AWST, 1890. [LLYFR LX.

PHYLIP.

GAN Y PARCH. W. MORRIS LEWIS, TY LLWYD.

Y MAE ein dyled ni, y Cenedloedd, i Phylip, un o'r saith, enw yr hwn a gyplysir â'r eiddo Stephan, yn fawr iawn, yn fwy fe allai nag yr ydys arferol ei gydnabod. Efe, yn cael ei ysgogi gan y syniadau eang a rhyddfrydig am Gristiogaeth, a gyhoeddwyd gyntaf i'r byd yn araeth amddiffynol ei gyfaill ger bron y cynghor, a fu y cyntaf i wneyd rhwyg yn y muriau a adeiladesid gan ragfarn o amgylch yr Eglwys gyntefig yn Jerusalem yn erbyn derbyniad y Cenedloedd i ragorfreintiau yr Efengyl. Efe, trwy effeithiolrwydd a llwyddiant ei lafur ymysg pobloedd y tu allan i gylch yr Israel, a fu y cyntaf i ddangos fod Iesu Grist nid i'w gyfrif yn unig yn weinidog yr enwaediad, ac yn amlygiad o wirionedd Duw yn nghyflawniad yr addewidion a wnaethpwyd i'r tadau, eithr hefyd yn amlygiad o anfesurol drugaredd Duw tuag at yr holl fyd, yn yr hwn y cawsai Efe ei foli gan yr holl genedloedd, a'i glodfori gan yr holl bobloedd. Yr oedd efe, megys Stephan, yn llawn o ffydd yn Nghrist ac addasrwydd yr Efengyl i'r byd, ac o'r Ysbryd Glân, dylanwad yr hwn ar yr enaid a lenwir âg ef sydd yn ei arwain mor bell oddiwrth gulni ag y mae oddiwrth bechod, gan ei fod nid yn unig fel y tân yn sanctaidd, pur a dilwgr, eithr hefyd fel y goleuni, yn wasgarol, diamdlawd ac eang. Os mai y ddau hyn oeddynt y cyntaf, nid hwynt-hwy mewn un modd oeddynt yr olaf, o rai mewn swydd eilraddol yn Eglwys Crist, a fuont fynych arweinyddion i rai mewn swyddi uwch, yn haelfrydedd eu hysbryd, ac eangder eu syniadau am Gristionogaeth yn ei gwirioneddau, ei hathrawiaethau, a'r gwaith ag ydoedd i'w gyflawni yn y byd.

Yn y golygiadau a'r egwyddorion y rhoddwyd dadganiad iddynt gan Stephan y gwelir y sylfaen ar ba un yr adeiladwyd, y llinellau ar ba rai y gweithredwyd, gan Phylip. Manteisiol, gan hyny, fydd i ni wneyd ymgais at eu deall, a rhoddi iddynt eu safle priodol yn nadblygiad hanes yr Eglwys gyntefig. Poethder y dadleuon a gyfodasant o bryd i bryd yn y synagog hono yn Jerusalem, lle y cyrchai y Libertiniaid a'r rhai o Cilicia, ymysg y rhai y mae yn sicr y gwelsid ac y clywsid yn fynych y gŵr ieuanc Saul, ydoedd yr hyn a gynhyrfodd ac a dynodd allan alluoedd meddyliol ac ymresymiadol Stephan. Prin ydyw y ffeithiau a roddir gan yr hanesydd am y dadleuon hyn, ond gan ei fod yn debygol mai oddiwrth y gŵr ieuanc hwnw a gymerodd ran amlwg ynddynt y cafodd yr hanesydd yr ychydig a gofnodir, gellir dysgwyl iddynt fod yn awgrymiadol o'u natur. Hysbysir gan hyny i Stephan yn ei ymresymiadau roddi seiliau digonol i'w gyhuddwyr dystio iddo ddywedyd "cableiriau yn erbyn Moses, y gyfraith a'r deml." Yn y misoedd ag yr oedd yr Apostol-

ion i'w gweled beunydd yn y deml, ac i'w clywed yno yn athrawiaethu, ac yn ochelgar rhag dywedyd dim a fuasai yn cau pyrth "y lle sanctaidd hwnw" rhagddynt, gwelsid Stephan mewn synagog yn yr un ddinas, yn cyhoeddi prophwyd mwy na Moses, dylanwad cryfach na'r gyfraith, a diddymiad y deml yn ei ffurfiau a'i gwasanaeth. Yn ei araeth amddiffynol drachefn, gwelir cyffelyb eangder syniadau a chyffelyb hyfder yn eu traethu, gan fod yr araeth hono nid i'w golygu yn unig fel adroddiad syml o ffeithiau hanesiaeth Israel, yn cael ei fwriadu i ddangos fod ei wybodaeth eang yn brawf nad ydoedd yn ddibarchedigaeth i'w genedl ac i'w hanes, eithr hefyd yn ddangosiad fod yr hanes hwnw yn hanes dadblygiad yn yr amlygiadau a roddodd Duw o'i feddwl, pob amlygiad yn ddadblygiad o'r hyn a'i rhagflaenasai. Canlynwyd Abraham gan Moses, canlynwyd y llusty gan y babell, y babell gan y deml. Cyhoeddodd Duw pan adeiladwyd y deml, nad ydoedd yr amlygiad hwnw yn derfynol, pan y dywedodd, "Pa dŷ a adeiledwch i mi?" a phe goddefasid i'r carcharor orphen, buasem wedi clywed ganddo fod Un mwy na'r deml wedi ymddangos, y byddai i'r deml a'i gwasanaeth roddi lle i Grist a'i Efengyl, ac y byddai raid i Iuddewiaeth symud o'r ffordd i roddi lle i Gristionogaeth. Y mae eto linell arall i'w gweled yn amlwg yn rhedeg drwy yr araeth, sef hyn: dengys Stephan fod pob amlygiad ychwanegol wedi ei wrthwynebu gan y genedl pan y cymerodd le: "Y patrieirch gan genfigenu a werthasant Joseph," yr hwn a gyfodasai Duw yn waredwr: gwrthwynebwyd Moses yn ei ymddangosiad cyntaf fel gwaredwr y genedl: gwrthwynebwyd ef drachefn pan roddes efe iddynt y gyfraith: "Cilgwthiasant ef a throisant yn eu calonau i'r Aipht." Mae yn debyg i gynhwrf llidiog ymysg y rhai a eisteddent ar fainc y cynghor, attal Stephan rhag traethu yr oll o'i amddiffyniad, ond gosododd seiliau digonol i'w gyhuddiad yn eu herbyn, "Yr ydych chwi yn wastad yn gwrthwynebu yr Ysbryd Glân; megys eich tadau, felly chwithau," ac "i'r Cyfiawn hwnw y buoch chwi fradwyr a llofruddion." "A hwy a labyddiasant Stephan, ac efe yn galw" (ni ddylai y geiriau "ar Dduw" fod yn yr adnod), "ac efe yn galw, ac yn dywedyd, Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd." Pa beth ydyw yr hyn a bair grediniaeth mor gyffredinol mai dyn ieuanc ydoedd Stephan? Ai fod y fath debygolrwydd rhyngddo â'r Hwn fu farw rhwng lladron, fel y mynir credu ei fod hefyd o gyffelyb oedran iddo? ai ei fod yn haws credu gweddnewidiad i gyffelybrwydd yr eiddo angel, o wyneb ag y mae ei lyfndra heb ei rychu gan aradr oedran, a dysgleirdeb ei liwiau heb ei bylu gan ofalon a phryder? Seren foreu eglur ydoedd efe yn ddiau yn yr Eglwys, pelydrau yr hon oeddynt yn ddigon cyrhaeddgar a nerthol i wneyd y goleuni a dywynodd o amgylch Saul o Tarsus yn fwy na goleuni canol dydd, y rhai hefyd ni pheidiasant a'i ddilyn, gan oleuo ei feddwl ac ennyn ei zel, hyd ei fedd.

Fod Phylip yn cael ei feddiannu gan ysbryd cyffelyb i'r eiddo Stephan, ac yn coledd syniadau o gyffelyb eangder am Gristionogaeth i'r eiddo ef, a ddangosir gan y ffaith fod yr awdurdodau Iuddewig yn ei gyfrif yn gyfranog o'i gamwedd, ac iddynt, tra yn caniatâu llonyddwch i'r Apostolion, beri ffoi o Phylip o Jerusalem, yr hwn, gan hyny, yn gyson âg argyhoeddiadau ei feddwl ac eangder ei syniadau, "a aeth i waered i ddinas Samaria, ac a bregethodd Grist iddynt" (Act. viii. 4, 5). Nid oedd yr Iuddewon yn ymgyfeillach â'r Samariaid. Ni thramwyent drwy eu gwlad; aent y tu hwnt i'r Iorddonen i geisio tramwyfa rhwng Judea a Galilea rhag myned trwy Samaria; ni phrynent ganddynt ac ni

werthent iddynt; mwy adgas ganddynt y Samariaid na'r Cenedloedd dienwaededig; nis gallasai Iuddew fwyta ymborth y cyffyrddasid âg ef gan Samariad; bu dadleuon brwd a ydoedd yn gyfreithlawn bwyta ffrwyth a dyfasai yn naear Samaria, ac nid oedd y Samariaid i gael rhan yn adgyfodiad y meirw. Er hyn oll, dywedodd yr Iesu pan y bu "raid iddo fyned drwy Samaria," fod y meusydd hyn yn wynion i'r cynhauaf. Ni ddywedir a ddarfu i'r dysgyblion ufuddhau i'w air i "attolygu ar Arglwydd y cynhauaf anfon gweithwyr i'w gynhauaf." Os bu iddynt wneyd, prin yr oeddynt y pryd hwn yn fyw i ysbryd y cyfryw weddi, oblegid y mae'n sicr nad aethai yr un o honynt yno ar ol adgyfodi yr Iesu. Aeth y weddi yn ddiau o galon yr Eiriolwr ei Hun, ac yn mynediad Phylip i ddinas Samaria y rhoddwyd yr ateb cyntaf iddi. Mawr a rhyfeddol a fu y llwyddiant ar ei lafur yn y ddinas fawr hono, ag ydoedd yn ail yn unig i Jerusalem yn yr holl wlad, o ran ei maint a'i phoblogaeth. Mae yn debyg fod y geiriau trwy y rhai y desgrifia yr hanesydd y llwyddiant hwn yn gryfach nag y gallesid eu defnyddio am lwyddiant llafur y deuddeg Apostol yn ninas Jerusalem. "A'r bobl yn gytun a ddaliodd ar y pethau a ddywedid gan Phylip, &c. . . . . Ac yr oedd llawenydd mawr yn y ddinas hono" (Act. viii. 6—8). Y llwyddiant hwn, nid yn unig a agorodd ddrws yr Efengyl i'r rhai oeddynt y tu allan i gylch yr Israel, eithr hefyd a fu yn foddion agor meddyliau a chalonau yr Apostolion i fawredd ac eangder y gwaith y galwyd hwynt iddo. Oblegid aeth y llwyddiant ar lafur Phylip i glustiau yr Eglwys yn Jerusalem, a pha un bynag ai llawenydd ai ofn a gynnyrchodd yr hysbysrwydd, bu raid gweithredu yn benderfynol yn ei wyneb. Barnwyd gan hyny fod pwysigrwydd y peth hwn yn gyfryw ag i alw am fynediad i weled yr hyn a wnaethid, o neb llai na Phedr ac Ioan. Hwn ydoedd y cam cyntaf i'r ddau Apostol enwog i'w gymeryd y tu allan i gylch yr Israel yn ol y cnawd, a bu iddo ganlyniadau pwysig, nid yn unig i'r Apostolion eu hunain, ac i ddinas y Samariaid, eithr hefyd i'r wlad oddiamgylch, oblegid pan y dychwelasant i Jerusalem, "hwy a bregethasant yr Efengyl yn llawer o bentrefi y Samariaid." Nid yn unig bu i Pedr ac Ioan gadarnhau y dysgyblion yn y maes a feddiannesid mor llwyr i'r Efengyl gan lafur Phylip, eithr hwy a brysurasant i gymeryd meddiant o feusydd newyddion iddi, ymysg pobl ag yr edrychasent arnynt gyda'r rhagfarn ag ydoedd yn nodweddiadol o'u cenedl. Anfynych y rhoddir i lafur Phylip yn ninas Samaria ei ystyr a'i bwysigrwydd priodol yn nadblygiad syniadau a gwaith yn yr eglwys foreuol.

Ar ol gweled o Phylip ffrwyth ei lafur yn Samaria yn cael y fantais o arolygiaeth y fam-eglwys yn Jerusalem, wele ef, yn ufudd i'r ysbryd a'i cynhyrfai, yn prysuro tua'r dehau i chwilio am feusydd newyddion i lafurio ynddynt; a chan osgoi Jerusalem, a gadael gwlad Judea i'r Apostolion, ceir ef yn y ffordd sydd yn myned o Jerusalem i Gaza, ac yn cyfarfod âg Iuddew ag ydoedd wedi dringo i sefyllfa o gyfrifoldeb a dylanwad yn llys brenines yr Ethiopiaid, ac yn llwyddo i'w ddychwelyd i'r ffydd Gristionogol. Ac os ydoedd y llawenydd ymha un y dywedir ddarfod i'r uchel-wr fyned ar ei ffordd i'w wlad, yn cyfodi nid yn unig oddiar ei fod wedi caffael iachawdwriaeth, eithr hefyd am ddarfod iddo gyfranogi i ryw raddau o ysbryd eangfrydig Phylip, temtir ni i'w ganlyn i'r wlad ymha un yr ymsefydlasai, ac i ddychymygu y llwyddiant a ddichon fod wedi canlyn ei lafur yntau ymysg trigolion y wlad annedwydd hono, sydd wedi myned dan gymaint o gyf. newidiadau, ac er hyny, mewn ystyriaethau pwysig, amgen unrhyw wlad

arall ymron, yn aros yn ddigyfnewid—gwlad ag y buom rai blynyddoedd yn ol yn dilyn gyda dyddordeb poenus ran o'r fyddin Brydeinig yn dringo dyfroedd a rhaiadrau yr afon Nilus, yn eu hymgais i'w chyrhaedd, a daear yr hon sydd heddyw yn dal llwch y dewr a'r duwiol gadfridog Gordon.

"A Phylip a gaed yn Azotus." Y ddinas hon ydoedd hen Ashdod y Philistiaid, ac ydoedd y tu allan i derfynau talaeth Judea. Yn gystal o anghenrheidrwydd ag o ddewisiad, yr ydoedd Phylip yn osgoi Judea, gan y dichon fod y Sanhedrim Iuddewig eto â'i bryd ar ei gael i'w gafaelion, i'w wneyd yn gyfranog o dynged Stephan, megys y barnent ei fod yn gyfranog o'i gamwedd. Ni hysbysir ni pa gymaint a arosodd yn y ddinas, na pha lwyddiant a fu i'w lafur, ac fe symir i fyny y gweddill o lafur ei oes mewn un frawddeg, "A chan dramwy, efe a efengylodd ymhob dinas hyd oni ddaeth efe i Cesarea." Ymddengys y frawddeg hon yn cuddio dan lèn rhy anhawdd i'w dadguddio yr oll o lafur y gwas hwn i Grist. Nid felly, modd bynag, gan y gwelwyd ei fod yn osgoi talaeth Judea, ac fe ddangosir cyfeiriad ei daith pan y dywedir mai i Azotus yr aeth o ymyl Gaza. Gellir gan hyny ddilyn ei gamrau gyda gradd mawr o sicrwydd, ac fe'n cynnorthwyir gan yr hanes yn llyfr yr Actau i olrhain ei waith. Y prif ddinasoedd ar ei lwybr o Ashdod i Cesarea, y tu allan i derfynau Judea, oeddynt Lyda a Joppa. Os yw yr hanesydd yn tynu y llèn dros enw Phylip am enyd, daw i'n golwg y gwaith a gyflawnodd, gan mai un o'r pethau cyntaf a adroddir ydyw fod Pedr yn gadael Jerusalem i dramwy trwy yr holl wledydd, a'i fod yn dyfod "at y saint oedd yn trigo yn Lyda." Nid yw yn debygol y desgrifid trwy frawddeg o'r fath hon ddysgyblion a wasgarasid o Jerusalem, ac y mae yn sicr nad ymwelodd un o'r Apostolion â'r lle. Y casgliad rhesymol gan hyny i'w dynu ydyw, mai megys ag y gwnaeth llafur Phylip yn Samaria osod anghenrheidrwydd am bresennoldeb rhai o'r Apostolion yno i gadarnhau y dysgyblion; felly hefyd yn Lyda—llafur Phylip yn y ddinas hono a ddygodd Pedr yno i gyffelyb amcan. Yr un modd y bu gyda Saron. "A phawb a'r oedd yn preswylio yn Lyda a Saron a'i gwelsant ef, ac a ymchwelasant at yr Arglwydd." Yn Joppa, drachefn, y mae nid yn unig "ddysgybles a'i henw Tabitha, yr hon os cyfieithir a elwir Dorcas," a dysgybl arall yr hwn ydoedd wedi dysgu llettya y saint, eithr hefyd ddysgyblion y rhai wedi clywed o honynt fod Simon Pedr yn tramwy i gadarnhau y dysgyblion, a "anfonasant ddau ŵr i Lyda, gan ddeisyf nad oedai ddyfod atynt hwy," i'w cadarnhau yn y ffydd y dychwelwyd hwynt iddi, mae'n debyg, trwy lafur Phylip, ac fel y derbynient ddawn yr Ysbryd Glân. Tra dyddorol ydyw darllen llinellau yr hanes yn llyfr yr Actau i weled Apostol yr Enwaediad yn dilyn y llwybrau a arloeswyd gan Phylip, ac yn ymweled â'r meusydd y bu efe yn eu llafurio, a phob cam a roddai yn agor ei galon i, ac yn eangu ei syniadau am, fawredd y gwaith yr ymddiriedwyd iddynt i'w gyflawni.

Ar Cesarea—y ddinas odidog a adeiladwyd gan orthrwm Herod, ac a alwyd ganddo yn ol teitl yr Ymherawdwr a roddodd iddo deyrnas, lle y preswyliai rhaglaw talaeth Syria, a phrif gyfrwng trafnidiaeth Ewrop â'r dalaeth hono—y sefydlir ein sylw yn awr gan yr hanes, yn yr hon, ar ol tramwy trwy, a llafurio yn, y trefydd arforawl a wynebent Fôr y Canoldir, yr ymsefydlodd Phylip, gan ei dewis yn faes ei lafur am y gweddill o'i oes. Y desgrifiad o'r ddinas a roddir gan yr hanesydd ysbrydoledig, ydyw fod Cristionogaeth yn prysur lefeinio y fyddin, gan fod Cornelius, canwriad o'r fyddin Rufeinig, ynghyd a'i dŷ, a rhai

o'r milwyr, wedi eu deffro i'w phwysigrwydd, a'i bod wedi peidio, i'r fath raddau, a bod yn wrthddrych rhagfarn i'r dosbarth yn y ddinas i ba un y perthynai y swyddog hwn, fel y derbyniodd lliaws o'i "geraint a'i anwyl gyfeillion" wahoddiad i ddyfod i'w dŷ i wrandaw geiriau gan Apostol. Trwy ba offerynoliaeth y dygwyd oddiamgylch y chwyldroad mawr hwn yn agwedd y ddinas falch hon at Gristionogaeth? Llafuriasai Phylip yma am oddeutu saith mlynedd, ac ni awgrymir fod neb arall yma yn cynnrychioli Eglwys Crist. A dichon fod rhesymau yn aros pan ysgrifenwyd yr hanes a'i gwnai yn annoeth dadguddio enw yr hwn a fu yn brif offeryn i effeithio y fath chwyldroad? Awgryma hyn y cwestiwn, Pa bryd yr ysgrifenwyd yr hanes? Mae yn dra thebyg mai ymhen tua 18 mlynedd ar ol hyn, ac yn nhymmor carchariad Paul am ddwy flynedd yn y ddinas hon, y casglwyd yn y wlad oddiamgylch Cesarea, gan Luc, yr hwn fe allai a dderbyniodd gynnorthwy gwerthfawr yn ei waith oddiwrth Phylip, ddefnyddiau y Drydedd Efengyl, ynghyd a'r mwyafrif o ffeithiau tra dyddorol ond prin llyfr yr Actau. Dichon hefyd mai yn un o ystafelloedd tŷ Phylip, ac o dan ei arolygiaeth ef a'r carcharor, y cyflawnwyd y rhan fwyaf o'r gwaith o ysgrifenu y naill a'r llall. Ai o herwydd lledneisrwydd a'i tueddai i ymochel rhag yr ymddangosiad o fod yn gwthio ei lafur megys i gystadlenaeth â gwaith Simon Pedr yr Apostol, y gwnaeth Phylip beri cuddio ei enw yn amgylchiadau Cesarea ar yr adeg dan ein sylw? ai ynte o herwydd y gallai beryglu ei arosiad yn y ddinas, pe dadguddid mewn hanes ysgrifenedig enw yr hwn ag yr arweiniodd ei zel dros achubiaeth eneidiau dynion, ef yn fynych i ymddygiadau y gellid eu hesbonio gan elynion i fod yn ymyriad anghyfreithlawn â'r fyddin a'i swyddogion yn nghyflawniad eu gwasanaeth milwraidd? Y weledigaeth, modd bynag, ag ydoedd gymhwys i barotoi meddwl Pedr ar gyfer agwedd dinas Cesarea ar yr adeg hon, ydoedd yr hon ymha un y dangosid nid yn unig "ehediaid y nef ac ymlusgiaid," eithr hefyd "bedwar carnolion y ddaear a gwylltfilod" yn dysgwyl eu meddiannu i Grist; ac y mae yn dra thebyg, os nad yn sicr, y bu, i raddau mwy nag, o herwydd rhyw resymau anhysbys, a ddangosir yn yr hanes, rhan fawr gan Phylip, fel offeryn yn llaw yr Ysbryd Glan, yn nygiad oddiamgylch y cyfryw agwedd.

I Cesarea, ar ol ymsefydliad Phylip yn y ddinas hono, y dygwyd Saul, yn fuan ar ol ei ddychweliad i'r ffydd (Act. ix. 30), pan orfu iddo oblegid gelyniaeth yr Iuddewon ymadaw o Jerusalem. Dyma i'r ddau hyn—Apostol y Samariaid a dyfodol Apostol y Cenedloedd, ymgyfarfod y pryd hwn, gan ei bod yn debyg mai ar yr ymweliad hwn y cafodd Saul ddeall fod iddo letty a chroesaw yn nhŷ Phylip, ar yr hyn y manteisiodd efe ymhen amryw o flynyddoedd ar ei ffordd i Jerusalem erbyn y Sulgwyn, pan yr arosodd efe a rhai o'i gyfeillion yno ddyddiau lawer (Act. xxi. 8—10). Ar ol y derbyniad oeraidd a gafodd Saul pan geisiodd efe ymwasgu â'r dysgyblion yn Jerusalem ar ei ddychweliad o Damascus (Act. ix. 30), dymunol a phwysig ei ganlyniadau iddo a fu cyfarfod yn Phylip âg un ydoedd fel yntau wedi ei gyffwrdd gan y tân a ennynodd am enyd mor fèr yn nghalon Stephan; a phwy a wyr pa gymaint a fu dylanwad cymeriad y naill, ynghyd a'i lafur a'i lwyddiant ymysg pobl ddienwaededig, i roddi cyfeiriad i lafur digyffelyb y llall?

Ymhen canrifoedd, cyrhaeddodd yr Eglwys a blanwyd yn Cesarea gan Phylip, ac a feithrinwyd am flynyddoedd lawer ganddo ef a'i bedair merch, yr anrhydedd o'i gwneyd yn Esgobaeth, ar yr hon y bu yn Esgob yr enwog hanesydd Eusebius. Tynir y llèn dros

flynyddoedd olaf ei oes a'i ddiwedd, ac felly y gwneir â'i flynyddoedd boreuol, eithr cofnodir digon i ddangos, ac i awgrymu mwy nag a ddangosir, fod dadblygiad buan syniadau a gwaith yn yr Eglwys foreuol i gyfeiriad y Cenedloedd, i'w briodoli i raddau pell i ysbryd eangfrydig a llafur mawr Phylip yr Efengylwr, un o'r saith.

"Y DRUAN, HELBULUS GAN DYMHESTL."

(Yr Araeth ár Natur Eglwys a draddodwyd ar Ordeiniad nifer o frodyr i'r Weinidogaeth, yn New York, Tachwedd 2il, 1889).

Gan y Parch. Robert Williams, M.A., *Utica (gynt o Gorwen).*

"Y druan, helbulus gan dymhestl, y ddigysur, wele mi a osodaf dy geryg di â charbuncl, ac a'th sylfaenaf â meini saphir. Gwnaf hefyd dy ffenestri o risial, a'th byrth o feini dysglaer, a'th holl derfynau o geryg dymunol."—Esaiah liv. 11, 12.

Anwyl frodyr a chyfeillion oll: rhaid dyweyd mai gyda gradd helaeth o anewyllysgarwch yr wyf yn ymgymeryd â'r gorchwyl hwn. Yn un peth, oblegid cysegredigrwydd yr amgylchiad, ac o herwydd fy ieuenctyd, ac yn arbenig o herwydd pwysigrwydd y testyn, "Yr hwn yw eglwys y Duw byw."

Ystyr y gair Eglwys ydyw, galwad allan. Dynion wedi eu galw allan o blith eraill i amcan neillduol, ynglŷn â theyrnas nefoedd, sydd yn cyfansoddi eglwys. Ond i wneyd eglwys rhaid fod yr aelodau wedi eu galw gan Dduw ei hun; ac wedi eu galw hefyd er dwyn gwirionedd yr efengyl ger bron y byd. "Eglwys y Duw byw, colofn a sylfaen y gwirionedd," 1 Tim. iii. 15.

Mae y testyn mor eang fel na amcenir yn bresennol ond rhoddi ychydig o amrywiol nodweddion yr eglwys. Ac amcenir cadw hyd y gellir o fewn terfynau yr adnodau a ddewiswyd fel sylfaen hyn o sylwadau. Mae rhai yn meddwl fod perygl manylu gormod ar eiriau a chymhariaethau y Bibl fel ag i roi ystyr i'r geiriau nad oedd yr Awdwyr Sanctaidd, na'r Ysbryd Glân, wedi ei fwriadu. Ond nid perygl yr oes hon ydyw rhoi gormod o ystyr i ffugyrau a chyffelybiaethau yr Ysgrythyrau, ond yn hytrach rhoi rhy fychan. Yn unol â'r duedd hon, haerir na fwriadai y prophwyd Esaiah, yn ei ddesgrifiad arddunol o'r eglwys yn yr adnodau hyn, ddim pellach na rhoddi syniad amwys, ac anmhenodol, am lwyddiant neillduol Israel mewn adeg i ddyfod. Ond y mae yn fwy naturiol tybied fod y prophwyd yn dewis y meini mwyaf pwrpasol i adeiladu pob rhan o'r ddinas; ac yn eu cyfleu yn y fath fodd ag i roi syniad clir a phendant am "Etifeddiaeth gweision yr Arglwydd," a'u "cyfiawnder yr hwn sydd oddiwrth yr Arglwydd." Diammheu nad oedd y prophwyd yn anwybodus o ansawdd y meini a enwir ganddo yma, ac nid ar antur y mae yn enwi y saphir yn sylfaen y ddinas, tra mai y grisial sydd yn ffenestri y ddinas.

Heblaw ansawdd naturiol y meini, yr oedd yr hen fyd yn rhoi ystyr gyfriniol i feini gwerthfawr. Ac yn ol y Rabbiniaid Iuddewig, yr oedd yr Iuddewon yn cysylltu ystyr gyfriniol â'r meini yn nwyfroneg yr archoffeiriaid; a thebyg yw fod Esaiah yn gwneyd defnydd o syniadau ei oes a'i genedl, am arwyddocâd cyfriniol y meini, i ychwanegu at arddunedd a phrydferthwch ei ddesgrifiad o ddinas Duw.

Pa beth bynag all fod ystyr fanwl pob rhan o'r adnodau hyn, y mae eu hystyr gyffredinol yn hollol eglur. "Y druan, helbulus gan dymhestl, y ddigysur, wele mi a osodaf dy geryg di â charbuncl, ac a'th sylfaenaf â meini saphir. Gwnaf hefyd dy ffenestri o risial, a'th byrth o feini dysglaer, a'th holl derfynau o geryg dymunol." Ni raid ond darllen yr adnodau hyn na theimlir, pa beth bynag all fod ystyr fanwl pob gair, fod yma ddwy sefyllfa hollol wahanol yn hanes yr eglwys yn cael eu portreiadu. Mae y ddwy adnod gyda'u gilydd yn dangos:—Presennol yr eglwys, a dyfodol yr eglwys.

Mae y ddwy wedd yma yn perthyn i eglwys Dduw, ac nid yw yn bosibl cael syniad cywir am yr eglwys heb gymeryd i'r cyfrif ei chystudd presennol a'i llwyddiant dyfodol. Mae y rhan fwyaf o lywodraethau y byd yma wedi gweled eu dyddiau goreu, a chydag ofn a dychryn y tremiant i'r

dyfodol. Ond am yr eglwys, ymlaen y mae ei chyfnod euraidd hi. Anghofio hyn ydyw y rheswm fod y byd, yn gyffredinol, mor gyfeiliornus ei farn am yr eglwys. Dyma sydd yn cyfrif hefyd am fethiant pob beirniadaeth, yn unol âg egwyddorion y byd, ar yr eglwys. Mae yna ddirgelwch ynglŷn â'r eglwys, ag y mae yn rhaid edrych ymhellach na'r byd hwn am esboniad arno. Pe buasai Voltaire yn cofio hyn, ni buasai yn bradychu ei ffolineb trwy ymffrostio y gwnai ef ei hun dynu Cristionogaeth i lawr tra yr oedd yn rhaid cael deuddeg apostol i'w sylfaenu.

Ceir yn yr adnodau hyn, yn y lle blaenaf, sefyllfa isel y genedl ar y pryd, yn wrthgyferbyniol i'w dychweliad o dŷ'r caethiwed. Ond diammheu fod yma gyferbyniad rhwng agwedd lwydaidd yr eglwys dan yr Hen Destament, a'i gogoniant tra rhagorol dan y Newydd. Mae yma gyferbyniad hefyd rhwng agwedd yr eglwys filwriaethus ar y ddaear a'i chyflwr gogoneddus yn y nef. Gellir edrych ar yr adnodau fel desgrifiad o gystuddiau a thrallodion y duwiol ar y ddaear, a'i hapusrwydd yn y byd a ddaw. Ac nid wyf yn meddwl y gwneid cam â'r geiriau pe yr esbonid hwy fel yn cynnwys cyflwr truenus dyn annuwiol pan y mae Duw yn elyn iddo, yn wrthgyferbyniol i gyflwr dedwydd y cyfryw pan wedi ei ddwyn i gymmod â Duw. Rhaid edrych ar yr eglwys yn ei dylanwad ar y byd hwn; ond ar yr un pryd rhaid cofio nad yw y byd hwn yn cyfrif am ei dylanwad, ac nid yw ei dylanwad yn gorphen chwaith gyda'r byd yma.

I. Presennol yr Eglwys: "Y druan, helbulus gan dymhestl, y ddigysur."

Mae dau esboniad gwahanol yn cael eu rhoi ar y gymhariaeth a ddefnyddia y prophwyd yn y fan hon.

Tybia un dosbarth mai cyferbynu y babell a'r deml y mae y prophwyd. Ac y mae hyn yn rhoi meddwl hollol naturiol i'r geiriau. Yn lle y babell ag sydd mewn perygl o gael ei thaflu gan bob gwynt, y mae yma balas o geryg nadd. Os dyma y gymhariaeth, nid oedd yn rhyfedd i'r prophwyd ddyweyd "Y druan" wrth yr eglwys. Nid oes un olygfa fwy digalon nag ymgais i roi pabell i fyny ar ystorm. Wedi sicrhau un cwr i'r lleni yn un gongl, cyn y byddys wedi cyrhaedd y gongl agosaf i sicrhau hono drachefn, y mae y gongl a sicrhawyd gyntaf wedi d'od yn rhydd. Ac os y llwyddir i roi y llïan yn ddiogel wrth ddau o'r polion, odid fawr cyn y sicrheir y trydydd na bydd y ddau gyntaf, a'r llïan hefyd, wedi eu dryllio a'u chwythu ymaith gan y corwynt. Dyma ddarlun gwan o hanes yr eglwys o'i chychwyniad hyd yn awr. Pan fydd yr hoel olaf, dybygid, yn myned i gael ei gosod; pan fydd yr eglwys yn dysgwyl ychydig seibiant a diddosrwydd: y mae rhyw gyfeiliornad yn dyfod, ac yn dryllio yn gandryll y syniadau ag yr oedd lleni y babell wedi arfer bod yn crogi arnynt. Ac y mae yn rhaid brysio i chwilio am ryw olygiadau eraill, ac os gellir da fyddai iddynt fod yn gryfach na'r rhai a ddinystriwyd; rhaid cloddio yn ddyfnach, a churo y rhai newydd ymhellach na'r rhai o'r blaen i ddaear dywodlyd y meddwl dynol. Rhyw ymgais i roi pabell i fyny yn ngwyneb "pob awel dysgeidiaeth" i gael ei lluchio yn ol ac ymlaen, a'i hysgubo ymaith, ydyw gwaith yr eglwys weithiau bod hyd yn awr. Yr amser a ballai i mi fynegi pa fodd yr aeth pabell Moses a lle pabell Noah; paham yr aeth pabell Dafydd a lle y tabernacl "yr hwn a wnaethai Moses yn yr anialwch." Codi un babell i gael cymeryd ei lle gan un arall, ïe, a chodi y deml gyntaf i gael cymeryd ei lle gan yr ail. Dyma fu hanes yr eglwys dan yr Hen Destament. Cyffelyb hefyd yw hanes yr eglwys dan yr Oruchwyliaeth Newydd. Ond nid fel hyn y mae i fod byth yn hanes yr eglwys. Y mae yna "babell yr hon ni thynir i lawr, ac ni syflr un o'i hoelion byth" i gael ei chodi o'r diwedd. Mae yna adeilad o feini caboledig i gael ei chodi yn y man, nad oes cyfnewidiad na symudiad i fod arni. "A mi a osodaf dy geryg di â charbuncl, ac a'th sylfaenaf â meini saphir. Gwnaf hefyd dy ffenestri o risial, a'th byrth o feini dysglaer, a'th holl derfynau o geryg dymunol."

Bernir gan eraill, ac y mae y cyddestynau i raddau yn ffafrio y golygiad hwn, mai at gariadferch dreisiedig y cyfeirir yma. Y mae yn wrthodedig gan y rhai yr aeth ar eu hol yn lle ei

gŵr; ac y mae y rhai a wnaethant gam â hi wedi ei rhwymo, draed a dwylaw, mewn cwch bregus; ac anfon hwnw ar frigau y tonau, gan ddysgwyl y gofalai y môr na welid hi, ac na chlywid oddiwrthi byth mwy.

Yn adnodau y testyn y mae yr Arglwydd, y Priod a adawyd yn hollol ddiachos ganddi, pan yn ei gweled wedi ei gadael yn y sefyllfa ddigysur, beryglus a thruenus yma, yn myned ati, ac yn addaw ei chymeryd yn ol i'w fynwes. Ac yn yr olwg arni, yn y sefyllfa adfydus hon, dywedir y geiriau "Y druan, helbulus gan dymhestl, y ddigysur." A pha olygfa fwy truenus na'r ferch unig ar ganol yr eigion heb lyw na chwmpawd; yn rhwymedig draed a dwylaw wrth y llestr ag y mae wedi ei gosod ynddo? Nid oes ganddi ond ofni, bob mynyd, y bydd y don nesaf yn troi y cwch a'i wyneb yn isaf, neu yn ei lanw ac yn ei suddo. Pan â y cwch i'r pant, rhwng dwy don, ofna yr aiff y tonau i ymgofleidio, ac y bydd iddynt ei gwasgu hithau, wrth gofleidio eu gilydd, i'w mynwes wleb. Ofna, bob mynyd, i'r cwch daro y graig. Ac am fyned i'r lan, y mae wedi ei gosod yn y fath safle fel ag y mae cyfeiriad y gwynt yn ei chwythu ymhellach o hyd oddiwrth y tir. Ac heblaw hyny, byddai cael dyfrllyd fedd yn fwy cydweddol â'i theimlad na chael myned i'r lân. Mae yn wrthodedig gan ei chariadau; mae yn ddirmygedig gan ei chydnabod; mae wedi cloi drws ei chartref wrth adael ei Phriod. Ond y mae ei Phriod yn canfod ei chaledi, ac yn cynnyg ei gariad a'i serch iddi eto, ac yn addaw adeiladu cartref ardderchog iddi am y gweddill o'i dyddiau, "Mi a osodaf dy geryg di â charbuncl, ac a'th sylfaenaf â meini saphir."

Mae yn dechreu trwy ddangos iddi fod modd symud ei gwarth. "Nac ofna; canys ni'th gywilyddir; ac ni'th warthruddir am na'th waradwyddir; canys ti a anghofi waradwydd dy ieuenctyd, a gwarthrudd dy weddwdod ni chofi mwyach." Fe fydd i dy Briod faddeu mor lwyr i ti nes yn y mwynhad o'i gariad, y bydd i ti anghofio dy fod erioed wedi ei ddigio. Os nad wyt yn bobpeth yn awr i foddio dy Briod, gall ef dy wneyd yn gyfryw. "Oblegid dy Briod yw dy Greawdwr," gall ef dy greu o newydd. Ac y mae yn sicr o dy greu yn ddigon sanctaidd fel na bydd raid i ti gywilyddio o honot dy hun. "Dy Brynwr hefyd Sanct Israel, Duw yr holl ddaear, y gelwir ef." "Canys fel gwraig wrthodedig a chystuddiedig o ysbryd y'th alwodd yr Arglwydd, a gwraig ieuenctyd, pan oeddit wrthodedig." Mae yn gwybod dy hanes i gyd, ac am ei fod yn gwybod dy hanes, am hyny y mae wedi dyfod atat yn awr. "Dros enyd fechan y'th adewais, ond â mawr drugareddau y'th gasglaf. Mewn ychydig soriant y cuddiais fy wyneb oddiwrthyt enyd *awr;* ond â thrugaredd dragywyddol y trugarhaf wrthyt, medd yr Arglwydd dy Waredydd. Canys fel dyfroedd Noah y mae hyn i mi; canys megys y tyngais nad elai dyfroedd Noah mwy dros y ddaear, felly y tyngais na ddigiwn wrthyt, ac na'th geryddwn." Fel y mae fy llw yn cadw dyfroedd Noah rhag boddi y ddaear, felly hefyd y mae fy llw rhyngot tithau a dyfrllyd fedd, er y perygl yr wyt ynddo yn awr. Er mwyn cyfammod Duw bu gorfod i ddyfroedd Noah gilio a dychwelyd oddiar y mynyddoedd a'r bryniau. Bydd yn rhaid i'r mynyddoedd a'r bryniau hwythau gilio yn hytrach na gadael i lestr fy anwylyd, ag sydd o fewn rhwymyn fy nghyfammod, dd'od i wrthdarawiad â hwynt. "Y mynyddoedd a giliant, a'r bryniau a symudant; eithr fy nhrugaredd ni chilia oddiwrthyt, a chyfammod fy hedd ni syfl, medd yr Arglwydd sydd yn trugarhau wrthyt." "Y druan, helbulus gan dymhestl, y ddigysur." Yn lle bod â dy fywyd mewn enbydrwydd fel hyn ar frigau y tonau, cei gartref â'i geryg wedi eu gosod â charbuncl, ac wedi ei sylfaenu â saphir.

Fel y mae yr hen forwr ar ol gwneyd ei ffortiwn ar y môr yn codi cartref tawel i fyw gyda'i briod a'i blant am y gweddill o'i oes, felly, hefyd, yr addewir i ferch Sïon yma. "Gwnaf hefyd dy ffenestri o risial, a'th byrth o feini dysglaer, a'th holl derfynau o geryg dymunol. Dy holl feibion hefyd fyddant wedi eu dysgu gan yr Arglwydd; a mawr fydd heddwch dy feibion. Mewn cyfiawnder y'th sicrheir." Yr wyt yn gweled i ba beryglon y mae pechod wedi dy arwain. Ond "mewn cyfiawnder y'th sicrhëir;

byddi bell oddiwrth orthrymder, canys nid ofni; ac oddiwrth ddychryn, canys ni nesâ atat."

Tebyg i hyn hefyd ydyw cyflwr enaid annychweledig. Mae yn rhwym wrth hen gwch bregus y corff, yn hwylio ar donau a thraethau peryglus bywyd, mewn perygl bob enyd i'w lestr gael ei dryllio neu ei dymchwelyd. Ac y mae yr agenau mor amlwg yn nghychod rhai o honom, fel y mae yn hawdd dyweyd os na ddaw gwaredigaeth fuan mai boddi fydd ein rhan. Ond y mae llong odidog yr efengyl yn dywylio er's dyddiau, gan ddysgwyl i ti godi *signal of distress*. Ac y mae Cadben mawr ein hiachawdwriaeth â'i ymysgaroedd yn cynhesu mewn awyddfryd dy achub, yn llefain uwch dy ben, "y druan, helbulus gan dymhestl, y ddigysur."

Pan oedd yr "Arizona" y tro diweddaf yn croesi o Liverpool i New York, canfyddodd un diwrnod lestr yn y pellder yn myned ar dân; ceisiodd dynu sylw, a chynnyg gwaredigaeth i'r rhai oedd ar ei bwrdd. Bu am ddiwrnod cyfan yn ei gwylio ac yn dal ei hun yn barod i roi gwaredigaeth os byddai anghen. Ond ar derfyn y dydd, y mae y llong oedd yn myned ar dân yn rhoi arwydd y gallai yr "Arizona" fyned i'w thaith, fod pob peth yn iawn. Ond llosgi yn ulw ddarfu iddi er iddynt roi arwydd fod pob peth yn iawn. Mae arnaf ofn fod yma rai yn dywedyd fod pob peth yn iawn, ac yn rhoi arwydd i long Iachawdwriaeth i fyned heibio, tra y mae mwg anwiredd o amgylch eich llestri yn dyweyd mai llosgi yn ulw fydd eu diwedd. A gaiff Sanct Israel fod yn Waredydd i chwi heddyw?

II. Dyfodol yr Eglwys: "Wele mi a osodaf dy geryg di â charbuncl, ac a'th sylfaenaf â meini saphir. Gwnaf hefyd dy ffenestri o risial, a'th byrth o feini dysglaer, a'th holl derfynau o geryg dymunol."

Mae yr ail ran o'r testyn yn darlunio merch Sïon wedi d'od i'r lân, ac yn adeiladu tŷ hardd i fyw am byth ar ol gwneyd ei ffortiwn trwy dd'od o hyd i'r un perl gwerthfawr.

Mae amryw ddarlleniadau gwahanol yn cael eu cynnyg ar yr adnod hon. Ar y cyfan credwn fod y darlleniad Cymraeg yn gwneyd cystal chwareu têg â'r gwreiddiol ag un o honynt. Prin y mae y cyfieithiad diwygiedig yn ddiwygiad ar yr adnod hon. Mae yr anhawsder yn codi trwy geisio cael meini gwerthfawr diweddar i gyfateb i feini yr hen fyd. Ac yn yr adnod hon, yn y gwreiddiol, nid meini neillduol ond natur y meini a osodir allan. Felly yn lle cyfieithiad, yn gyffredin, ceir esboniad pa feini diweddar sydd yn meddu y nodweddion y cyfeirir atynt yn y gwreiddiol. Hyn sydd yn rhoddi cyfrif am y gwahanol ddarlleniadau. Erfyniwn eich sylw at y pethau canlynol oddiwrth y gweddill o'r testyn.

1. *Undeb yr Eglwys:* "Mi a osodaf dy geryg di â charbuncl."

2. *Sefydlogrwydd yr Eglwys:* "Ac a'th sylfaenaf â meini saphir."

3. *Athrawiaethau yr Eglwys:* "Gwnaf hefyd dy ffenestri o risial."

4. *Ordinhadau yr Eglwys:* "A'th byrth o feini dysglaer."

5. *Cyfoeth diderfyn yr Eglwys:* "A'th holl derfynau o geryg dymunol."

1. *Undeb yr Eglwys:* "Mi a osodaf dy geryg di â charbuncl." Pa beth a feddyliai y cyfieithwyr wrth garbuncl yn y fan hon? Yr hyn a feddylir yn gyffredin wrth garbuncl yw math o faen gwerthfawr o liw coch tanbaid. Bernir fod Esaiah yn cyfeirio at faen coch tanbaid a falurid yn llwch gan ferched y dwyrain i wneyd paent prydferth, â'r hwn yr addurnent eu hamrantau a'u haeliau. Ymddangosai llygaid y merched a fyddai wedi paentio eu hamrantau yn y modd hwn, fel perlau wedi eu gosod mewn carbuncl. Nid at y meini y cyfeiria yma, ond at y glud, neu y clai, a ddefnyddid fel *cement* i gydio y meini â'u gilydd, fel y cyfieitha Lowth y geiriau: "I lay thy stones in cement of Vermilion." Mae hwn yn gryn lawer yn well na'r cyfieithiad diwygiedig: "I will set thy stones in fair colours." Ond nid oes un o'r ddau mor farddonol, pa beth bynag am gywir, a'r cyfieithiad Cymraeg: "Mi a osodaf dy geryg di â charbuncl." Maen fel hwy eu hunain fydd yn gludio y meini â'u gilydd. Mae morter brwd yr hen gestyll yn myned i'r cysgod wrth ymyl hwn. Un maen carbuncl sydd yn cydio yr holl feini eraill â'u gilydd. Perl a'i ymylon

wedi ei brydferthu â charbuncl fydd pob maen yn yr adeilad. Gwelwch yn awr y priodoldeb o ddyweyd mai undeb yr eglwys a ddysgir yn y rhan hon o'r testyn.

Dywedir am feini dwyfroneg yr archoffeiriad, "Byddant wedi eu gosod mewn aur yn eu lleoedd." Felly hefyd y dywedir yma, bydd ceryg yr eglwys wedi eu gosod nid mewn aur, ond mewn carbuncl, cadarnach, gwerthfawrocach, a harddach na'r aur, yn eu lleoedd. Bydd lliw y mur felly fel un maen carbuncl rhuddgoch tanbaid, a phob rhyw faen wedi ei osod yn gywrain ynddo.

Mae undeb yr eglwys felly, yn ol Esaiah, yn undeb cadarn. Yn gyffredin y mae y meini yn galetach na'r *morter* sydd yn helpio eu cydio â'u gilydd. Ond am furiau yr eglwys, y mae pob maen wedi ei osod ac yn cael ei gadw yn ei le, gan graig galetach na'r meini eu hunain. Craig yr Oesoedd yn toddi gan gariad ydyw y glud sydd yn cydio y ceryg â'u gilydd. Ond wedi rhoi y meini i mewn ynddi, y mae yn ymgaregu ac yn myned mor galed dan yr awelon sydd yn chwythu oddiar fynyddoedd gwynion Sanct-eiddrwydd dwyfol, fel na all un offeryn a lunier i'w herbyn lwyddo i wneyd ôl ewin byth arni.

Mae llawer o gwyno na byddai yr Eglwys yn fwy unol, a gwahanol rwymau wedi eu dyfeisio er ei huno. Ond ryw fodd neu gilydd, i bob ymddangosiad, y mae yr Eglwys yn dryllio pob rhwymau. Meddyliodd awdurdodau yr Eglwys Babaidd am gadw yr Eglwys o fewn rhwymau unbenaeth ac awdurdod y Pab. Ond ni fu yr hen gerpyn hwnw ar unrhyw adeg yn ddigon hir er rhoi cwlwm ar yr holl Eglwys o'i fewn. Ac wrth geisio ei wasgu yn dynach at ei gilydd yn nyddiau Luther a Calvin fe rwygodd darn helaeth o hono i ffwrdd; ac y mae pob gwnïad sydd wedi bod arno o hyny hyd yn awr yn tori gafael allan, nes y mae y rhwymyn hwn yn myned yn annhebycach o hyd o fod yn rhwymyn undeb yr holl Eglwys.

Wedi tori rhwymau yr Eglwys Babaidd, tarawyd ati i gael Credöau a Chyffesion i geisio uno yr Eglwys. Ond nid oes un o'r rhai'n yn ddigon hir i rwymo yr holl Eglwys. A phe y gellid cylymu yr oll yn mhenau eu gilydd, prin y byddai y cwbl yn rhaff ddigon hir i roi cwlwm am yr holl Eglwys. Ac am fod yn ddigon cref i ddal yr Eglwys, mae hyny allan o'r cwestiwn. Pe plethid saith o honynt gyda'u gilydd, a phe rhwymid yr Eglwys â'r rhaff seithblyg hon; pan deimla ei bod yn myned i ymladd â'r Philistiaid, megys y torodd Samson "saith o wdyn irion, y rhai ni sychasant," felly hefyd fe dŷr yr Eglwys, er i'w hinc fod heb sychu, y Cyffesion a'r Credöau, fel y torir edau garth wedi cyffwrdd â'r tân. A pha beth bynag fydd natur y "rhaffau newyddion y rhai ni wnaethpwyd gwaith â hwynt," a gymerir gan Bresbyteriaid ac eraill i rwymo yr Eglwys â hwynt yn yr oes hon, fe fydd i'r Eglwys eu tori hwynt oddiar ei breichiau fel edau.

Mae rhai yn meddwl mai plethu saith gudyn pen yr Eglwys ynghyd â gwe'r Wladwriaeth a sicrhâ undeb yr Eglwys. Ond os na cha yr Eglwys ei hun yn rhydd unrhyw ffordd arall, aiff "ymaith â hoel y garfan ac â'r wê." Nid rhwymau oddiallan, ond bywyd oddimewn, sydd yn sicrhau undeb yr Eglwys. Pa mor gadarn bynag, nid oes un rhwymyn o ddyfeisiad dynol a all gadw yr Eglwys wrth ei gilydd. Rhwymyn Craig yr Oesoedd, dyma yr unig rwymyn all gydio yr holl Eglwys â'i gilydd. "Aroswch ynof fi, a mi ynoch chwi." "O'r hwn y mae yr holl gorff wedi ei gydgynnull a'i gydgysylltu." "Jerusalem a adeiladwyd fel dinas wedi ei chydgysylltu ynddi ei hun." "Wele, mi a osodaf dy geryg di â charbuncl." Mae dull undeb yr Eglwys yn un ag sydd yn ychwanegu yn ddirfawr at ei harddwch. "Fel gweledïad bwa a fydd yn y cwmwl ar ddydd gwlawog, fel hyn yw gweledïad y dysgleirdeb o amgylch" pob un o'r meini. "Mi a osodaf dy geryg di â charbuncl." Lliw tân sydd ar y muriau oddiallan. Mae pob maen yn ymddangos wedi ei gylchu â gwaed. Mae pob addewid a phob gras wedi eu cylchu â gwaed. Fel y dywedai yr Hybarch Christmas Evans mai ei unig gysur pan yn marw, wrth feddwl am ei bregethu, oedd cofio na phregethodd un bregeth erioed heb waed yn y cawg. Os bydd y bregeth yn gwmwl o fygythion, ar ddydd gwlawog, gadewch i ninnau

ofalu, fel yr Archoffeiriad gynt gyda'r arogldarth, am daenellu y gwaed i wneyd bwa ynddo. Yn ol Esaiah, lliw gwaed yn melltenu dig yn erbyn pechod yw yr olwg a geir ar furiau y ddinas, fel y darllena un y geiriau, "Mi a osodaf dy geryg mewn gwaed."

Mae gwaed yn naturiol yn un o'r pethau mwyaf anhawdd ei olchi i ffwrdd. Nid oes dim fedr ddinystrio perthynas trwy waed. Undeb felly ydyw undeb yr Eglwys. Mae y saint yn un, am eu bod o'r un gwaed, ac o'r un Tad. Undeb annattodol ac undeb sydd yn ddychryn i bawb o'i gelynion ydyw undeb yr Eglwys. "A'r gogoniant a roddaist i mi, a roddais iddynt hwy, fel y byddont un megys yr ydym ni yn un. Myfi ynddynt hwy, a thithau ynof fi, fel y byddont wedi eu perffeithio yn un, fel y gwypo y byd mai tydi a'm hanfonaist I, a charu o honot hwynt megys y ceraist fi." "A mi a osodaf dy geryg di â charbuncl."

2. *Sefydlogrwydd yr Eglwys:* "Ac a'th sylfaenaf â meini saphir." Y mae y maen hwn o ran ei liw yn debyg i liw awyr lâs. "Gwelsant Dduw Israel, a than ei draed megys gwaith o faen saphir, ac fel corff y nefoedd o ddysgleirdeb." Nid at y ceryg isaf yn y mur y cyfeirir yma, ond at y graig yr oedd y muriau wedi eu gosod arni. Dywedir hefyd, gan Ioan, fod gorsedd Duw yn sefyll ar balmant megys môr o wydr. Ac y mae môr o wydr a'r saphir yn cyfateb i'w gilydd o ran eu lliw. Y saphir felly yw palmant y nefoedd.

Mae amryw o'r nodweddion yn perthyn i'r maen saphir yn peri ei fod yn gymhwys i arddangos llawr y Jerusalem Newydd. Mewn ystyr gyfriniol, bernid fod y saphir yn neillduol gysegredig a sanctaidd. Dywedai y Rabbiniaid Iuddewig, pe y rhoddid neidr fyw mewn costrel, y byddai dal maen saphir wrth enau y gostrel yn rhwym o beri ei marwolaeth.

Dywedent hefyd mai ar ddau faen saphir yr ysgrifenodd Duw y gyfraith. Cychwynodd y syniad am sancteiddrwydd y maen saphir o bosibl o'r ffaith hon; neu ynte eu syniad am gysegredigrwydd y maen saphir a roddodd fôd i'r syniad mai ar feini saphir yr oedd y gyfraith wedi ei hysgrifenu. Ond y cyntaf yw y tebycaf i fod yn gywir. Os mai ar feini saphir yr ysgrifenwyd y deg gorchymyn, ymddangosai y gyfraith i Israel fel pe buasai Duw wedi codi dau o feini o balmant y nefoedd, a chyfraith y nefoedd yn ysgrifenedig arnynt, oblegid "A than ei droed megys gwaith o faen saphir;" dyma y modd y "gwelsant Dduw Israel." Sancteiddrwydd a chyfiawnder yw sylfeini gorsedd Duw. "Canys trwy gyfiawnder y sicrheir yr orsedd."

A'r hyn ydyw cadernid gorsedd Duw, dyma hefyd ydyw cadernid yr eglwys. Oblegid ar lawr yr eglwys y mae gorsedd yr Arglwydd wedi ei chodi. "Gorsedd ogoneddus ddyrchafedig o'r dechreuad yw lle ein cysegr ni." Sancteiddrwydd, cyfiawnder a chariad y Drindod Sanctaidd ydyw y palmant ar ba un y mae yr eglwys wedi ei hadeiladu.

Maen caled ydyw y saphir. Mae cestyll ar y ddaear weithiau wedi eu hadeiladu ar graig. Ond nid yw hyny yn sicrhâd y safant. Yr oeddwn ychydig amser yn ol yn myned heibio hen Gastell Conwy. Y mae hwnw wedi ei adeiladu ar graig, ond craig âg agenau ynddi. Ac mewn rhai manau yr oedd y mur yn crogi, a'r graig wedi ei churo ymaith oddi tano gan y tywydd, a darnau eraill o'r graig nad yw ond mater o amser na byddant hwythau wedi cwympo. Ond ni wna llifddyfroedd tragywyddoldeb byth wisgo dan sylfeini Eglwys Dduw: "Ac a'th sylfaenaf â saphir." Tra bydd Duw yn Dduw bydd sylfaen yr eglwys yn aros.

Mae palmant y nefoedd o ddefnydd digon caled fel y pery, er pob traul, byth yn wastad. Ni bydd yno byllau i'r saint ddisgyn iddynt, na maen tramgwydd i gwympo wrthynt.

3. *Athrawiaethau yr Eglwys:* "Gwnaf hefyd dy ffenestri o risial." Yr hyn a feddylir yn y fan hon wrth ffenestri ydyw rhwyllau, neu ddellt i saethu drwyddynt o'r tyrau. Cyfieithir yr un gair yn y Cyfieithiad Diwygiedig yn binaclau. Mae y naill a'r llall yn gywir, oblegid at dyrau y ddinas trwy ffenestri, neu ddellt, pa rai y saethai y gwylwyr yn erbyn ymosodwyr y ddinas, y cyfeirir yma. Tyrau, neu binaclau, dinas Duw ydyw athrawiaethau yr eglwys. Trwy ddellt

y rhai hyn y dylai y swyddogion wylio ac amddiffyn y ddinas. "Gwylia arnat dy hun, ac ar yr athrawiaeth; aros ynddynt; canys os gwnei hyn, ti a'th gedwi dy hun a'r rhai a wrandawant arnat." Fel y mae y tyrau yn gadernid i'r ddinas, felly hefyd y mae yr athrawiaethau yn gadernid i eglwys Dduw. Mae tuedd mewn rhyw gylchoedd, yn yr oes hon, i beidio rhoi ond ychydig bwys ar athrawiaethau crefydd, gan awgrymu nad ydynt ond *lumber*, neu hen gelfiach, ag yr äi yr eglwys ymlaen yn llawer hwylusach hebddynt. Dyma berygl y rhai nad ydynt yn perthyn i unrhyw enwad, ac a alwant eu hunain yn efengylwyr. Ond efengylwyr heb efengyl ydyw y rhai nad ydynt yn rhoi lle i athrawiaeth yn eu gweinidogaeth. Mae y milwr yn deall yn dda os na all gadw ei gastell rhag y gelyn, mai gobaith gwan sydd ganddo i gadw y gweddill o'r ddinas. Mae yr un peth yn wir am yr eglwys, os cyll hithau ei gafael o athrawiaethau mawrion a hanfodol Cristionogaeth, fe gyll ei gallu i amddiffyn dyledswyddau Cristionogol, ac i gadw draw anfoesoldeb rhag dylifo i'r eglwys. Mae y milwr wrth amddiffyn y tŵr yn amddiffyn ei hun a'r ddinas; felly hefyd, yn ol yr Apostol, y mae y gweinidog sydd yn gwylio ar yr athrawiaeth yn amddiffyn ei hun a'i gynnulleidfa. "Aros ynddynt, canys os gwnei hyn, ti a'th gedwi dy hun, a'r rhai a wrandawant arnat."

Mae tyrau Sïon yn uchel, yn gadarn, yn hardd a llïosog. Mae tyrau Sion yn ddigon uchel fel y gall yr afradlawn eu gweled o bob pellder. Ië, y maent yn ddigon dysglaer hefyd fel y gellir eu gweled trwy bob tawch a thywyllwch. Mae yr afradlawn wedi myned ymhell iawn o dŷ ei Dad. Y mae mynyddoedd uchel o bechodau rhyngddo a'i gartref; ond ni raid iddo ond troi na bydd pig-dyrau athrawiaethau gras i'w gweled; yn dangos cyfeiriad Sïon, dros ben bryniau uchaf ei annuwioldeb. Ydyw, y mae eu goleuni tanbaid dysglaerwyn yn llewyrchu trwy bob caddug. Mae y grisial yn wŷn ymhob goleu, ond y mae yn anmhosibl edrych arno dan dywyniadau yr haul. Mae athrawiaethau yr efengyl hefyd bob amser yn bur, ac yn sanctaidd, ond y mae yr olwg yn ofnadwy arnynt dan belydrau Haul y Cyfiawnder. Mae y ffenestri o risial yn dangos yr eglwys fel llewyrch i bechaduriaid ac fel goleuni y byd. "Gwnaf hefyd dy ffenestri o risial."

Mae yr athrawiaethau yn gadarn a llïosog. "Amgylchwch Sïon, ac ewch o'i hamgylch hi; rhifwch ei thyrau hi." Nid ar yr un tŵr y mae y gelynion yn ymosod bob amser; felly hefyd rhoddir llawer mwy o sylw i athrawiaethau neillduol ar ryw gyfnodau arbenig, am mai ar y rhai hyn y bydd yr ymosodiad. Ac y mae byddin y Groes o'r dechreu wedi bod mor ychydig mewn nifer, i gyfateb i'r "ddinas fawr, Jerusalem sanctaidd," sydd ganddynt i'w hamddiffyn, fel y bydd yn rhaid cael y fyddin i gyd i'r fan y bydd yr ymosodiad. Hyn sydd yn cyfrif paham y mae athrawiaethau oeddynt yn cael llawer o sylw mewn un oes yn cael ond ychydig yn yr oesau dilynol. Pan genfydd y gelynion fod unrhyw dŵr yn rhy gadarn iddynt, symudant at un arall, gan dybied ei fod yn wanach; neu, yr hyn sydd yn gyffredin yn wir, nad ydyw ar y pryd yn cael ei wylio. Ac am dipyn yn y dechreu, pan wedi newid ei safle, ofnir fod y gelyn yn myned i gario y cwbl o'i flaen. Y mae gwylwyr Sïon dipyn yn araf i adael eu hen safle, oblegid ofnant mai amcanu eu hudo trwy ddichell o'u castell y mae y gelyn; ond yn araf deg, wedi cymeryd digon o amser i edrych o'u cwmpas cyn gadael yr hen amddiffynfa, a sylweddoli yn glir mai o bwynt arall y mae yr ymosodiad i fod o hyn allan, cyfarfyddant y gelyn ar ei dir newydd; ac wedi i'r fyddin ail-drefnu ei hun a dechreu taflu saethau gwirionedd trwy ddellt yr athrawiaethau, bydd yn rhywyr i'r gelyn newid ei safle a phwynt ei ymosodiad. Dyma ydyw hanes yr eglwys wedi bod o'r dechreu hyd yn awr. Adgyfodiad Crist oedd tŵr Ophel yr eglwys Apostolaidd. Oddiyma yr annelai yr Apostolion eu holl saethau. Ac amddiffynasant y tŵr mor dda fel mai prin y mae neb wedi meiddio gwneyd ymosodiad uniongyrchol ar yr athrawiaeth hono o hyny hyd yn awr.

O dŵr Cyfiawnhad trwy ffydd y lluchiai Luther saethau gwirionedd at ben y bwystfil Rhufeinig nes y crynai

Ewrop wrth eu sŵn. A chlwyfwyd y bwystfil mor drwm nes y gollyngodd hanner Ewrop o'i grafangau.

O dŵr Ail-enedigaeth yr ymosodai y Diwygwyr Methodistaidd ar annuwiaeth ac anystyriaeth y ddeunawfed ganrif. Dilysrwydd yr Ysgrythyrau ydyw un o'r tyrau ag y bydd yn rhaid i'r eglwys yr oes hon roddi ei holl ymadferthoedd ar waith i'w amddiffyn. Y mae yn gysur i ni mai po fwyaf y nerth gyda pha un yr anfonir y saethau i gyfeiriad dinas Duw, ni bydd hyn ond help ychwanegol i bylu eu blaen ac i'w gwneyd yn ddrylliau, pan ddisgynant ar binaclau grisial gwirioneddau yr efengyl. "A gwnaf dy binaclau o risial."

Yr anghenrheidrwydd am gosbi pechod ydyw un tŵr ag y mae gelynion croes Crist o'i amgylch er ys blynyddau bellach. Rhaid i'r eglwys ofalu amddiffyn hwn, neu adael i un o dyrau mawr yr eglwys fyned i ddwylaw y gelyn.

Mae gwahaniaeth mawr yn ffurf y ffenestri, ond y maent oll o'r un defnydd: "Gwnaf dy ffenestri o risial." Y maent oll yn adlewyrchu yr un goleuni. Mae y grisial yn adlewyrchu holl liwiau yr haul. Felly hefyd dylid pregethu holl gynghor Duw i'r byd. "Gwnaf dy ffenestri o risial." Y mae gogoniant Duw yn cael ei adlewyrchu ymhob athrawiaeth. "Gwnaf dy ffenestri o risial."

4. *Ordinhadau yr Eglwys:* "A'th byrth o feini dysglaer." Trwy yr ordinhadau, fel trwy y pyrth, yr ydym yn d'od i mewn i'r ddinas. Nid yr un moddion sydd yn cael ei fendithio i ddwyn pawb at Grist. Darllen y Gair sydd yn cael ei fendithio i un. Gwrando pregethu sydd yn cael ei fendithio i arall. Mae ordinhadau yr eglwys yn amrywiol a lliosog i gyfaddasu yr efengyl ar gyfer pob dosbarth o bobl. Mae pyrth y ddinas yn wynebu tua'r pedwar gwynt, i ddangos fod yr eglwys wedi ei chyfaddasu i breswylwyr y dwyrain a'r gorllewin, ac yn gartref priodol i'r rhai a ddeuant o'r gogledd ac o'r dehau. Mae pob un o ordinhadau yr eglwys yn faen dysglaer. Dylai hyn ennyn gofal a pharch ynom ninnau wrth eu trin. Pan yn nesu at balas, byddwn yn gwybod amcan pa beth i ddysgwyl oddifewn oddiwrth ymddangosiad y pyrth oddiallan. Pyrth y nef ydyw ordinhadau yr eglwys; fel y dywedai Jacob am dŷ Dduw, mai dyma borth y nefoedd. Gan mai dyma ydynt, pa ryfedd fod yr ordinhadau yn dysgleirio cymaint? Ond os ydyw y pyrth mor ddysglaer, beth raid fod y gogoniant oddimewn? Wrth weled mynedfa fawreddog yr ydym yn gwyleiddio ac yn ymbarotoi i fyned i mewn. Gadewch i ninnau ddyfod i fyfyrio yn aml ar ddysgleirdeb yr ordinhadau; ac wrth ymwneyd â'r ordinhadau fe ddeuwn ninnau yn y man i ddysgleirio, fel y daeth gwyneb Moses i ddysgleirio wrth edrych ar ogoniant yr Arglwydd.

Y gras cuddiedig yn yr ordinhadau sydd yn peri iddynt ddysgleirio mor ogoneddus. Na fydded i ni ddiystyru yr un o'r ordinhadau, gan gofio eu bod oll yn werthfawr a dysglaer.

5. *Cyfoeth diderfyn yr Eglwys:* "A'th holl derfynau o geryg dymunol." Nid palas ardderchog mewn anialwch ydyw cartref y Cristion. Gwelwyd ambell i foneddwr yn adeiladu palas ardderchog, ond aeth yn gymaint mwy costus nag y meddyliai ar y cyntaf, nes y mae wedi myned trwy ei ystad wrth ei godi, ac heb ddim i fyw ynddo erbyn ei orphen. Ond nid felly y bydd gyda'r Cristion. Y mae cyfoeth ei etifeddiaeth ef yn cyfateb i ardderchogrwydd ei balas. Gwir fod aur yn helaeth yn Meirionydd, ond y mae yno lawer o bethau gwaelach nag aur yn gymysg âg ef. Ond dyma etifeddiaeth a phob darn o honi nid yn unig yn aur, ond yn berl: "A'th holl derfynau o geryg dymunol." Mae mynyddoedd tragywyddoldeb yn llawn o feini ag y mae unrhyw un o honynt yn ffortiwn am byth i bechadur. Dyma yr etifeddiaeth ag y mae yr efengyl yn ein gwahodd i'w derbyn. A fydd i ni ei derbyn, ynte boddloni ar dlodi tragywyddol wedi ei gwrthod? "A'th holl derfynau o geryg dymunol."

"Mae Eglwys Dduw fel dinas wych
Yn deg i edrych arni,
Ei sail sydd berl odidog werth
A'i mur o brydferth feini.

"Gwyn fyd y dinasyddion sydd
Yn rhodio 'n rhydd ar hyd-ddi;
Y nefol fraint i minnau rho,
O Dduw! i drigo ynddi."

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI YR YSGOL SUL.

DOSBARTH IEUENGAF.

Gan y Parch R. HUMPHREYS, *Bontnewydd.*

LLYFR GENESIS.

AWST 3YDD. GEN. IX. 1—19. GEIRIAU DUW WRTH NOAH.

HANES Duw yn dinystrio y byd oedd yn ngwersi y mis diweddaf. Hanes y rhai a gadwyd yn yr arch, adeg y dinystr, yn dechreu byw yn y byd newydd, ydym yn ei gael yn ngwers y Sabboth hwn. Gellir galw y cyfnod cyn y diluw yn hen fyd, a'r cyfnod ar ol y diluw yn fyd newydd. Adda ydoedd y pen yn yr hen fyd, a Noah ydoedd y pen yn y byd newydd. Y mae holl ddynolryw yn blant i Adda. Efe yw ein tad ni oll. Y mae pawb a ddaeth i'r byd ar ol y diluw yn blant i Noah hefyd, oblegid o'i deulu ef yr hiliwyd y ddaear ar ol y dinystr. Gwir nad ydym yn gwybod pwy oedd gwragedd ei feibion, ond yn gymaint ag mai ei feibion ef oedd y tri mab a gadwyd i'w ganlyn, gallwn yn deg ystyried mai o hono ef yr hanodd pawb a anwyd wedi y diluw. Yr oedd yr Arglwydd mewn modd eglur yn edrych ar Noah fel y pen yn y byd newydd. Y mae yn ei fendithio fel yr ydoedd wedi bendithio y pen yn yr hen fyd. Y mae tebygrwydd a gwahaniaeth rhwng y fendith a roddir i'r ddau. Gorchymynir i Noah, fel i Adda, i ffrwytho a lluosogi, a llanw y ddaear. Rhoddir arglwyddiaeth ar greaduriaid eraill y ddaear hefyd yn y naill fendith a'r llall. Ond y mae sail yr arglwyddiaeth yn y ddwy yn wahanol. Am nad oedd Adda yn bechadur pan y cafodd ei fendithio, nid oedd gwrthryfel rhyngddo a'r un o'r creaduriaid na rhwng yr un o'r creaduriaid ag yntau; am hyny yr oedd ei arglwyddiaeth ef arnynt â'i sail ar undeb a chariad. Ond yr oedd Noah yn un wedi pechu ei hunan, ac yn ben byd pechadurus, am hyny y mae sail arglwyddiaeth dyn yn awr dros greaduriaid eraill y ddaear ar "ofn a dychryn" (adn. 2). Y mae y rhan nesaf o'r fendith yn cyfeirio at gynnaliaeth bywyd. Llysiau yn unig a roddwyd i Adda i fyw arnynt (pen. i. 29). Yn y fendith i Noah rhoddir ychwanegiad pwysig—sef caniatâd i fwyta cig. Mae yn bur bosibl fod ymborthi ar gig yn arferedig cyn y diluw, er fod hyny yn groes i ewyllys Duw, oblegid nid oedd byd pechadurus yn gwneuthur ei ewyllys Ef. Ond dyma y tro cyntaf i *ganiatâd* gael ei roddi i fwyta cig. Y mae y geiriau "pob ymsymudydd" (adn. 3), yn eang iawn eu hystyr, ac yn cymeryd i fewn bob dosbarth o greaduriaid sydd yn israddol i ddyn. Ynglŷn â bwyta cig, rhoddir un gwaharddiad pwysig i Noah, ac i ddynolryw trwyddo, sef peidio bwyta "cig ynghyd a'i einioes" (adn. 4). Y rheswm am y gwaharddiad yw mai einioes creadur yw "ei waed" (gwel Deut. xii. 23). Y mae bywyd yn gysegredig i'w Roddwr, a rhaid ei gymeryd ymaith yn llwyr cyn bwyta y cig. Cysegredigrwydd bywyd, hyd yn nod bywyd mewn ffurf isel, yw y wers a ddysgir trwy y gwaharddiad hwn. Ond y mae bywyd uwch na bywyd yr anifail, sef bywyd dyn. Y mae y gwerth a roddir ar fywyd dyn yn cael ei ddangos yn adn. 5, 6. GWAED EICH EINIOES, h.y., gwaed eich einioes a ddialaf fi. Yr oedd hyn i gael ei wneyd hyd yn nod ar fwystfil. O dan y gyfraith, yr oedd yr ŷch a gorniai unrhyw un i farwolaeth i gael ei labyddio (Exod. xxi. 28). Yr oedd cosbedigaeth am gymeryd einioes ymaith i gael ei gweinyddu hefyd ar "bob brawd" i'r llofruddiedig. Nid "brawd" yn yr ystyr gyffredin a feddylir, ond "brawd" yn yr ystyr o gyd-ddyn. Y mae adn. 6 yn hysbysu beth yw y gosbedigaeth sydd i fod am lofruddiaeth. Y mae gwaed y llofrudd i gael ei dywallt am iddo ef dywallt gwaed ei frawd. Y mae ei waed i gael ei dywallt hefyd "trwy ddyn." Yr Arglwydd oedd yn cosbi am lofruddiaeth o'r blaen, fel y gwelsom yn hanes Cain. Ond yn awr y mae yn rhoddi yr awdurdod i ddyn, yr hwn, yn gystal a'r llofruddiedig, sydd yn frawd i'r llofrudd. Paham y mae gwerth mor fawr yn cael ei roddi ar fywyd dyn? Yr ateb yw, "O herwydd ar ddelw Duw y gwnaeth efe ddyn." Y mae y rhan olaf o'r wers yn cynnwys addewid werthfawr i'r byd trwy Noah, ar yr hon y rhoddir yr enw "cyfammod." Y mae yr addewid yn un i ddyn, adar, anifeiliaid, a holl fwystfilod y ddaear. Y mae yr addewid i'w gweled yn adn. 11. Arwydd y cyfammod yw yr enfys. Nid oedd ar yr Arglwydd eisieu arwydd i gofio ei air, ond yr oedd yn ymostwng i roddi arwydd er mwyn i ni allu credu ei air yn fwy hyderus. Yr oedd yr enfys yn bôd cyn hyn, ond yr oedd y pryd hwn yn cael gwaith newydd a mwy anrhydeddus nag a fu iddi erioed cynt, sef bod yn arwydd y cyfammod rhwng Duw â'r ddaear. Mae yr holl liwiau sydd mewn natur i'w gweled yn y cylchau prydferth yn yr enfys, ar wa-

han oddiwrth eu gilydd—sef millyn *(violet)*, glas yr India *(indigo)*, glas *(blue)*, gwyrdd *(green)*, melyn *(yellow)*, lliw yr eur-afal *(orange)*, a'r coch *(red)*. Gwahanol ddognau o'r lliwiau hyn, yn gymysgedig â'u gilydd, sydd yn gwneyd i fyny yr holl wahanol ymddangosiadau lliwiol sydd i'w cael ar hyd y byd cyfan. Yn niwedd y wers, fe welir fod enwau meibion Noah yn cael eu rhoddi y drydedd waith, ac ychwanegir enw Canaan mab Cham atynt. I weled y rheswm dros fod enw Canaan yn cael ei roddi i fewn, rhaid cofio mai Moses oedd yn ysgrifenu yr hanes ar gyfer cenedl Israel, yr hon oedd â'i gwyneb ar wlad Canaan. Yr oedd yn ddyddorol iddynt hwy gael gwybod fod preswylwyr y wlad yr oeddynt yn myned iddi yn rhai dan felldith o ddyddiau eu tad (gwel adn. 25).

Awst 17eg. Gen. x. 25, 32; xi. 1—9. Twr Babel a'r gwasgariad.

I ddosbarth neillduol o ddarllenwyr, y mae y 10fed bennod yn dra dyddorol. Ond nis gellir dysgwyl iddi fod felly i'r dosbarth ieuengaf. Ond nodir dwy adnod o honi ag y gallai fod yn briodol galw eu sylw atynt. Hiliogaeth tri mab Noah yw yr enwau sydd yn y bennod. Hiliogaeth Sem yw y bwysicaf, am mai efe oedd tad yr Hebreaid, neu yr Iuddewon. Oddiwrth Heber (adn. 25), un o hiliogaeth Sem, y rhoddwyd yr enw Hebreaid ar genedl Israel. Yr oedd gan Heber ddau fab—Peleg a Joctan. Yr oedd Peleg yn hynafiad yr Hebreaid, a Joctan yn hynafiad yr Arabiaid. Ystyr yr enw Peleg yw *rhaniad*. Yn ei ddyddiau ef y cymerodd y gwasgariad y sonir am dano yn y rhan olaf o'r wers le (pen. xi. 1—9). Y mae felly ddau reswm dros ddyweyd fod dyddordeb neillduol yn perthyn i'w hanes. Hiliogaeth Sem, trwy Peleg, yw yr un y mae a wnelo yr hanes yn y llyfr hwn, ac ymron yr oll o'r Hen Destament, â hi. Cyn dyddiau Peleg yr oedd holl drigolion y byd yn siarad yr un iaith. Nid oes neb a ŵyr pa iaith ydoedd hono. Ond yr oedd pawb ymhob man yn deall eu gilydd yn siarad. Yr oeddynt yn byw yn Armenia. Talaeth eang yn Asia yw Armenia. Oddiyma yr oedd trigolion y byd yn ymdaith (adn. 2), ac yn myned i gyfeiriad y de-ddwyrain, a daethant i dir Sinar. Tiriogaeth o amgylch Babilon yw Sinar. Fe wêl y rhai ieuainc ar unwaith wrth edrych ar y *map* fod Sinar i'r de-ddwyrain o Armenia. Ar ol cyrhaedd i'r lle hwn penderfynodd y bobl adeiladu tŵr uchel iawn. Nid yw yn hollol eglur beth oedd eu hamcan wrth wneyd tŵr. Y dyb fwyaf cyffredin yw mai er mwyn iddynt gadw gyda'u gilydd yn lle ymwasgaru ar hyd y ddaear. Y defnyddiau oedd ganddynt at wneyd y tŵr oedd priddfeini a chlai. "Priddfeini" yw meini wedi eu gwneuthur o glai, tuag at adeiladu, ac wedi eu llosgi mewn trefn i'w caledu, a'u gwneyd yn gymhwys i'r gwaith. Dyma y tro cyntaf y sonir am danynt yn y Bibl. Y "clai" y sonir am dano yma ydoedd sylwedd pyglyd, hynod wydn a gafaelgar. Y mae digonedd o hono i'w gael ar lân y Môr Marw. Y mae yn uno y priddfeini â'u gilydd yn y fath fodd fel mai gorchwyl anhawdd yw eu tynu oddiwrth eu gilydd. Yr oedd y bobl yn dechreu gwaith nad oedd yr Arglwydd yn foddlawn iddynt ei gyflawni. Disgynodd yr Arglwydd i edrych arnynt fel y gwnaeth ar ol hyn i edrych ar ddinasoedd y gwastadedd (pen. xviii. 21). Defnyddir y rhif lïosog yn adn. 7 fel yn pen. i. 26. I attal y gwaith cymysgwyd yr ieithoedd. Am nad allai y bobl ddeall eu gilydd yn siarad, nis gallent gwblhau y tŵr, ac am yr un rheswm nid oedd mwyach rwymyn i'w cadw gyda'u gilydd. Am hyny gwasgarwyd hwynt dros wyneb y ddaear. Yn nyddiau Peleg y cymerodd hyn le

Awst 24ain. Gen. xi. 27—32; xii. 1—5. Galwad Abram.

Y ddau ddyn pwysicaf y cyfeirir atynt yn y Bibl cyn dyddiau Abram ydoedd Adda a Noah—y pen yn yr hen fyd, a'r pen yn y byd newydd. Ag Adda y gwnaed y cyfammod gweithredoedd yn Eden, ac iddo ef y rhoddwyd yr addewid am Had y wraig ar ol iddo dori y cyfammod. A Noah hefyd gwnaeth yr Arglwydd gyfammod, yr hwn a gynnwysai addewid o beidio ymweled â'r byd mwy â dyfroedd diluw. Y dyn pwysicaf y sonir am dano yn y gwersi o hyn i ddiwedd y flwyddyn yw Abram, enw yr hwn sydd yn cael ei ddwyn i fewn yn ngwers y Sabboth hwn. Enw ei dad oedd Terah, a pherthynai i hiliogaeth Sem. Enwir dau o feibion i Terah heblaw efe, sef Nachor a Haran. Yn ol yr hyn a ddywedir gan Abram ei hun (pen. xx. 12), yr oedd Sarai yn hanner chwaer iddo—yn ferch ei dad, ond nid yn ferch ei fam. Yr oedd Lot yn nai iddo fab ei frawd Haran, a Milcah ac Iscah yn ddwy nith o ferched ei frawd Nachor. Cartrefai y teulu yn Ur. Nid yw yn hollol sicr pa un ai enw ar ddinas, talaeth, neu wlad, ydoedd Ur. Y tebygolrwydd yw mai enw ar ddinas ydoedd. Y mae yn amlwg ei bod yn Caldea, h.y., yn rhan ddeheuol Babilonia. Oddiyma

y cafodd Abram ei alw gan yr Arglwydd, ac yr oedd ei alwad yn ddygwyddiad pwysig yn hanes y byd. Yn ei deulu ef yr oedd crefydd i gael cartref am amser maith, ac o'i deulu ef yr oedd y Gwaredwr i gael ei eni. Dyma sydd yn gosod pwysigrwydd ar ei hiliogaeth. Amser galwad Abraham yr oedd 2083 o flynyddoedd wedi pasio er creadigaeth y byd. Yn xi. 31, enwir y rhai oedd yn cychwyn gydag Abram o Ur. Y lle cyntaf iddynt aros ynddo ar ol gadael Ur, ydoedd Haran. Yr oedd y lle hwn yn sefyll i'r gogledd o Mesopotamia, rhwng yr afonydd Euphrates a Chebar. Tra yn aros yma, casglasant gyfoeth, a chawsant brofedigaeth yn marwolaeth Terah, pen y teulu. Nid yw yn hollol sicr pa un ai yn Ur, ai yn Haran, y darfu yr Arglwydd lefaru xii. 1—3. Y tebygolrwydd yw mai yn Ur. Sylwer ar ffurf y gorchymyn, i ddangos ei fod yn anhawdd. Gorchymynir i Abram adael ei wlad, ei genedl, a thŷ ei dad. Y mae y pethau canlynol yn cael eu haddaw iddo. (1) Y byddai i genedl gref hanu o hono; (2) Llwyddiant tymmorol ac ysbrydol; (3) Anrhydeddu ei enw; (4) Bod yn fendith i holl deuluoedd y ddaear trwy y Messiah yr hwn oedd i ddyfod o hono. Ar ol bod am ysbaid yn Haran, daethant i wlad Canaan. Rhaid oedd iddynt groesi yr Euphrates ar eu ffordd. Bernir yn gyffredin mai oddiwrth eu gwaith yn croesi yr afon yma y cafodd hiliogaeth Abram eu galw, yn ol enw Heber, yn Hebreaid. Ystyr y gair Hebreaid yw, *o'r tu arall*. Edrychid ar deulu Abram fel rhai *o'r tu arall i'r afon*.

AWST 31AIN. GEN. XII. 6—20. ABRAM YN NGHANAAN AC YN YR AIPHT.

Y lle cyntaf i Abram aros ynddo yn Nghanaan ydoedd Sichem, dinas rhwng mynydd Ebal a mynydd Gerizim. Yn lle gwastadedd Moreh darllener derw Moreh. Ystyr y gair Moreh yw *dysgawdwr*. Tebyg mai enw ar ddyn ydoedd. O dan dderw y dysgawdwr hwn yr ymddangosodd yr Arglwydd i Abram ac y dywedodd, "I'th had di y rhoddaf y tir hwn," sef tir Canaan. Oblegid yr addewid hon i Abram, y galwyd gwlad Canaan yn Wlad yr Addewid. Am faintioli y wlad gwel Gwerslyfr, tu dal. 2. Yr hyn a wnaeth Abram gyntaf ar ol cael yr addewid oedd adeiladu allor i'r Arglwydd. Lleoedd i offrymu aberthau i'r Arglwydd ydoedd allorau. Dyma yr ail allor y sonir am dani. Y gyntaf oedd yr eiddo Noah (pen. viii. 20). Yr ail le i Abram wersyllu ynddo yn Nghanaan ydoedd rhwng Bethel a Hai. Yr oedd Bethel yn ddinas tua 12 milltir i'r gogledd, a Hai tua 9 milltir i'r gogledd o Jerusalem. Byddai yn dda i'r athrawon wrth ddechreu ar hanes teithiau Abram ofalu am fod enwau y lleoedd yr ymwelodd efe â hwynt, ynghyd a'u safle ddaearyddol, yn cael eu cadw yn nghof pob un yn eu dosbarthiadau. Teithiodd Abram i gyfeiriad deheuol y wlad. Gan nad ydoedd tir Canaan wedi ei ddiwyllio ond yn amherffaith, yr oedd yn bur agored i newyn. Cymerodd hyny le yr adeg hon yn hanes Abram. Yr oedd y rhan hono o wlad yr Aipht oedd yn terfynu ar wlad Canaan yn bur ffrwythlawn. Oblegid y newyn aeth Abram a Sarai i'r Aipht. Fel y canlyn y dywed Mr. Charles yn y *Geiriadur* am yr Aipht:—"Y mae gwlad yr Aipht yn 603 o filldiroedd o hyd, ac yn 300 o led. Nid oes nemawr o wlaw un amser yn y wlad hon; ond y mae yr afon Nilus yn rhedeg trwy ei chanol, ac yn llifeirio drosti, trwy doddiad yr eira ar y mynyddoedd, ac yn ei dyfrhau yn flynyddol. Y llaid y mae dyfroedd yr afon yn ei adael ar eu hol yw gwrtaith y tir." Aeth Jacob a'i deulu i'r Aipht am yr un rheswm ag Abram. Gall y plant, heb gymhorth yn y lle hwn, wneyd allan yn rhwydd oedran Sarai pan yr aeth hi ac Abram i'r Aipht. Gan fod Sarai yn wraig landeg, a gwragedd Aiphtaidd fel rheol yn rhai hagr, daeth i sylw ar unwaith yn y wlad. Rhag iddo gael ei ladd o'i hachos, cytunodd y ddau i alw eu gilydd yn frawd a chwaer. Yr oedd cuddio ei berthynas â Sarai, yn lle ymddiried yn yr Arglwydd, yn wendid mawr yn Abram. Rhoddodd Pharaoh anrhegion i Abram er mwyn Sarai. Arferir yn y Dwyrain rhoddi anrhegion i berthynasau y rhai a gymerir yn wragedd. Yn yr achos hwn, yr oedd Pharaoh yn hollol ddifai, ac Abraham y patriarch yn droseddwr. Ond yr oedd gofal Duw am dano, a daeth plaau i dŷ Pharaoh am fod gwraig etifedd yr addewidion ynddo. Darfu i Pharaoh roddi Sarai yn ol, a rhoddodd orchymyn i'w ddynion i arwain Abram, a'i amddiffyn, hyd nes y byddai tu allan i derfynau gwlad yr Aipht.

DOSBARTH HYNAF.

YR EPISTOL AT YR HEBREAID.

Gan y GOLYGYDD.

SABBOTH, AWST 3YDD. HEB. III. 4—6.

ADN. 4: *Canys pob tŷ a adeiledir gan ryw un; ond yr hwn a adeiladodd bob peth yw Duw.* Y mae y ddau osodiad yma, ar yr olwg gyntaf, yn wirioneddau

mor amlwg nes bod yn *truisms*, ac heblaw hyny yn anmherthynasol i'r mater. Ond wedi edrych yn fanylach, ceir eu bod yn asio i mewn â'r ymresymiad ac yn rhan fywiol o hono. Dylid edrych ar yr adnod hon fel eglurhâd nid yn unig ar adn. 3, ond ar adn. 2 a 3 gyda'u gilydd. Yn yr ail adnod, dywedir fod Crist wedi bod yn ffyddlawn i'r hwn a'i hordeiniodd ef. Dyna y syniad o oruchwyliwr—un yn gweinyddu o dan un arall. Ond yn y drydedd adnod, dywedir mai Crist yw "yr hwn a adeiladodd y tŷ." Dyma y syniad o feistr yn dyfod i mewn. Onid yw y ddwy adnod felly yn anghyson â'u gilydd—gan fod un yn ei osod allan fel goruchwyliwr ffyddlawn o dan un arall, a'r llall yn dangos mai Efe ei hun yw y meistr a'r adeiladydd?

Ateb i'r anhawsder hwn yw adn. 4. Fel pe dywedasai yr awdwr:—'Nid yw y ddau syniad yn cau allan eu gilydd. Er mai Crist a adeiladodd y tŷ, yr oedd Efe hyd yn nod felly mewn sefyllfa i weithredu ffyddlondeb tuag at un oedd yn uwch nag yntau. Gwir fod *rhywun* (τις) yn weithiwr uniongyrchol yn adeiladu pob tŷ: ond y mae rhyw Un (εἷς) yn arolygu yr holl waith, yn byw trwy yr oesoedd, yn gofalu fod gwaith y naill yn *ffitio* i mewn i waith y llall, a gwaith un oes yn barotöad i waith yr oes arall. A'r Un hwn a adeiladodd "bob peth"—holl oruchwyliaethau yr iachawdwriaeth trwy Moses a Christ, o ddechreu y byd i'w ddiwedd—yr Un hwn "yw Duw."'

Adn. 5: *A Moses yn wir a fu ffyddlawn yn ei holl dŷ megys gwas, er tystiolaeth i'r pethau oedd i'w llefaru.* Dyma ail brawf o'r gosodiad yn adn. 3, sef uchafiaeth Crist ar Moses. O leiaf, felly yr esbonia rhai;—dywedwyd yn gyffredinol yn adn. 2 fod Crist yn ffyddlawn yn ei dŷ (y tŷ a ymddiriedasid iddo) megys ag yr oedd Moses wedi bod yn ffyddlawn yn ei dŷ *ef* (y tŷ a ymddiriedasid iddo yntau). Ond ni ddywedir ai yr un yw y naill dŷ a'r llall, ai gwahanol ydynt. O ran dim a ddywedwyd, gallesid meddwl mai un oedd y tŷ, Moses yn gyntaf yn oruchwyliwr arno, ac wedi hyny Crist. Ond yn yr adnodau hyn (5 a 6) dangosir mai dau dŷ gwahanol ydynt. Mae Moses yn un tŷ yn dwyn "tystiolaeth" (felly nid yw y tŷ hwn ei hunan ond er tystiolaeth i rywbeth mwy); ond am y tŷ arall—"tŷ yr hwn ydym *ni*"—tŷ bywiol, wedi ei adeiladu o feini bywiol. Fel hyn y mae yma wahaniaeth deublyg: gwahaniaeth rhwng y goruchwylwyr a rhwng y tai. Yr oedd Moses yn "was"—(trefnwr neu oruchwyliwr) yn y tŷ a roddwyd dan ei ofal ef, a thŷ o natur gysgodol oedd hwnw. Ond y mae Crist yn "fab" ar y tŷ a roddwyd dan ei ofal ef, ac y mae hwnw yn dŷ bywiol, wedi ei adeiladu o feini bywiol. Fel y dywed Olshausen: "Gwas yw Moses yn y tabernacl; ond y mae Crist yn Arglwydd ar y deml newydd." "I'r pethau oedd i'w llefaru"—i'r Efengyl. Y dadguddiad trwy Moses yn tystiolaethu i'r dadguddiad uwch trwy Grist.

Adn. 6: *Eithr Crist, megys Mab ar ei dŷ ei hun.* Wrth ddwyn ymlaen yr ail brawf, symir i fyny y cyntaf hefyd. Dengys y desgrifiad o Moses fel "gwas," pa fodd yr oedd yn perthyn i'r tŷ (adn. 3) ac yn ffurfio rhan o hono, sef o'r tylwyth; wrth ddesgrifio Crist fel mab, mab y tŷ, cynnwysir y ddau osodiad yn adn. 3 a 4, sef fod Crist yn ei berthynas â'r *tŷ* yn llenwi lle uwchraddol adeiladydd, ond yn ei berthynas â *Duw*, llanwai le îsraddol goruchwyliwr "ffyddlawn" i gyflawni y gorchymynion dwyfol. Cynnwysir y ddau syniad yn y desgrifiad hwn—"Mab ar ei dŷ ei hun:" y syniad o uwchafiaeth ar y tylwyth, ac o îsraddoldeb i'r Tad fel arglwydd goruchaf y tŷ. *Tŷ yr hwn ydym ni, os nyni a geidw ein hyder a gorfoledd ein gobaith yn sicr hyd y diwedd.* Tŷ "yr hwn"—Tŷ *Crist;* yr un peth, wrth gwrs, yn sylweddol â "thŷ Dduw," ond yn y ffurf hon yma—eglwys Crist o dan yr Efengyl ("ar ei dŷ ei hun"). "Hyder"—y teimlad dirgel o obaith sicr; "gorfoledd," y llawenydd sydd yn tarddu o obaith yn ei amlygiad. Pa "ddiwedd" yw hwn? Diwedd y byd, medd rhai. Prin y gellir gwneyd ystyr resymol o'r syniad yna. Diwedd ein hoes ni ein hunain, medd eraill. Yn ol y golygiad hwn, dyna yr ystyr (yr hon a geir yn fynych yn yr Ysgrythyrau, ac yn yr Epistol hwn yn neillduol)—mai y prawf goreu o wirionedd a nerth ffydd yw ei pharhad, adn. 14. Dygir yr wrthddadl gan rai esbonwyr yn erbyn y golygiad hwn—os parhau hyd angeu yw y prawf o wirionedd ffydd, nas gall neb feddu sicrwydd o honi tra mewn bywyd. Deil rhai mai traethawd yw yr Epistol hwn at wasanaeth Cristionogion ieuainc dan addysg, cyn cael eu derbyn i'r Eglwys *(catechumens);* ac mai yr ystyr ydyw—dal yn gadarn hyd ddiwedd tymmor prawf, nes myned trosodd yn weithredol i'r Eglwys. Anhawdd meddwl fod yr ystyr yna yn ddigon i gynnal pwysigrwydd y geiriau. Y mae yr ystyr arall yn gydweddol âg addysg yr Ysgrythyrau ac yn bwysig ynddo ei hunan—parhâd yn brawf o wirionedd crefydd. Nid pob math o barhâd. Cynnydda y prawf gydag amser.

SABBOTH, AWST 10FED, HEB. III. 7—11.

Yr oedd adn. 6 yn parotoi at gynghor. Yn awr y mae cynghor yn canlyn o hyn hyd ddiwedd y bennod.

ADN. 7: *Am hyny, megys y mae yr Ysbryd Glân yn dywedyd.* Y mae yr "am hyny" yn cysylltu y cynghor â'r 6ed adn.: dywedir yno ein bod yn "dŷ Dduw" os ydym yn parhau yn llwybrau ffydd ac ufudd-dod. Dangosir y perygl o beidio gwneyd hyny oddiwrth hanes eu tadau. Ceidw yr awdwr ei olwg ar hyn trwy yr holl draethawd, sef dangos fod y ddwy oruchwyliaeth yn un yn eu hegwyddorion hanfodol; nid yw yr ail yn gwrthddyweyd y gyntaf, ond yn ei pherffeithio trwy ei sylweddoli. Dangoswyd unoliaeth y ddwy oruchwyliaeth (adn. 1—6) yn awdurdod eu sylfaenwyr. Dangosir yn awr eu hunoliaeth yn eu bygythion. Nid yw y perygl o anghrediniaeth ac anufudd-dod yn llai yn awr nag ydoedd gynt, ond yn fwy, o gymaint ag y mae goleuni a manteision yr oruchwyliaeth yn fwy. Yr un Ysbryd Glân oedd yn llefaru trwy enau y Salmydd ag sydd yn llefaru yn awr. Credwn fod "am hyny," megys y mae yn edrych yn ol at adn. 6, yn edrych ymlaen hefyd at "na chaledwch eich calonau," adn. 8. Gwir mai yr Ysbryd Glân yw y llefarydd yn adn. 8; ond y mae yr awdwr yn cymeryd ei eiriau—"*megys* y mae yr Ysbryd Glân yn dywedyd"—yn gynghor i'r Hebreaid. Nis gwelwn ddim yn annaturiol yn hyn, er fod yr Arglwydd yn llefaru yn ei berson ei hun yn adn. 9, &c. *Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef.* "Os clywch ei lais ef." Er eu bod wedi anufuddhâu cyhyd, ac wedi haeddu i Dduw dewi wrthynt, eto os caent gyfleusdra yn ychwaneg, annogir hwynt i ofalu ei ddefnyddio, a hyny yn ddioedi—"heddyw."

ADN. 8: *Na chaledwch eich calonau, megys yn y cyffröad, yn nydd y profedigaeth yn y diffaethwch.* Yn Meribah y bu hyn—golyga enw y lle "gynhen," Exod. xvii. Dyfyna yr awdwr fel arferol o gyfeithiad y Deg a Thriugain; yno y gair "cyffröad" a ddefnyddir. Cyffroisant Dduw trwy eu cynhen â Moses. "Yn nydd y prawf;" dygasant yr Arglwydd i brawf, Num. xx. 1—13. Caledwch calon yw achos anufudd-dod, ac y mae pob gweithred o anufudd-dod yn caledu y galon yn fwy.

ADN. 9: *Lle y temtiodd eich tadau fi, y profasant fi.* Dywed Principal Edwards fod yn sicr mai y cyfeithiad cywir yw, "Lle y profodd eich tadau fi yn y prawf." *Ae y gwelsant fy ngweithredoedd ddeugain mlynedd.* Duw oedd yn eu profi hwynt. Ond yn lle ymostwng i'w brawf ef, aethant hwy i brofi Duw trwy eu hanghrediniaeth. Ymostyngodd Duw i gymeryd ei brofi ganddynt, trwy ddangos iddynt ei weithredoedd nerthol am ddeugain mlynedd.

ADN. 10: *Am hyny y digiais wrth y genedlaeth hono.* Yr oedd crefydd yn cael ei dwyn ymlaen dan yr oruchwyliaeth hono ar wedd genedlaethol, o ran y gweinyddiad allanol. Yr oedd yr elfen bersonol yn bod, bid sicr, bob amser, gan ei bod yn hanfodol i grefydd; ond yr oedd yn fwy o'r golwg o dan y ffurf genedlaethol. Yn awr y mae yr elfen hono yn fwy eglur, am fod y muriau gwahaniaeth cenedlaethol wedi eu dattod, a'r oruchwyliaeth yn fwy ysbrydol. Yr Eglwys y pryd hwnw oedd y "genedl," a'r tô oedd yn fyw ar y pryd oedd y "genedlaeth." Pechasant yn erbyn Duw yn bersonol, ac fel cenedlaeth. *Y maent bob amser yn cyfeiliorni yn eu calonau, ac ni adnabuant fy ffyrdd I.* Cyfeiriad y mae'n debyg at y daith trwy yr anialwch, yr hon oedd ffordd Duw i'w bobl. Y mae y gair yma yn gymhariaethol am ewyllys a threfn Duw yn gyffredinol tuag at ei bobl. Tröent yn barhaus oddiar lwybrau ufudd-dod i'w trofeydd eu hunain.

ADN. 11: *Fel y tyngais yn fy llid, na chaent ddyfod i mewn i'm gorphwysfa.* I orphwysfa Canaan. Buant feirw yn yr anialwch dan farn Duw. Ond y mae mwy na Chanaan i'w olygu yn yr ystyr ysbrydol; ac yr oedd mwy i'w olygu yn ei berthynas â'r genedl Iuddewig: gwel y bennod nesaf. Yr un yw egwyddorion llywodraeth Duw ymhob oes. Y mae anghrediniaeth yn cau allan o orphwysfa Duw yn awr megys cynt. A'r cyfryw ydyw graslonrwydd yr Efengyl fel nas gall dim arall wneyd hyny.

SABBOTH, AWST 17EG. HEB. III. 12—14.

ADN. 12: *Edrychwch, frodyr, na byddo un amser yn neb o honoch galon ddrwg anghrediniaeth, gan ymadaw oddiwrth Dduw byw.* Cysyllta rhai y geiriau hyn â'r "am hyny" yn adn. 7 (felly byddai yr holl ddyfyniad o'r Salm megys mewn cromfachau). Ond fel y sylwasom eisoes, mwy naturiol, i'n tyb ni, yw cysylltu yr "am hyny" â'r geiriau "na chaledwch eich calonau," ac felly rhaid edrych ar y rhybudd hwn yn dyfod i mewn yn ddisymwth, ac eto yn y cysylltiad agosaf â'r adnodau blaenorol, fel casgliad neu gymhwysiad ymarferol a phersonol. "Edrychwch"—gwyliwch, ymogelwch, cymerwch y gofal mwyaf. "Na byddo un amser yn neb o honoch"—y mae y

gofal i'w ymarfer gan bob un ar bob adeg. *Yn neb o honoch:* Sylwa Principal Edwards fod yr ymadrodd hwn yn gyferbyniol i'r "genedlaeth" a ddyfethwyd yn yr anialwch. "Y mae Duw bellach yn ymwneyd â dynion, nid fel cenedlaeth, ond fel personau." *Calon ddrwg anghrediniaeth.* Anghrediniaeth yw drwg y galon, neu yr achos o'i drwg, neu y brif effaith, yr amlygiad a'r mesur o ddrwg y galon. *Gan ymadaw oddiwrth Dduw byw.* "Yn yr ymadawiad"—y peth hwnw yn yr ymadawiad a wna eu dychweliad yn anmhosibl (medd rhai), sef calon o anghrediniaeth. Yn ol eraill, ymadawiad oddiwrth Dduw yw y ffurf a gymer anghrediniaeth. Ystyr y rhybudd yw—ar iddynt arfer y wyliadwriaeth fanylaf, bob un ar bob adeg, rhag iddynt hwythau fel eu tadau, syrthio yn fyr o orphwysfa uwch na Chanaan trwy anghrediniaeth o'r efengyl—gwrthgiliad oddiwrth Gristionogaeth at Iuddewaeth.

Adn. 13: *Eithr cynghorwch eich gilydd bob dydd tra y gelwir hi Heddyw.* 'Bob dydd tra y gwrandawoch ei leferydd ef, tra y clywch ei lais yn eich rhybuddio.' Golyga y "cynghori" hwn gymhwysiad ymarferol o'r ddeddf mewn dysgyblaeth lem, ac hefyd o'r Efengyl yn ei chysur adfywiol. Yr oedd y cymhwysiad difrifol hwn o wirionedd yr Efengyl i'w wneyd yn barhaus at y meddwl a'r galon. "Cynghorwch eich hunain;" gallai y goddef y geiriau y cyfeithiad "cynghorwch eich gilydd." 'Os byddwch mewn pryder parhaus yn eich hachos eich hunain, nis gellwch fod yn ddifater am iachawdwriaeth eich gilydd.' *Fel na chaleder neb o honoch trwy dwyll pechod.* Nid mater y cynghor yw hyn, ond amcan ac effaith y cynghor. Ystyr y gair a gyfieithir yma "caledu" yw caledu graddol sylweddau wedi bod unwaith yn feddalion, megys cangen ystwyth yn ymgaledu yn raddol nes myned yn ffon anmhlygedig. Y mae pechod yn ei natur yn dwyllodrus; huda, llithia y dyn yn raddol, heb yn wybod iddo ei hun, nes y mae yn dŷn yn ei afaelion. Dyma "dwyll pechod" yn gyffredinol. Yn ol eraill, "trwy dwyll y pechod"—sef y twyll a berthyn i'r pechod neilldiol hwn o wrthgiliad oddiwrth Dduw.

Adn. 14: *Canys fe a'n gwnaed ni yn gyfranogion o Grist, os daliwn ddechreuad ein hyder yn sicr hyd y diwedd.* Rheswm dros yr annogaeth i gynghori ein gilydd i beidio ymadael oddiwrth yr efengyl. Canys y mae parhau yn y ffydd yn un o nodau sicraf ffydd ddiffuant. "Fe a'n gwnaethpwyd—os daliwn:" Gweithred orphenol yn dibynu ar ammod dyfodol. Yr unig ystyr yn yr hon y gall hyny fod yw—ein bod ni yn dyfod i *wybod* ein bod wedi ein gwneuthur yn gyfranogion o Grist trwy ein bod yn *dal.* Cam â'r syniad hwn yw yr wrthddadl—nas gall neb felly wybod ei fod yn Nghrist ond y rhai ydynt wedi marw ynddo. Nid prawf cyflawn a pherffaith o ran natur a pharhâd a feddylir; ond y mae ein bod yn *dal* yn brawf ar hyd y daith, yr hwn a orphenir yn niwedd y daith.

Sabboth, Awst 24ain. Heb. iii. 15—19.

Adn. 15: *Tra y dywedir, Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef, na chaledwch eich calonau, megys yn y cyffröad.* Y mae y cystrawiad yn anhawdd, neu y cysylltiad. *Tra y dywedir.* Yn hytrach, "yn yr hyn a ddywedir," neu "gan y dywedir." Dylid cysylltu y geiriau, y mae'n debyg, âg adn. 14: "Fe a'n gwnaethpwyd—os daliwn—gan y dywedir." Gwaith yr Ysbryd Glân yn ein hannog i ufuddhau "heddyw" yn rheswm dros ŵdal "dechreuad ein hyder yn sicr hyd y diwedd."

Adn. 16: *Canys rhai, wedi gwrandaw, a'i digiasant ef: ond nid pawb a'r a ddaethant o'r Aipht trwy Moses.* Y darlleniad cywir yn ddiau yw (fel y Cyf. Diwyg.)—"Canys pwy, wedi iddynt glywed, a'i cyffroisant ef? Onid pawb o'r rhai a ddaethant o'r Aipht trwy Moses?" Nid yw yn gwneyd cyfrif o'r ychydig eithriadau—y rhai ufudd a aethant i mewn, a'r rhai ufudd nad aethant i mewn. Y mae y geiriau fel hyn yn y ffurf o ofyniad yn cyfateb i'r adnodau canlynol, ac yn cyfateb i'r hanes, ac hefyd i amcan yr awdwr. Cenedlaeth gyfan, er amled ei breintiau, yn cael ei chau allan o wlad yr addewid, trwy ddigio Duw.

Adn. 17: *Ond wrth bwy y digiodd efe ddeugain mlynedd? onid wrth y rhai a bechasent, y rhai y syrthiodd eu cyrff yn y diffaethwch?* Nid ar adegau neilldiol yn unig, megys wrth ddyfroedd y gynhen, y digiasant ef, ond ar hyd y deugain mlynedd. A chanlyniad hyny oedd iddynt o un i un farw yn y diffaethwch.

Adn. 18: *Ac wrth bwy y tyngodd efe, na chaent hwy fyned i mewn i'w orphwysfa ef? onid wrth y rhai ni chredasent?* Nid yn unig fe ddigiodd Duw, ond fe ddigiodd yn y fath fodd nes tyngu na chai y genedlaeth hono fyned i mewn i'r orphwysfa. Ond am eu hanghrediniaeth a'u hanufudd-dod y gwnaed hyn. Anghrediniaeth fu eu dinystr.

Adn. 19: *Ac yr ydym ni yn gweled na allent hwy fyned i mewn o herwydd anghrediniaeth.* Sylwa Principal Edwards mai "anghrediniaeth" yn yr

Epistol at yr Hebreaid, yw cyflwr y rhai sydd yn gwybod ac eto yn gwrthod—neu, galedwch calon. Yr amcan yw dangos natur ac effeithiau alaethus y pechod o anghrediniaeth fel y dangosir ef yn hanes eu tadau; a chan mai anghrediniaeth sydd eto yn cau allan o'r orphwysfa ysbrydol a nefol, gwelir pa mor bwysig yw yr annogaeth i "edrych" gyda'r gwyliadwriaeth manylaf rhag bod unrhyw ogwydd ynddynt yn y cyfeiriad peryglus hwn.

Sabboth, Awst 31ain. Adolygiad.

Hanesion a Darnau Detholedig.

AT Y METHODISTIAID CALFINAIDD YN MHATAGONIA.

Anwyl Frodyr,

Mewn cysylltiad âg ymweliad diweddar ein brawd Mr. J. S. Jones â'r wlad hon, a'r drafodaeth yn Nghymdeithasfa Rhosllanerchrugog gyda golwg ar ddyfodiad ein brawd Mr. Robert Jones i lafurio yn eich plith, a dygiad yr achos hwnw i'r Gymanfa Gyffredinol yn Liverpool, lle y cadarnhäwyd penderfyniad y Pwyllgor Cenadol gyda golwg ar y cynnorthwy yn anfoniad Mr. Robert Jones, fe farnodd y Gymanfa Gyffredinol mai priodol fyddai anfon atoch fath o gyfarchiad, yn dadgan y teimladau caredig a goleddwn fel Methodistiaid yn Nghymru tuag atoch, ynghyd a'n dymuniadau goreu am eich llwyddiant a'ch hapusrwydd.

Y mae nifer mawr o'r Cymry erbyn hyn, fel yr oedd yr Iuddewon pan ysgrifenid atynt gan yr Apostolion, yn "ddyeithriaid ar wasgar," ac wedi ymledu dros ranau helaeth o'r ddaear. Ond mae yn hyfryd genym feddwl, fel y mae teimladau cynhes yn eu dilyn oddiyma gan berthynasau a chyfeillion ag y mae eu llwyddiant yn agos at eu calon, felly eu bod hwythau hefyd, ymhob man, yn coledd caredigrwydd neillduol at yr hen gartref, a'r lliaws brodyr a chwiorydd a adawsant yno ar ol. Yr ydym yn neillduol yn diolch i'r Arglwydd am yr awyddfryd a blanodd Efe yn eu mynwes i lynu wrth draddodiadau goreu yr hen wlad, a'u bod, lle bynag yr ânt, yn ymroi mor fuan ag y gallant i sefydlu Ysgol Sabbothol, ac i ddyfod ynghyd i wasanaethu Arglwydd Dduw eu tadau. Heb awgrymu dim yn angharedig am genedloedd eraill ag y maent wedi ymsefydlu yn eu plith, yr ydym yn teimlo yn berffaith hyderus nad oes bobl ar wyneb y ddaear yn meddu ar werthfawrocach traddodiadau na'r Cymry. Mae y Diwygiad bendigaid a gawsom yn y ganrif o'r blaen wedi bod i ni yn "fywyd o feirw." Fel y diarhebai ein tadau o'r hen amseroedd,

A gair Duw yn uchaf,

fe fu y symudiad mawr hwnw, i fesur helaeth, yn foddion i ddwyn hyny oddiamgylch; fe sefydlodd ymhlith ein cenedl uchafiaeth gair Duw mewn dull na phrofwyd ond yn anfynych ei gyffelyb. Er y pryd hyny y mae y byd, mewn llawer ystyr, wedi cymeryd camrau breision; wedi gwneyd cynnydd mawr mewn gwybodaeth a medr, mewn cyfoeth a llwyddiant. Ac nid oes nemawr ran o hono lle y mae y cynnydd hwnw—yn ol yr herwydd—wedi bod yn fwy amlwg nag ymysg y Cymry. Ond nid oes dim wedi dyfod i'r golwg sydd mewn un modd yn gwneuthur yn llai gwerthfawr i ni wersi y Diwygiad; a theimlwn yn sicr y saif y rhai hyny yn oruchaf am oes y byd. Beth all fod mor fanteisiol i lwyddiant yn ein hamgylchiadau â'r hunan-lywodraeth, y diwydrwydd, y doethineb, a'r cyfiawnder a ddysgir i ni yn ngair Duw? Am wybodaeth ac addysg, nid oes y fath esiampl yn hanes y cenedloedd o werin, a fu yn hir yn dlawd a gorthrymedig, yn gwneyd y fath ymdrechion er eu sicrhâu ag a wnaeth gwerin Cymru—trwy ei Hysgolion Sabbothol, ei Hysgolion Dyddiol Anenwadol, ei Cholegau Cenedlaethol, ac yn awr ei Hysgolion Canolraddol: ac fe ŵyr pawb fod y nerth sydd o'r dechreuad yn gyru y symudiad pwerus hwn yn ei flaen yn ein plith yn codi o'n crefyddolder. A pha beth bynag sydd genym, pa un bynag ai gartref ai oddicartref, i ymestyn am dano eto, mewn diwylliad a choethder a liedneisrwydd,—a hyderwn na fyddwn yn ol i'r un genedl ar y ddaear yn ein hymgais am bob rhagoriaethau o'r fath,—ni a allwn fod yn sicr nad oes draddodiadau mewn bod mor fanteisiol i hyny â'r rhai yr ydym ni, dan Dduw, yn ddyledus am danynt i'n tadau rhagorol. Os ydym am "fyned rhagom at berffeithrwydd," ymhob ystyr, ac yn enwedig yn yr ystyr uchaf oll, dyma y ffordd y rhaid i ni ei thramwy.

Ac yr ydym, frodyr, yn mawr lawenhau eich bod chwithau yn Mhatagonia "yn dal yn lew y gair ffyddlawn yn ol yr addysg," ac yn "myned rhagoch ar hyd ôl y praidd." Yr ydym yn ddiolchgar i'r Arglwydd fod genych bellach bump o addoldai, a'r rheiny oll bron yn

ddiddyled; eich bod erbyn hyn yn agos i ddau gant o aelodau eglwysig; a'ch bod yn ymdrechgar i ddyfod ynghyd i gynnal Ysgol Sabbothol a chyfarfodydd eraill i geisio addoli Duw, a dysgwyl wrth ei iachawdwriaeth. Yr ydym yn mawr gydymdeimlo â chwi o herwydd yr anfanteision y llafuriwch danynt, a hyderwn y llwyddwch cyn bo hir i orchfygu eich holl anghyfleusderau. Da genym ddeall fod ymweliad ein brawd, y Parch. William Roberts, wedi bod i chwi o gymaint sirioldeb a bendith. Yr ydym hefyd wrth anfon y Parch. Robert Jones atoch yn erfyn ar i Dduw sefyll ar ei ddeheulaw, a gwneuthur ei lafur i chwi oll yn ddaioni tragywyddol. Diammeu genym y rhoddwch iddo dderbyniad cynhes, y cynneliwch ei freichiau, a thrwy eich gweddïau a'ch cydweithrediad y rhoddwch iddo bob cynnorthwy a fyddo o fewn eich gallu.

Ni fynem mewn un modd ymddangos fel pe yn cymeryd arnom eich dysgu; er hyny, wedi clywed gyda dwfn ddyddordeb am eich helynt, yn teimlo fel eich brodyr yn yr Arglwydd ofal calon am eich cysur a'ch llwyddiant, a hefyd yn cael y fraint e wneyd ychydig mewn ffordd o'ch cynnorthwyo, mae yn ddiammeu genym y teimlech yn chwith i ni feddwl am eich anerch fel yma heb nodi rhai o'r pethau ag y dymunem yn neillduol eich calonogi gyda golwg arnynt.

1. Ymwasgwch â'ch gilydd yn yr Arglwydd; "cerwch eich gilydd o galon bur yn helaeth." Yr ydych yn cofio y mawr bwys a roddid ar hyn yn nysgeidiaeth yr Arglwydd Iesu, ac wedi hyny yn nysgeidiaeth yr Apostolion. Mae y gras o frawdgarwch Cristionogol, frodyr, yn anhebgorol i chwithau. Fel yr oedd cynifer o bethau yn hanes ac amgylchiadau y dychweledigion cyntefig oddiwrth ba rai y cymerai y gelyn fantais i godi cynhen ac ymryson, felly y mae yn sicr na esgeulusa efe unrhyw gyfleusdra a allo gael yn eich plith chwithau i fagu anghydfod ac anghariadoldeb. Y mae llawer o honoch, fe allai, yn dyfod o wahanol ranau o'r Dywysogaeth, ac wedi cynefino yn eich gwahanol ardaloedd â rhyw fân drefniadau gyda golwg ar ddwyn y gwaith ymlaen oeddynt yn ddyeithr i ardaloedd eraill; mae'n debyg hefyd y gallai fod rhai yn eich plith oeddynt yn Nghymru mewn cysylltiad â gwahanol enwadau o Gristionogion, ac yn teimlo yn chwith o golli rhyw neillduolion oeddynt i'w cael gyda hwynt; ac y mae yn naturiol i bob dyn edrych ar bethau oddiar safle ei feddwl a'i opiniynau ei hunan; a chan fod eich ymdrech yn erbyn yr anhawsderau neillduol sydd yn eich ffordd mewn gwlad newydd yn tueddu at feithrin ynoch chwi fwy o annibyniaeth ysbryd, mae yn bosibl i hyny hefyd ychwanegu at eich anhawsder i gyddynu â'ch gilydd, ïe gyda gwaith yr Arglwydd. Ond y mae cymdeithas ar unrhyw dir yn anmhosibl heb i'r person unigol ildio cryn lawer o'r hyn y mae efe yn bersonol yn gosod gwerth arno, er mwyn y rhai sydd gydag ef yn ffurfio y gymdeithas. Fel y dywedir yn dra doeth yn y "Golygiad Byr" yn y *Cyffes Ffydd:* "Ymhob cymdeithasiad cyffredin, rhaid i'r aelodau o honi ymwrthod â'u golygiadau neillduol eu hunain, i'r dyben iddynt oll gyfarfod mewn rhyw ganolbwynt cyffredin, lle y gallont ymuno â'u gilydd a chydweithredu fel cymdeithas yn heddychol a dirwystr. Y sawl na welo yn gymhwys i wneyd hyn, nid yw yn addas i fod yn aelod o unrhyw gymdeithas. Nis gofynir iddo yn gwbl newid ei feddwl, ond yn unig ei roddi o'r neilldu o ran arferiad, fel aelod o gymdeithas, neu ynte amddifadu ei hun o freintiau cymdeithas." Mae yr amcan cyffredin sydd gan ddynion wrth ymffurfio yn gymdeithasau mor bwysig yn eu golwg fel yr ystyrient y byddai yn dra ffol iddynt—trwy ddal yn dŷn at opiniynau neu fympwyon nad oes, fe allai, nemawr a fynont âg ef—ei beryglu neu ei ddinystrio. Ac fe oddefir i bethau felly, weithiau, anrheithio y gymdeithas ogoneddusaf mewn bod, "eglwys y Duw byw." Mae yn rhaid i ni wrth ein gilydd; gan hyny gadewch i ni "gydgyfanneddu" a'n gilydd "yn ol gwybodaeth." Rhoddwn ein synwyr ar waith. A mwy o lawer; yr ydym yn ngwaith crefydd yn ymuno â'n gilydd yn ngwasanaeth yr Hwn a fu farw drosom, ac sydd yn wastadol yn eiriol ar ein rhan, ac sydd yn neillduol wedi gosod ei fryd ar ein cael oll yn un; fel y mae y Tad ynddo Ef, ac Yntau yn y Tad, felly y byddom ninnau yn un ynddynt Hwy! Yn ei gymdeithas Ef y mae pob "gwreiddyn chwerwedd" i gael ei dynu ymaith; pob hunanoldeb i gael ei groeshoelio; a'r meddylfryd oedd yn Nghrist Iesu, pan yr ymwaghäodd o'i ogoniant ac y bu farw er mwyn eraill, ïe er mwyn ei elynion, i'n llywodraethu yn yr oll a wnelom. "Am hyny, megys etholedigion Duw, sanctaidd ac anwyl, gwisgwch am danoch ymysgaroedd trugareddau, cymwynasgarwch, gostyngeiddrwydd, addfwynder, ymaros; gan gyd-ddwyn â'ch gilydd, a maddeu i'ch gilydd, os bydd gan neb gweryl yn erbyn neb: megys y maddeuodd Crist i chwi, felly gwnewch chwithau. Ac am ben hyn oll, gwisg-

wch gariad, yr hwn yw rhwymyn perffeithrwydd."

2. Mae yn hyfryd genym glywed am eich ymdrech gyda'r Ysgol Sabbothol. Parhewch yn y daioni hwn. Da genym ddeall nad ydych yn profi anhawsder gyda golwg ar iaith; oblegid er eich bod yn gyffredin yn deall yr Yspaenaeg, a bod eich plant yn ei dysgu yn yr ysgolion, eto eich bod oll yn glynu wrth y Gymraeg, a'i bod mor naturiol i chwi ei choledd yna â phe na buasech eto wedi colli eich golwg ar fynyddoedd Cymru. Yn wir, yn y lle a roddwch iddi yn yr ysgolion dyddiol, yr ydych lawer o'n blaen ni. Ac y mae hyn yn fantais neillduol i chwi gyda golwg ar waith yr Ysgol Sabbothol. Yn lle treulio amser maith, fel y gwnawn ni yn fynych yma, i ddysgu y plant i ddarllen Cymraeg, y mae hyny wedi ei wneyd genych chwi yn yr ysgolion eraill, ac yr ydych yn cael holl amser yr Ysgol Sabbothol i ddysgu eich gilydd yn mhethau mawrion y gwirionedd. Ond nid yw yr Ysgol Sabbothol yn llai anhebgorol i chwi er hyny. Mae y maes sydd genych i lafurio ynddo—Gair Duw—mor eang ac mor gyfoethog, fel pe byddai eich ymadferth yn gan' mwy, y caech fod ynddo ddigon o waith i chwi, ac nad oes lafur mewn bod a allai brofi i chwi mor ffrwythlawn a bendithiol. Cofiwch am y ffyddlondeb diflino a'r zel angherddol a alluogodd ein tadau sanctaidd i lanw Cymru âg Ysgolion Sabbothol, ac a wnelai yn anmhosibl iddynt allu gorphwys heb gael eu cydwladwyr oll o dan eu hymgeledd. A chofiwch mai trefn werthfawr Cymu ydyw fod ei phobl yn para ar hyd eu hoes yn ffyddlawn i'r Ysgol Sabbothol. Y mae cyfeillion parchus o blith cenedloedd eraill, pan ymwelant â ni, yn edmygu ac yn hoffi ein trefn yn hyn yn fawr iawn, ac yn gwynfydu na ellid ei sefydlu ymhlith eu pobl hwythau. Hyderwn y bydd i chwi ofalu am ei chadw yna, ac y bydd ffyddlondeb Cymry Patagonia iddi y dyddiau hyn yn myned ymhell tuag at ei sicrhau yn fendith i'w hiliogaeth ddyddiau y ddaear. Mae'n bosibl fod pellder eich trigfanau yn radd o anfantais i chwi yn hyn; ond cofiwch am yr hen drefn Gymreig dda o gadw Ysgol Sabbothol mewn tai annedd, &c., er mantais i'r holl bobl yn holl gyrion ein hardaloedd i ddyfod dan ei haddysg. Mae yn wir fod hyny yn golygu mwy o waith; ond y mae mwy o waith yn yr achos hwn yn golygu mwy o fendith. "A chofio geiriau yr Arglwydd Iesu, mai dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn." Mae yn sicr fod gan lawer o honoch chwi allu i weithio yn y ffordd yma: troër ef oll yn ffrwyth yn ngwasanaeth gogoneddus Iesu Grist yn yr Ysgol Sabbothol! Bydd yn dda genych ddeall fod llawer o waith da yn cael ei wneyd ynglŷn â'r Ysgol Sabbothol yn ein plith ni yma y dyddiau hyn. Mae yn wir nad yw yn annaturiol i rywrai ymofyn, "Paham y bu y dyddiau o'r blaen yn well na'r dyddiau hyn?" Ac y mae yn ddiammeu fod genym achos i gwyno am lawer o fusgrellni a difaterwch, ac yn enwedig fod lle i ofni ein bod yn ddiffygiol mewn zel genadol a chrefyddolder ysbryd gyda y rhan bwysig yma o'r gwaith. Ond mae yn amlwg fod genym hefyd bethau gwerthfawr i lawenhau o'u plegid nad oeddynt gan ein tadau. Mae cynllun y Safonau yn peri fod ein plant yn cael dysgu yr elfenau iddynt yn llawer cynt, ac yn llawer gwell. Mae yr Arholiadau Sirol ar y gwahanol ddosbarthiadau yn y meusydd a roddwyd iddynt, yn âwyn ffrwyth rhagorol; a dysgwylir cyn hir y ceir nifer da o rai fyddant wedi myned trwy y rhai hyny yn ymbarotoi ar gyfer yr Arholiadau Cymanfäol. Y mae hyn oll yn peri fod ein plant a'n pobl ieuainc,—ynghyd a'n pobl mewn oedran addfetach nad ydynt yn ofni tipyn o waith,—yn gweithio i amcan; ac y mae y gweithio hwnw yn peri eu bod yn ddiffawr ar eu hennill. Mae y manteision hefyd a roddir yn eu ffordd yn y *Gwerslyfrau* a'r *Llawlyfrau*, ynghyd a'r nodiadau rhagorol ar y gwersi a geir yn y ddwy *Drysorfa*, y *Llusern*, a'r *Lladmerydd* o fis i fis, yn hynod o werthfawr, ac yn cael eu defnyddio i ddyben da. Beth fyddai i chwithau yn Mhatagonia ddyfod atom i Undeb ein Hysgolion Sabbothol, a chymeryd rhan gyda ni yn y llafur, yr arholiadau, &c.? Byddai yn falch genym gael eich croesawu i'r cylch, a diammeu genym y byddech, o ymuno â ni, yn fawr ar eich ennill. Uwchlaw pobpeth, byddech i ni ac i chwithau ofalu am fod yr Ysgol Sabbothol yn ein dwylaw yn foddion gras, ac amcanion mawrion yr efengyl yn cael eu hateb trwyddi!

3. Mae yn sicr genym, frodyr, y teimlech hefyd ein bod yn gwneyd yn iawn, yn yr amgylchiadau newyddion a dyeithr ymha rai yr ydych chwi wedi cael eich hunain, wrth eich annog i feithrin crefyddolder ysbryd. Mae yn hawdd i ni gredu eich bod yn cael anhawsderau neillduol ar eich ffordd i wneyd hyny. Y mae gweled yn barhaus yr anystyriaeth a'r annuwioldeb a ddangosir gan y cenedloedd eraill o'ch amgylch, yn meddu tuedd gref, mae yn ddiammeu, i'ch tynu chwithau i lawr i'r un lefel â hwythau. Yn Nghymru, chwi deimlech fod o'ch amgylch gynifer o ddylanwadau

da ag oedd yn amddiffyn i chwi. Yna, y mae y rheiny i fesur mawr, o bosibl, wedi eu colli, a'r dylanwadau sydd fe allai yn fwyaf grymus yn tueddu at eich darostwng fwyfwy. Ond cofiwch y cynghor: "Na orchfyger di gan ddrygioni, eithr gorchfyga di ddrygioni trwy ddaioni." Nid i'r diafol y rhoddwyd llywodraeth y byd, er iddo fod unwaith yn ddigon digywilydd i hòni hyny, ïe wrth Fab Duw. Y mae "y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef," ac y mae "yn rhaid iddo deyrnasu hyd oni osoder ei holl elynion dan ei draed." Ac fe fyddai yn beth mawr i chwi gredu eich bod chwithau yn bobl i Grist, ac felly i fod yn "halen y ddaear," ac yn "oleuni y byd;" a'ch bod mor bell o fod i ymollwng gydag unrhyw demtasiynau a allo ddyfod yn eich ffordd, fel yr ydych i wneyd eich rhan tuag at buro yr holl wlad o'ch hamgylch. Hefyd y mae mawredd eich anturiaeth, a phwysau eich trafferthion, ynghyd a'r asbri â pha un yr ymdeflwch i'r ymdrech am fywoliaeth, mae yn ddiammeu, yn brofedigaeth galed i chwi. Drwg genym i chwi am yspaid orfod dyoddef cryn lawer dan amgylchiadau anffafriol; ond erbyn hyn yr ydym yn cydlawenhau â chwi o herwydd y mesur o lwyddiant a fwynhewch. Yr ydych wedi dyfod i ddeall y wlad yn well, ac mewn canlyniad yn gallu ei llafurio fel ag i gael, dan fendith yr Arglwydd, lawer gwell cnydau; ac yr ydych wedi cael llawer gwell agoriad i farchnad y byd. Gwych oedd genym ddeall mai Gwenith Cymry Patagonia oedd yn ennill y wobr gyntaf yn Arddangosiad Paris. Da fyddai genym ddeall fod eich "gwenith ardderchog" i'w gael mewn helaethrwydd yn marchnadoedd Cymru. Ond prin y mae eisieu i ni eich adgofio, frodyr, fod temtasiwn llwyddiant lawer yn fwy peryglus na themtasiwn drygfyd a thlodi. "Rhag i mi ymlenwi, a'th wadu di, a dywedyd, Pwy yw yr Arglwydd!" "A'r uniawn a aeth yn fras, ac a wingodd; braseaist, tewychaist, pwyntiaist; yna efe a wrthododd Dduw yr hwn a'i gwnaeth, ac a ddiystyrodd Graig ei iachawdwriaeth." Wedi'r cwbl, bendith yr Arglwydd sydd yn creu eich llwyddiant. Mae eich "anadl yn ei law, a'ch holl ffyrdd yn eiddo iddo." A pha un bynag ai llwyddiant ynte aflwyddiant a ddaw i'ch rhan, y mae ei ffafr Ef yn gyfoeth tragywyddol. Rhoddwch eich meddylfryd arno! Fel Enoch, rhodiwch gyda Duw; a pha bryd bynag y byddoch chwithau wedi eich colli o blith dynion, fe fydd yn hawdd i bawb wybod i ba le y byddwch wedi myned! Yr oedd yr Apostol Ioan yn dymuno ar fod yr anwyl Gaius "yn llwyddo ac yn iach, fel yr oedd ei enaid yn llwyddo." Bydded eich enaid chwithau yn llwyddo ac yn iach, fel y mae eich amgylchiadau yn llwyddo! Derbyniwch deyrnas Dduw "fel plant bychain." "Fel rhai bychain, newydd-eni, chwennychwch ddidwyll laeth y gair, fel y cynnyddoch trwyddo ef." "Byddwch ddilynwyr Duw, fel plant anwyl."

4. Prin y mae yn anghenrheidiol ychwanegu ei fod o ddirfawr bwys i chwi o ran eich buchedd "harddu athrawiaeth Duw ein Hiachawdwr ymhob peth." Y mae yn rhyfedd meddwl mor fynych y mae yr Apostolion yn dyfod i lawr oddiwrth ymdriniaethau dyrchafedig am athrawiaeth yr efengyl a gobaith iachawdwriaeth, i ddysgu gwersi ag y gellid meddwl eu bod yn dra elfenol am foesoldeb a buchedd sanctaidd. Ond yr oeddynt yn hyny hefyd, mae yn sicr, o dan arweiniad Dwyfol ddoethineb. Y mae twyll pechod y fath fel y mae yn eithaf posibl i ddyn dybied ei fod yn grefyddol, ac eto fod i'r fath raddau dan lywodraeth drygioni fel ag i "dwyllo ei galon ei hun," a phrofi mai "ofer yw ei grefydd." Y mae genych chwi gyfleusdra ardderchog i ddangos i'r cenedloedd anystyriol a llygredig yr ydych yn byw yn eu plith, ac i'ch plant sydd yn cyfodi o'ch amgylch, y fath foesoldeb pur a gogoneddus a sefydlodd yr Arglwydd Crist yn ei deyrnas. "Anwylyd, yr wyf yn attolwg i chwi, megys dyeithriaid a phererinion, ymgedwch oddiwrth chwantau cnawdol, y rhai sydd yn rhyfela yn erbyn yr enaid; gan fod â'ch ymarweddiad yn onest ymysg y cenedloedd, fel, lle maent yn eich goganu megys drwgweithredwyr, y gallont, o herwydd eich gweithredoedd da a welant, ogoneddu Duw yn nydd yr ymweliad." Y fath ddirfawr rwystr i lwyddiant Cristionogaeth ydyw fod y bobl sydd yn ei phroffesu, pa un bynag ai yn ngwledydd Cred ai ymhlith y Paganiaid, yn byw yn annheilwng o honi. Rhodded Duw ras i chwi oll, frodyr anwyl, i fyw yn y fath fodd fel y byddo eich buchedd lân yn ogoniant i'w enw sanctaidd! Nid ydym yn gwybod pa un a ydyw y ddiod feddwol yn demtasiwn i rai o honoch ai peidio. Os ydyw, "Nac edrych ar y gwin pan fyddo coch, pan ymddangoso ei liw yn y cwpan, pan ymgynhyrfo yn iawn; canys yn y diwedd efe a frath fel sarph ac a biga fel neidr." Yn wyneb holl demtasiynau'r cnawd, "cedwch eich hunain yn bur." Bydded eich gair uwchlaw y posibilrwydd i neb ei ammeu. Bydded eich gonestrwydd masnachol yn dryloew fel y goleuni, a gwybydded pawb y bo a fynont mewn

un modd â chwi, fod yn annhraethol haws genych eich colledu eich hunain na cholledu neb arall. Bydded pob peth tebyg i dwyll yn ffiaidd ac adgas yn eich golwg, fel y mae yn ngolwg "yr Hwn sydd lanach ei lygaid nag y gall edrych ar ddrwg, ac na all edrych ar anwiredd." Dringwch mor uchel i fynydd Duw fel y byddo pob teimladau o ba rai y cyfyd ciddigedd a malais ac enllib, ymhell îslaw i chwi; a bydded eich hynawsedd fel "hynawsedd Crist," yn pereiddio eich ardaloedd. Dysgwch eich plant anwyl hefyd, o'u mebyd, yn y pethau hyn, ac na fydded iddynt weled ynoch chwi ond y pethau y caroch iddynt gael y fraint o'u trosglwyddo i'r rhai fyddant yn dyfod ar eu hol hwythau. Os cewch ras gan Dduw i roddi i'ch anwyliaid y fath addysg a'r fath esiampl, fe fydd hyny iddynt yn drysor anfesurol fwy ei werth na phe gallech adael iddynt wledydd lawer!

Ynglŷn â hyn, fe allai y goddefwch i ni yma eich adgofio o'r mawr bwys o fod allor i Dduw y nefoedd yn eich teuluoedd. Wedi i ddyn, trwy diriondeb Rhagluniaeth, gael ei "osod mewn teulu," y mae yn mentro yn ofnadwy, mewn byd mor lawn o beryglon ac mor lawn o demtasiynau, wrth beidio ymgrymu gyda'i rai anwyl o flaen gorsedd gras, i geisio ei osod ei hun a'u gosod hwythau dan aden yr Hollalluog, yr Hwn hefyd yn raslawn sydd mor barod i wrando arno. Nid ydyw dawn a medr gyda hyn ond pethau dibwys; ond y mae difrifwch a gonestrwydd amcan, sydd yn gyrhaeddadwy i bawb, o bwys annhraethol. A gawn ni, yn ol yr arfer dda, yn garedig erfyn ar y chwiorydd anwyl yn eich plith ofalu am fod yn bob cynnorthwy i chwi yn hyn? Ni allant hwy, sydd â'u mynwes mor lawn o gariad, wneyd â'u hanwyliaid garedigrwydd mwy na dysgu eu plant yn barchedig i ddyweyd eu pader a'u gras bwyd, a mynu ei hadeg i'r ddyledswydd, gan ofalu, a hyny fel gweithred o addoliad, am osod y Llyfr Sanctaidd ar y bwrdd. Pwy all ddyweyd gwerth gwasanaeth llawer iawn o wraggedd a mamau Cymru yn hyn? "Y dydd a'i dengys!"

5. Mewn trefn i sicrhâu y pethau mawrion hyn a'u cyffelyb, chwi a welwch ei fod yn hanfodol i chwi fod yn ffyddlawn i ddilyn moddion gras, ac i ymwneyd âg ordinhadau yr efengyl. Mae yn debyg fod llawer o'r rhai sydd o'ch amgylch yn gallu byw heb feddwl am hyny; nid yw yn anhawdd i chwithau lithro i gydymffurfio â hwynt, ac o ddechreu esgeuluso, ddyfod i deimlo fod y peth wedi cymeryd y fath afael ynoch fel na fydd yn hawdd i chwi ymryddhau oddiwrtho. A bid siwr, fe fyddai yn hawdd i chwi "lanw eich genau â rhesymau" i ddangos mor anhawdd, os nad anmhosibl, ydyw i chwi ddilyn y moddion. Ond mor anfesurol gryfach ydyw y rhesymau o'r ochr arall! A oes Duw yn bod? A ydych chwi yn gyfrifol iddo, ac mewn perygl o syrthio dan ei farn? A raid i chwi yn fuan iawn adael pob peth yma, ac ymddangos, fel y byddwch, "ger bron brawdle Crist, fel y derbynio pob un y pethau a wnaethpwyd yn y corff, yn ol yr hyn a wnaeth, pa un bynag a fyddo ai da ai drwg?" Uwchlaw y cwbl, a ydyw yn bosibl i chwi gael iachawdwriaeth, a'ch gwnelo yn wynfydedig gyda Christ i dragywyddoldeb? Dyma yr ystyriaethau mawrion! Faint well fyddai dyn, o ennill pobpeth, a bod ei hunan wedi ei golli? A chwi a wyddoch yn dda mai yr ordinhadau a sefydlodd yr Arglwydd yn ei dŷ ydyw y moddion goreu i sicrhau y pethau mawrion y mae mor bwysig i ni eu diogelu. "Gwyn ei fyd y dyn a wrandawo arnaf, ac a wylio yn ddyfal beunydd wrth fy nrysau, gan warchod wrth byst fy mhyrth i." Gwyddoch yn dda am ffyddlondeb lliaws o'ch cydgenedl yn hyn, a llawer o honynt, o bosibl, yn berthynasau anwyl i chwi eich hunain. Teimlent gyda'r Salmydd, "Llawenychais pan ddywedent wrthyf, Awn i dŷ yr Arglwydd, ein traed a safant o fewn dy byrth di, O Jerusalem." A gwyddoch fod hyny mor bell o brofi yn golledus iddynt, ïe, yn y byd hwn, fel yr oedd eu heinioes yn anfesurol fwy deddwydd nag eiddo eu cymydogion oeddynt yn ymroddi i bleserau, neu yn ymollwng i fod yn slafiaid i'r byd. Ac y maent erbyn hyn, lawer o honynt, wedi "gorchfygu trwy waed yr Oen," wedi "goddiweddyd llawenydd a hyfrydwch, a chystudd a galar wedi ffoi ymaith." Beth bynag fo eich anhawsderau chwithau, perchwch Sabbothau Duw, a gwnewch yn fawr o bob cyfleusdra a gaffoch i ymddangos ger ei fron yn ei dŷ. Cenwch:

"Mae brodyr i mi aeth ymlaen
Trwy ddyfnach dŵr a phoethach tân;
Ac eto gorchfygasant hwy:
'D yw 'r dyfroedd 'r aethum trwyddynt ddim,
Mewn lled a dyfnder, nerth a grym;
Paham yr ofnaf finnau mwy?"

Bydded achos ein Gwaredwr yn eich gwlad yn agos iawn at eich calon. Fe gymer Efe hyny yn bur garedig oddiar eich llaw. Yr ydym yn darllen yn llyfr Ezra fod "golwg eu Duw ar henuriaid yr Iuddewon" oedd yn ymroddi i adeiladu ei dŷ; ac fe "fendithiodd yr Arglwydd

dŷ Obed-Edom a'r hyn oll oedd ganddo, er mwyn arch Duw." Gwyddom yn dda iddo wneyd caredigrwydd cyffelyb, ac am yr un rheswm—eu gofal am ei arch Ef! —â miloedd o'r Cymry hefyd. Llanwer chwithau â'r un ysbryd. Bydded eich gofal yn ddwfn ac yn gynhes am waith yr Arglwydd. Fe bâr hyny i chwi ymroddi i ymdrechion personol er ei fwyn. Chwi a "gyfrenwch eich eneidiau eich hunain"—y cyfraniad uchaf sydd yn bosibl—er ei lwyddiant. A chwi a gyfrenwch eich arian. Y mae Efe yn edrych am i chwi wneyd hyny; ac fe ofala na fydd hyny yn golled i chwi. "Anrhydedda yr Arglwydd â'th gyfoeth, ac â'r peth penaf o'th holl ffrwyth; felly y llenwir dy ysguboriau â digonoldeb, a'th winwryfoedd a dorant gan win newydd." Yr amddiffyn goreu ar eich ennillion ydyw fod eu blaenffrwyth yn cael ei gysegru i Dduw; a pheth a all osod cymaint o werth ar ddim a feddwn a'i fod yn cael ei neillduo i wasanaeth y Gwaredwr? "Canys chwi a adwaenoch ras ein Harglwydd Iesu Grist, iddo Ef, ac Yntau yn gyfoethog, fyned er eich mwyn chwi yn dlawd, fel y cyfoethogid chwi trwy ei dlodi Ef."

"Ys Crist yn drist, dan boen drom,
Fu o'i rad ras farw drosom;
Gwael na roem o galon rydd
Ein golud dros ein gilydd."

Amcenwch yn gyntaf at sefydlu a dwyn ymlaen mor effeithiol ag y bo modd eich achosion crefyddol eich hunain. Os oes tlodion gyda chwi, diammeu genym y gofelwch yn dirion am danynt. Mae yn dda genym ddeall fod genych ysgolion dyddiol da; a pha beth bynag a alloch wneyd tuag at osod y manteision goreu yn ffordd eich plant a'ch pobl ieuainc, byddwch yn flaenllaw i'w wneuthur. A chedwch mewn golwg yn barhaus yr amcan o wneyd eich rhan tuag at estyn i'r byd mawr tywyll, sydd "yn llawn o drigfanau trawsder," y manteision a wnaethant mor wahanol Gymru lân, ynghyd a'ch gwlad hapus chwi eich hunain. Y mae hon yn flwyddyn Jubili Cenadaeth Dramor y Methodistiaid Calfinaidd. Pan sefydlwyd hi, ac am flynyddoedd wedyn, fe edrychid ar y fath amcan gan lawer o bobl barchus yn ein plith fel peth rhyfeddol o afresymol. Dyrnaid o Fethodistiaid tlodion rhwng mynyddoedd Cymru yn meddwl am yru Cenadon i India'r dwyrain! Erbyn hyn, sut bynag, mae y gwaith,—a heb i neb o honom deimlo dim oddiwrtho,—wedi dyfod mor fawr, ac y mae y fendith Ddwyfol o'r dechreuad wedi gorphwys mor helaeth arno, fel nad oes neb a faidd ei ddiystyru. "O'r Arglwydd y daeth hyn, a hyn sydd ryfedd yn ein golwg ni." Hyderwn y cewch chwithau y fraint o wneyd llawer o blaid teyrnas yr Arglwydd Iesu, ac y cedwir chwi byth yn bobl gysegredig iddo Ef.

6. A chofiwch Gymru. Prin, fe allai, y mae eisieu i ni ddyweyd hyn, oblegid yr ydych yn ei chofio. Ond yr ydym ni yma yn dal ein gafael ynoch chwi, ac y mae arnom eisieu eich gafael chwithau ynom ni yn y wlad acw. Mae ein cymydogion Seisonig yn son am "Greater England," ac y mae eu plant yn yr holl dalaethau yn son am Loegr fel "eu cartref." Paham nad allwn ninnau ymffrostio yn ein Cymru Fwy, a theimlo ei bod bellach, dros y byd, wedi dyfod yn Gymru Fawr? Nid oes ar yr hen genedl garuaidd gywilydd o'i phlant yn un man. Gydag ychydig eithriadau, gall eu cyfarch yn ngeiriau yr Apostol at y Corinthiaid a dyweyd, "Yr ydwyf yn eich canmol eich bod yn fy nghofio i ymhob peth, ac yn dal y traddodiadau, fel y traddodais i chwi." Ac ni raid i'w phlant yn un man deimlo yr un iâs o gywilydd o honi hithau. Heblaw eu hanwyldeb naturiol at wlad eu genedigaeth, a lle beddrod eu tadau, ynghyd a'r anwyldeb nad allant wrtho wrth eu cig a'u gwaed eu hunain, ni raid iddynt am fynyd ofidio o herwydd eu cyff Cymreig, neu am mai yma y trefnodd Rhagluniaeth iddynt yn gyntaf weled goleuni dydd. Yr ydym oll yn falch o'n traddodiadau, ac nid ydyw Cymru Sydd mewn un modd yn annheilwng o Gymru Fu. Y mae ysbryd yr hen Dywysogion Cymreig eto yn fyw yn ein gwlad, ac ni fu pobl Cymru erioed yn gallu dal eu pen gyda chymaint o urddas ymysg y cenedloedd o'u hamgylch â'r ddydiau hyn, ac ni fuont erioed yn derbyn oddiwrth y cenedloedd hyny gymaint o barch ac anrhydedd. A thra yr ydym felly yn fwy blaenllaw nag erioed fel amaethwyr a masnachwyr, a deiliaid llywodraeth Prydain Fawr; a thra y mae ein sefydliadau addysgawl yn fwy lliosog, yn fwy effeithiol, ac yn cael gwneyd llawer gwell defnydd o honynt nag ar unrhyw adeg flaenorol yn ein hanes; yr ydym hefyd yn ddiolchgar i'r Arglwydd nad ydyw addysg yr hen ddiwygwyr Cymreig wedi ei hanghofio genym, ond ein bod yn para i'w mawrhau, ac yn debyg o ddal ein gafael ynddi hyd y diwedd. Y mae genym achos i ofidio, a dwfn ofidio, am lawer o farweidd-dra ac anffyddlondeb, a hyd yn nod llygredigaeth; ond y mae cydwybod a chalon Cymru o blaid yr hyn sydd dda, ac y mae yn aros yn ein plith ymlyniad cryf wrth deyrnas Dduw.

Gwyddoch am ein Deddf i Gau Tafarnau ar y Sabboth. Yr oedd llawer o annhrefn a llygredigaeth yn ffynu, ac yn arbenig o herwydd anffyddlondeb y rhai yr ymddiriedasid iddynt am ei gweinyddiad, mewn cysylltiad â hi; a chodwyd cri gan gyfeillion y fasnach tua Chaerdydd am ei diddymu. Penododd y Llywodraeth Ddirprwyaeth Frenhinol, cynnwysedig o bump o foneddigion na wyddent nemawr am danom ac na falient ond ychydig iawn yn ein cylch, i edrych i'w gweithrediad; ac er y dysgwylid i'r boneddigion hyny alw am ddadwneyd y Ddeddf, a'u bod hwythau ymhell o deimlo yn ffafriol iddi, eto y mae eu Hadroddiad, sydd newydd ei gyhoeddi, yn dangos fod teimlad Cymru oll mor gryf o'i phlaid fel nad allent lai nag argymhell, nid yn unig ei bod i aros, ond ei bod hefyd, ac ymhob ystyr, i gael ei chadarnhau yn fwy nag erioed. A da genym ddyweyd fod teimlad Cymru yn addfedu fwyfwy at ddiwygio y fasnach mewn diodydd meddwol allan o'i holl derfynau.

Bellach, frodyr, byddwch wych. Bydded i ni ac i chwithau gael ein cadw byth dan lywodraeth ofn yr Arglwydd, fel na fo i ni mewn dim "ddilyn yr hyn sydd ddrwg, ond yr hyn sydd dda;" a bydded i'r Arglwydd tirion ein "gwared ni oddiwrth bob gweithred drwg, a'n cadw i'w deyrnas nefol; i'r Hwn y byddo y gogoniant yn oes oesoedd. Amen."—Dros ac yn enw y Gymanfa Gyffredinol,

Ydwyf, anwyl frodyr,
Yr eiddoch yn ffyddlawn,

DANIEL ROWLANDS,
Llywydd y Gymanfa Gyffredinol.

Barddoniaeth.

ENGLYNION.

Gan y Parch. W. WILLIAMS, *Dinas Mawddwy.*

ER coffadwriaeth am JOHN JAMES, T$ Capel, un o Flaenoriaid Dinas Mawddwy. Yr oedd y brawd hwn yn gymeriad dipyn yn hynod. Un pur wresog ei ysbryd ydoedd, wedi cael argyhoeddiad neillduol yn y diwygiad 1860; ac yr oedd effaith y diwygiad hwnw yn amlwg arno i'r diwedd. Cafodd gystudd trwm a maith *(epileptic fits)*, ac yr oeddynt wedi anmharu ei synwyrau fisoedd cyn ei farwolaeth. Ond yr oedd yn gallu adrodd yn gywir rai o'i hoff bennillion, pryd nad allai gofio dim arall. Dyma un:

"Hen lestr iachawdwriaeth
A ddaeth i'n daear ni,
Mordwyodd foroedd cariad
Hyd borthladd Calfari;
Dadlwythodd ei thrysorau
Mewn teirawr ar y groes,
Rhoes fodd i dorf nas rhifir
I fyw tragwyddol oes."

MAE siom am John James yma—ei le gwag
O'i ol geir i'w goffa;
Dwfn alaeth hiraeth barhâ—
Am y Dinas ymdaena.

Fe lanwai 'i swydd o flaenor—a gallu
Ac ewyllys ddidor;
Un âg anghen ei gynghor
Hyfforddiai ef yn ffyrdd Ior.

Ei ryfedd wresog brofiad,—arosai
Dan rasol eneiniad;
Hynod aml taniai 'i deimlad—yn fyw stôr,
Wedi ei agor gan wres diwygiad.

Ei weddi gref wrth orsedd gras—elai
Fry o'i galon eirias,
A'i wreiddiol hyder addas
Oddi fry ddygai wledd fras.

Y cariad a'r bwriad borau—oeddynt
Ei feunyddiol seigiau,
A'i rym oedd cedyrn rwymau—cymmod rhad
A medrai siarad am ei drysorau.

Ei oludog sylwadau—a roddai
Mewn gwefreiddiol eiriau,
Gwresog, clir, wnant hir barhau—i'n dilyn
Ac i ail ennyn yn ein calonau.

Er ei alw dan gur helaeth—iddo llawn
Oedd llestr iachawdwriaeth;
Yn hon heb ludd o'r cystudd caeth—nofiai
Adre fry hwyliai 'n fyw drwy farwolaeth.

"YN BEDWAR UGAIN OED."

Llinellau cyflwynedig i Mr. JOHN ROBERTS, Mona Cottage, Bramall Lane, Stockport, ar ben ei 80fed mlwydd o'i oedran, Tachwedd 11eg, 1889.

"*Yn bedwar ugain oed!*"—ai breuddwyd yw?
A deithiais i mor bell ar yrfa bywyd?
A gefnais i 'r blynyddoedd hyn yn fyw,
Mewn byd mor llawn o bob peryglon enbyd?
"Gwirionedd yw," medd llais o'r "Bibl mawr,"—
Y dydd y'm ganed ysgrifenwyd ynddo;
O'r pedwar ugain mlwydd, mae 'r olaf awr
I lynclyn y gorphenol wedi suddo!

"*Yn bedwar ugain oed!*"—mor chwim y rhêd
Blynyddau heibio, tra *yn ol* edrychaf!
Wrth syllu 'n *mlaen*, y bachgen ieuanc ddwêd
Fod cerbyd oes yn teithio 'n araf, araf:
Fel doe y mae i mi fy maboed gwŷn,
Tra 'n cychwyn ar fy nhaith ar linell Amser;
Rhyfeddais heddyw glywed adgof sŷn
Yn dweyd fy mod yn ngorsaf "Os o gryf-der!"

"*Yn bedwar ugain oed!*"—mor ryfedd hyn,
Tra mae o'm cylch farwolaeth yn teyrnasu!
Mewn awyr lwythir gyda niwl y "Glŷn,"
Pa fodd y cefais i cyhyd anadlu?
Ieuenctyd anwyl yn eu hamdo roed,
A cherddais drwy gysgodion eu hangladdau;
Mae'n syn gwel'd henwr "pedwar ugain oed"
Yn darllen hanes byd ar feini beddau!

"*Yn bedwar ugain oed!*"—a chyda 'r llu
Yn cyd-addoli Duw mewn hwyl gariadol;
Mi welais gewri 'n cwympo,—oewri fu
Yn ysgwyd Cymru gyda nerthoedd dwyfol;

Mi welais fylchu Sïon lawer gwaith,
Ac eglwys yn ymffurfio 'n dorf angladdol,—
A'm nefol Dad, ar hyd fy mywyd maith,
A'm cadwodd i yn wyrth i'w ras arbedol!

"*Yn bedwar ugain oed!*"—er teithio draw,
Dros foroedd maith, a chyfandiroedd dyrys;
Dychwelais eilwaith, heb un briw na braw,
I'm gwlad fy hun, i'r hen gymdeithas felus;
Ni chafodd unrhyw haint wenwyno 'mron,
Gadewais ar fy ol holl waedgwn angau;
Bu rhyw gyfriniol Law ar dir a thòn
Yn codi tarian rhyngof â phob saethau.

"*Yn bedwar ugain oed!*"—er hyny 'r wyf
Yn dirf ac iraidd yn fy henaint penwyn;
Mae 'nhraed yn chwim, a'm bron yn llawn o nwyf,—
Cyfunaf brofiad hen âg afiaeth llencyn;
Ni phwysais ond ychydig ar fy ffon—
Trugaredd natur hael i'r hen diallu;
Y dydd o'r blaen bu 'n anghof genyf hon,
A rhedais yn fy ol yn chwim i'w chyrchu.

"*Yn bedwar ugain oed!*"—a'm llygaid sydd
Yn gweled tegwch daear a ffurfafen;
Ac yn fy nghlyw mae clodydd Duw bob dydd
Yn llenwi 'r awyr, gan ei gôrau llawen;
Mae bywyd yn fwynhâd, mae myn'd a d'od
Drwy ferw 'r dref i mi yn rhoi boddlonrwydd;
Mae gwaith yn felus, 'r wyf yn caru bod
O ddydd i ddydd yn myddin fawr Diwydrwydd.

"*Yn bedwar ugain oed!*"—mor dda yw Duw
Mor hael y bu yn gwasgar trugareddau!
Ei law arweiniol fu o hyd ar lyw
Fy mywyd-loug, i'm cadw o bob creigiau;
Bu â'i Ragluniaeth fawr yn hulio 'm bwrdd,
A chlydu 'm cartref,—llanwodd bob anghenion;
Danfonodd engyl Llwyddiant i fy nghwrdd
Hyd lwybrau bywyd,—cefais "Dduw a digon."

"*Yn bedwar ugain oed!*"—ond i ba le
Yr aeth yr hen gyfeillion gynt a garwn?
Pe chwiliwn drwy bob gwlad o dan y Ne'
A gawn i *un* o'm cyfoed a adwaenwn?
Nid *dan* y Ne' ond *ynddi* y maent hwy—
Ymysg dyeithriaid 'r wyf yn awr yn teithio;
Hiraethaf weithiau am gael myned trwy
Yr olaf awr, i gael eu cwrddyd yno!

"*Yn bedwar ugain oed!*"—a'm priod gu—
Fy Sarah anwyl—yn parhau 'n gydymaith;
I wneyd fy nhŷ yn Nef, mor ffyddlawn fu!—
Ar ben fy oes rhoes Duw hi 'n goron berffaith;
Mae serch o hyd yn llosgi yn ein bron,—
Nid oera cariad yn ngauafau blinfyd;
Mor nefol yw! mae 'n gwneyd yr hen yn llon,
A chylcha 'n haelwyd gydag enfys gwynfyd.

Pymtheg a deugain o flynyddau fu
Yn dirwyn cariad am ein bywyd unol;
A thŷnach, dŷnach, yw pob blwyddyn sy
Yn rhwymo 'r hen gyfammod priodasol;
Mae 'r llw a wnaethom gynt yn dal yn awr
Yn wireb fyw yn mhrofiad ein calonau;
A deil ei hanfod byth,—ni lithra i lawr
Rhwng y ddau fyd "pan y'n gwahano angau."

"*Yn bedwar ugain oed!*"—pa faint yn hŵy?
A ydyw angeu 'n mhell yn y dyfodol?
Mi wn y rhaid ei gwrdd,—rhaid myned trwy
Y profiad dyeithr dan ei ergyd farwol;
Doed pan y dêl, nis gall wneyd niwaid im',—
Af trwyddo 'n llaw fy Nhad i'w Wynfa dirion;
Caf gorff ysbrydol, megys mellten chwim,
A symud trwy gymdeithas anfarwolion!

Pedrog.

EMYNAU: DIOLCHGARWCH AM Y CYNHAUAF.

(CYDFUDDUGOL.)

Anfeidrol ryfedd drefn,
A roes i ni drachefn,
Gynhauaf llawn;
Dy lwybrau di, O Dad,
Yn frasder, dros ein gwlad,
Ddyferodd ini 'n rhad,
Mawr yw dy ddawn.

O flwydd i flwydd 'r ym ni
Yn hollol ynot Ti
Yn byw a bod;
Y flwyddyn hon ni fu,
Un haint na newyn du,
Ond llawnder ar bob tu,
I Ti bo 'r clod.

Rho nerth i'm henaid gwan,
O Dduw, i wneyd ei ran
Mewn anial maith;
A byw 'r bendithion hyn
I'r Gŵr fu ar y bryn,
A bwyta o'r manna gwŷn
Ar hyd y daith.

Ynot, Arglwydd, y mae moroedd
O fendithion heb ddim trai;
Er cyfranu o'r dechreuad,
Nid yw 'th gyfoeth ronyn llai,
Byw a symud
Yn dy ras mae dynolryw.

Ti a wenaist ar yr hadau
Pan yn gorwedd yn y grawn,
Ac a beraist iddynt dyfu 'n
Ffrwythau addfed peraidd iawn,
Llawn o frasder
Yw dy lwybrau hael o hyd.

Beth a dalwn iti bellach,
Am dy ddoniau maith, O Dduw?
Llanw ni â thi dy hunan,
Yna wrth dy fodd cawn fyw:
Tragwyddoldeb
Hefyd gawn heb eisieu mwy.

Caernarfon. Henry Williams.

"WELE, YR WYF FI GYDA CHWI" (MATTHEW XXVIII 20).

"Myfi sydd gyda chwi!" O, na f'ai hyn
Yn dwyn tawelwch llawn i'r galon ofnus;
Ef gyda ni! Un ŵyr ein hanes oll,—
Ein crwydro pell, ein bywyd pechadurus.
O giriau llawn o swyn, neb ond Efe
Sy 'n para 'n ffyddlon, cefna pawb yn hollol,
Ond Hwn a erys: aros wnaeth erioed,
Mewn cariad rhad, ac mewn tosturi dwyfol.

"Myfi sydd gyda chwi." Do, gwelodd bawb
Yn cefnu arno Ef, a'i ddiystyru;
A gwrthwynebu cawad fel y môr
A chwyddai allan er yr holl gildynu;
Parhau yn ffyddlon wnaeth, er dyoddef cosb
Ein hanufudd-dod,—talu biliau duon
Gofynion trymion cyfraith fawr ei Dad
Mewn llawn ufudd-dod, gyda gwaed ei galon.

"Myfi sydd gyda chwi," fel aberth llawn,
Sydd yn dyhuddo llid cyfiawnder dwyfol
Ofynai am ddialedd am bob bai,
Trwy ddwyn y gosb, ac adfer heddwch bythol.
Ar sail y marw rhyfedd ar y pren,
Cawn ninnau aros yn ei gwmni nefol;
Gan dderbyn o'i gyflawnder, byw dan nawdd
Anfeidrol gariad a thosturi dwyfol.

"Myfi sydd gyda chwi." Ni cheir yn Hwn
Ond gofal a doethineb yn ein gwylio:

Fel, os rhyw ofid, neu demtasiwn gref
A ddaw i'n rhan, bydd Ef yn cynnorthwyo,
Gan ddarpar llawn ddiangfa; nerth a geir
Yn ol y dydd i ddyoddef pob caledi;
Os chwerw 'r gwpan gyfyd at ein min,
Ei hyfed wnawn i'r gwaelod yn ei gwmni.

"Myfi sydd gyda chwi!" Braich neb ond Hwn
Sy 'n gallu cynnal un dan bwys gofalon
Y byd a'i boen. Ond gan ei fod yn Un
Mor dda nas gall wneyd cam,—yn Un mor ffyddlon
Nad yw yn methu byth, y galon dd'wed
Pan yn y dyfnder, "Dy ewyllys dirion
A wneler yn fy hanes, er nas gwn
Pa fodd, nis gwn paham yr holl helbulon."

"Myfi sydd gyda chwi!" er gwel'd mor dŷn
Y glŷn y galon wrth y byd presennol,—
"Y byd sy 'n myned heibio," gyda'i chwant—
Mewn anghof llwyr o bethau 'r byd ysbrydol:
Ei bresennoldeb Ef a gwyd y llen,
A dŷn y gorchudd tew oddiar y galon,
Nes i ni wel'd mor gyfnewidiol yw
Y cyfan, ond ei bresennoldeb ffyddlon.

"Myfi sydd gyda chwi," fel ffynnon fawr,
Sy 'n llawn o bob cyflawnder mewn caledi,
Lle gall yr enaid gael ei lanw byth
Trwy dderbyn o helaethrwydd ei ddaioni.
Er gweled câr a chyfaill yn pellhau,
A dorau 'r byd ysbrydol yn ein derbyn;
Ei bresennoldeb Ef oleua 'r glyn,—
A'n dwg ni 'n iach o fangre lom y gelyn.

'Myfi sydd gyda chwi!" Pa anghen mwy?
Mae Ef yn Dad, yn Frawd, yn Gyfaill ffyddlon;
Heb gyfnewidiad yn ei hanes byth,
Er oes o bechu, er y byw afradlon:
Arosed mwyach, nid yw 'r daith ymhell;
Arosed hyd y diwedd: caiff y goron
Byth ar ei ben; ei fawl a leinw 'r nef
Gan orfoleddus gân y gwaredigion.

Seacombe. JOHN (C.) EDWARDS.

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

YN Nghyfarfod Misol Sir Fynwy, a gynnaliwyd yn y Goitre, Mehefin 17 a'r 18fed, hysbyswyd fod y Parch. E. W. Edwards wedi ymgymeryd â bod yn weinidog yr eglwys hon. Rhoddwyd canmoliaeth uchel i'r llawlyfr ar y pennodau cyntaf yn llyfr Genesis gan y Parch. W. Lewis, Pontypridd.

Yn Nghyfarfod Misol Dehau Aberteifi, a gynnaliwyd yn Bethania, Mehefin y 18 a'r 19eg, penderfynwyd anfon gwahoddiad taer i'r Parch. Griffith Ellis, M.A., Bootle, i ddyfod i Gymdeithasfa Tregaron, ynghyd a Dr. Griffiths, i osod achos Jiwbili y Genadaeth Dramor o flaen y Gymdeithasfa. Penderfynwyd hefyd wahodd y Parchn. T. Levi, a W. James, Aberdar, ar daith trwy ddosbarth y Cyfarfod Misol i'r un amcan.

Yn Nghyfarfod Misol Arfon, a gynnaliwyd yn Capel Uchaf, Clynnog, Mehefin 23 a'r 24ain, agorwyd y mater "Hollwybodaeth a Hollbresennoldeb Duw" mewn modd cryf a meistrolgar, gan y Parch. D. D. Jones, Bangor, a rhoed pleidlais unfrydol o ddiolch iddo. Yn wyneb ymddiswyddiad y Parch. John Williams, fel bugail eglwys y Tabernacl, Bangor, hysbyswyd fod yr eglwys wedi pasio pleidlais gref iawn o'r ymddiried llwyraf ynddo; a phasiodd y Cyfarfod Misol bleidlais unfrydol i'r un ystyr.

Yn Nghyfarfod Misol Gogledd Aberteifi, a gynnaliwyd yn Bethel, Gorphenaf 3 a'r 4ydd, hysbyswyd gyda llawenydd fod Casgliad Jiwbili y Genadaeth Dramor yn Ngogledd Aberteifi, yn ol yr argoelion presennol, yn debyg o gyrhaedd y swm anrhydeddus o dair mil o bunnau.

Yn Nghyfarfod Misol Manchester, a gynnaliwyd Mehefin 24ain, dadganwyd llawenydd wrth weled y Parch. W. James, B.A., yn bresennol, â'i iechyd wedi ei adferu i raddau mor helaeth. Penderfynwyd fod cydymdeimlad y cyfarfod yn cael ei anfon at Mr. J. Roberts, Stockport, yn ei henaint a'i afiechyd.

Yn Nghyfarfod Misol Trefaldwyn Isaf, a gynnaliwyd yn Llanfyllin, Mehefin 30ain a Gorphenaf 1af, rhoddwyd derbyniad tra chynhes i'r Parch. David Harries, D.D., Chicago, America, a rhoddodd Dr. Harries ychydig o hanes yr Achos yn ei wedd Fethodistaidd yn America. Pasiwyd penderfyniad yn dadgan llawenydd y Cyfarfod Misol yn wyneb llwyddiant Mr. J. T. Prichard, Birmingham, yr hwn a gyrhaeddodd y safle uchaf ar restr y bedwaredd flwyddyn yn Arholiad diweddaf Athrofa y Bala. Dadganwyd llawenydd y Cyfarfod Misol hefyd am lwyddiant ei chwaer, Miss A. C. Pritchard, yr hon a ennillodd y *medal* aur yn Arholiad y Gymanfa Gyffredinol am y flwyddyn hon.

Yn Nghyfarfod Misol Dwyrain Meirionydd, a gynnaliwyd yn Nghynwyd, Gorphenaf 7 a'r 8fed, dygwyd i sylw gyfrol o Bregethau gan y Parch. Robert Williams, M.A., Utica, gynt o Gorwen, yn dwyn y teitl "Yr Efengyl yn yr Hen Destament;" rhoddwyd canmoliaeth uchel iddi ac annogaeth wresog i'w phwrcasu.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Benfro, a gynnaliwyd yn Gwdig, Mehefin 17 a'r 18fed, penderfynwyd rhoddi llythyr cyflwyniad i'r Parch. P. Morse i Gyfarfod Misol Sir Fynwy, ar ei fynediad i ymgymeryd â gofal eglwys Pontnewynydd; dygwyd iddo dystiolaeth uchel ac amlygwyd y dymuniadau goreu am ei lwyddiant.

ATHROFA'R BALA. ARHOLIAD 1890.

ARHOLWYR:

Duwinyddiaeth: Parch. G. Parry, D.D.

Groeg, Lladin, Saesoneg, Rhif a Mesur: Mr. O. M. Edwards, B.A., a'r Parch. John Williams, B.A., Ffestiniog.

Cynnaliwyd yr Arholiad Blynyddol ychydig yn gynt nag arfer eleni o herwydd fod Cymdeithasfa yn y Bala, Mehefin 17—19eg. Yr oeddys wedi trefnu fod Cyfarfod Blynyddol yr Athrofa i gael ei gynnal mewn cysylltiad â'r Gymdeithasfa. Cynnaliwyd y cyfarfod nos Fawrth, Mehefin 17eg, pryd y darllenwyd canlyniadau yr Arholiad, ac y rhanwyd gwobrwyon fel y canlyn:—

Adroddiad yr Arholydd mewn Duwinyddiaeth:—

"I have great pleasure in being able to report to the Committee that the results of the Examination for this year, as far as my papers were concerned—Dogmatic Theology, Greek Testament, and Church History, were highly gratifying. The papers of the more advanced Students evinced a high degree of merit, and proved that their knowledge of the subjects was at once full and accurate. The bulk of the papers bore marks of diligent study and praiseworthy effort. The papers altogether shewed, on the part of the Professors, their conscientious devotedness to their work, as well as the efficiency and thoroughness of their teaching; and on the part of most of the Students a well-sustained perseverance and devotedness to their studies throughout the year.

G. Parry."

Adroddiad yr Arholwyr Clasurol:—

"Dengys yr holl bapyrau, ymhob canghen, ôl llafur caled, cydwybodol. Y mae'r papyrau Groeg a Lladin yn anghyfartal, fel y gellid dysgwyl, ond y mae ôl dysgyblaeth fanwl arnynt oll, ac y mae cywirdeb eu grammadeg yn haeddu canmoliaeth uchel. Y mae mwyafrif y myfyrwyr yn hollol gyfarwydd, erbyn hyn, âg ysgrifenu yr iaith Saesoneg. Y mae'r rhan fwyaf o'r traethodau yn llawn meddylgarwch, ond rhaid dyweyd fod nifer mawr o honynt yn dangos mai cyfyng iawn ydyw cylch myfyrdod a darllen eu hysgrifenwyr. Mewn Rhif a Mesur gwnaed gwaith rhagorol, ac y mae y dosbarth mewn Athroniaeth Naturiol wedi llwyddo yn y gangen anhawdd hon.

Y mae bron yr oll o fyfyrwyr yr Adran Ragbarotoawl wedi gwneyd cynnydd dirfawr, er fod lle i gynnydd mawr eto. Mantais fawr i'r Dosbarth yma fyddai cael ei ranu yn ddau, os bydd modd trefnu hyny.

O. M. Edwards.
J. Williams."

Duwinyddiaeth.

1. Crawford on the Atonement. Safon 200.

Lloyd Williams	188	William Roberts	158
Owen Owen		R. H. Thomas	
John Hughes	186	Thomas Pierce	156
J. T. Prichard	178	David Hughes	
H. E. Griffith		W. Williams	154
J. P. Williams	176	R. H. Evans	152
J. D. Evans		D. E. Jones	150
W. O. Williams	174	J. M. Edwards	142
T. R. Jones	172	I. C. Roberts	138
J. H. Williams		R. T. Vaughan	104
William Davies	166	Thomas Owen	100
Thomas Lloyd	162		
William Foulkes			

2. Testament Groeg.—Ioan i. Safon 200.

Lloyd Williams	186	H. E. Griffith	154
Owen Owen		J. P. Williams	
J. T. Prichard	180	R. T. Vaughan	152
David Hughes		Wm. Foulkes	
John Hughes		D. E. Jones	146
W. O. Williams	174	William Davies	144
J. D. Evans	164	T. R. Jones	140
John M. Edwards	162	William Roberts	138
John H. Williams	160	Isaac C. Roberts	122
R. H. Thomas	158	W. Williams	120
Thomas Pierce		Thomas Owen	102
R. H. Evans	156	Thomas Lloyd	100

Hanesiaeth Eglwysig.—Safon 240.

J. T. Prichard	219	J. P. Williams	192
John Hughes	211	R. H. Thomas	178
I. C. Roberts	208	William Williams	154
W. Foulkes	201	Thomas Owen	121
David Hughes	195		

Collodd William Roberts yr Eisteddiad hwn o herwydd aflechyd.

D.S.—Caniateid i'r myfyrwyr gymeryd eu dewis:—Hanesiaeth Eglwysig neu *Mathematics*.

Traethawd Saesoneg.—Safon 100.

J. T. Prichard	90	J. H. Williams	74
William Roberts		Lloyd Williams	
R. H. Evans	83	W. Foulkes	73
I. C. Roberts	81	J. M. Edwards	
J. D. Evans	80	Owen Owen	70
R. T. Vaughan		Thomas Pierce	
David Hughes	79	W. Owen Williams	69
R. H. Thomas	76	William Williams	60
H. E. Griffith		William Davies	
T. R. Jones	75	Thomas Owen	50
J. P. Williams		Thomas Lloyd	
John Hughes		D. E. Jones	40

Dosbarth Hynaf.

(4edd a'r 3ydd flwyddyn.)

Awduron Seisonig.—Safon 300.

J. T. Prichard	235	William Roberts	165
J. P. Williams	215	David Hughes	163
J. D. Evans	210	R. T. Vaughes	150
R. H. Evans		T. R. Jones	
I. C. Roberts	187	R. H. Thomas	145
H. E. Griffith	175		

Awduron Groeg.—Safon 200.

William Roberts	186	R. H. Evans	148
J. D. Evans		I. C. Roberts	146
H. E. Griffith	174	T. R. Jones	144
J. T. Prichard	166	J. P. Williams	136
R. T. Vaughan		D. Hughes	124
R. H. Thomas	152	Thomas Owen	78

Groeg: Gramadeg a Chyfansoddi.—Safon 100.

William Roberts	95	J. T. Prichard	50
H. E. Griffith	80	R. H. Evans	45
R. H. Thomas	76	I. C. Roberts	
T. R. Jones	65	R. T. Vaughan	40
J. P. Williams	55	David Hughes	
J. D. Evans	53		

AWDURON LLADIN,—Safon 160.

J. D. Evans	... 148	David Hughes	... 106
J. T. Prichard	... 136	T. R. Jones	100
H. E. Griffith	... 133	J. P. Williams	
R. T. Vaughan	125	R. H. Evans	... 90
R. H. Thomas		I. C. Roberts	... 80
William Roberts	... 111	Thomas Owen	... 76

LLADIN: GRAMADEG A CHYFANSODDI.—Safon 120.

J. D. Evans	... 109	T. R. Jones	84
H. E. Griffith	... 106	J. P. Williams	
W. Roberts	... 102	R. H. Thomas	... 77
R. T. Vaughan		David Hughes	... 70
J. T. Prichard	94	Isaac C. Roberts	... 61
R. H. Evans			

ALGEBRA.—Safon 170.

R. T. Vaughan	... 151	H. E. Griffith	123
T. R. Jones	... 125	R. H. Evans	
		J. D. Evans	... 104

NATURAL PHILOSOPHY: STATICS, DYNAMICS, OPTICS. Safon 170.

R. T. Vaughan	... 125	H. E. Griffith	... 88
J. D. Evans	... 120	T. R. Jones	... 80
R. H. Evans	... 90		

Dosbarth Ieuengaf.

AWDURON SEISONIG.—Safon 250.

J. H. Williams	... 192	W. O. Williams	... 134
Owen Owen	175	W. Foulkes	... 130
Lloyd Williams		T. Pierce ...	... 127
John Hughes		D. E. Jones	... 120
T. Lloyd	... 159	W. Williams	... 67
J. M. Edwards	142		
William Davies			

HANES LLOEGR.—Safon 120.

Lloyd Williams	... 84	T. Pierce	... 60
J. H. Williams	... 77	W. O. Williams	... 51
Owen Owen	... 71	W. Davies	... 48
W. Foulkes	... 64	W. Williams	... 41
J. Hughes	... 63	D. E. Jones	... 38

AWDURON GROEG. Safon 160.

J. M. Edwards	136	Lloyd Williams	...86
William Davies		W. Williams	...68
Owen Owen	...118	D. E. Jones	...67
J. H. Williams	...100	W. O. Williams	...65
T. Pierce	93	J. Hughes	...60
T. Lloyd		W. Foulkes	...54

GROEG: GRAMADEG A CHYFANSODDI. Safon 90.

William Davies	...88	W. Williams	...64
J. M. Edwards	...80	T. Pierce ...	...62
T. Lloyd...	...77	W. O. Williams	...53
J. H. Williams	...68	D. E. Jones	...52
Owen Owen	67	Lloyd Williams	...49
J. Hughes		W. Foulkes	...43

AWDURON LLADIN. Safon 120.

Owen Owen	...106	Thomas Pierce	80
J. M. Edwards	... 99	William Foulkes	
William Davies	96	W. O. Williams	...75
Lloyd Williams		D. E. Jones	...62
Thomas Lloyd	.. 91	William Williams	...60
J. H. Williams	... 88	John Hughes	...40

LLADIN: GRAMADEG A CHYFANSODDI. Safon 100.

William Davies	86	J. H. Williams	...65
J. M. Edwards		D. E. Jones	...64
Owen Owen		William Foulkes	...59
Thomas Lloyd	...80	W. Owen Williams	54
Thomas Pierce	...74	William Williams	
Lloyd Williams	...71	John Hughes	...52

ALGEBRA. Safon 160.

Lloyd Williams	..160	J. H. Williams	...82
Owen Owen	...141	Thomas Pierce	...65
J. M. Edwards	...105	D. E Jones	50
Thomas Lloyd	...104	W. Owen Williams	
William Davies	...100		

GEOMETRY AND TRIGONOMETRY. Safon 160.

Lloyd Williams	...156	Thomas Pierce	...102
Owen Owen	...152	W. Owen Williams	68
William Davies	...134	J. H. Williams	... 62
J. M. Edwards	...125	D. E. Jones	... 58
Thomas Lloyd	...122		

Wedi rhoddi yr holl bapyrau at eu gilydd, saif y myfyrwyr yn y gwahanol ddosbarthiadau fel y canlyn:—

Y BEDWAREDD FLWYDDYN. Safon 1720.

1	J. T. Prichard, Birmingham	... 1344
2	William Roberts, Llanaelhaiarn	... 1225
3	T. R. Jones, Llanelidan	 1134

Y DRYDEDD FLWYDDYN.—Safon 1720.

1	J. D. Evans, Llundain ...	... 1350
2	H. E. Griffith, Talysarn ...	... 1286
3	R. H. Evans, Ffestiniog	... 1187
	R. T. Vaughan, Bala ..	
4	J. P. Williams, Caer ...	... 1175
5	R. H. Thomas, Pantglas ...	... 1143
6	David Hughes, Clocaenog ...	... 1112
7	Isaac C. Roberts, Cyffylliog...	... 1063
8	*Thomas Owen, Edeyrn ...	... 514

* Collodd ran fawr o'r tymmor o herwydd afiechyd, a rhai o Eisteddiadau yr Arholiad.

Yr oedd T. E. Jones, Cyffylliog, yn absennol o'r Arholiad, gan ei fod yn ymgeisio yn y *London University Matriculation Examination* yr un dyddiau. Yr oedd Richard Morris, Llanarmon, wedi bwriadu cymeryd yr Arholiad hwnw, ond lluddiwyd ef trwy afiechyd.

Y DOSBARTH IEUANGAF.* Safon 1660.

1	Owen Owen, Portmadoc ...	... 1356
2	Lloyd Williams, Lerpwl ...	... 1324
3	John Morgan Edwards, Llanuwchllyn	1207
4	William Davies, Môn ...	... 1189
5	John Henry Williams, Clwtybont ...	1139
6	Thomas Lloyd, Bangor ...	... 1086
7	John Hughes, Caer ...	... 1079
8	Thomas Pierce, Abererch ...	... 1031
9	William Foulkes, Bangor ...	... 1013
10	W. Owen Williams, Dinbych	... 967
11	William Williams, Llanberis	... 931
12	D. E. Jones, Llandderfel ...	... 846

* Yr oedd yr Efrydwyr a dderbyniwyd y llynedd yn ymuno â'r rail flwyddyn, felly nid oes dosbarth yn perthyn i'r flwyddyn gyntaf fel cynt.

Yr oedd David Jones, Portmadoc, a Hugh Williams, Gorslwyd, yn absennol o'r Arholiad o herwydd afiechyd.

Yr Adran Ragbarotoawl.

D.S.—Ffurfiwyd yr Adran hon y llynedd.

TRAETHAWD SEISONIG.—Safon 100.

W. H. Humphreys	90	R. R. Jones	... 45		
John Thomas	... 82	Pierce Owen			
J. W. Jones	... 78	W. M. Jones			
J. D. Roberts	... 70	Moses Roberts	40		
R. D. Williams	65	J. G. Hughes			
Robert Roberts		J. K. Jones			
R. M. Jones	... 60	John Evans	... 35		
William Jones	50	Thomas Williams	30		
Thomas Hughes		W. G. Hughes			

HANES LLOEGR.—Safon 100.

Robert Roberts	... 82	W. G. Hughes	39		
J. D. Roberts	... 66	J. K. Jones			
John Thomas	... 59	R. M. Jones	... 29		
Thomas Hughes	... 52	Pierce Owen	... 27		
W. H. Humphreys	51	Thomas Williams	26		
J. W. Jones	... 50	W. M. Jones	24		
R. R. Jones	... 49	John Evans			
R. D. Williams	... 44	Moses Roberts	... 28		
J. G. Hughes	... 43	William Jones	... 20		

AWDURON SEISONIG.—Safon 150.

Robert Roberts ...	120	W. M. Jones ...	62
W. H. Humphreys	114	John Evans	
John Thomas ...	105	Moses Roberts	60
J. W. Jones ...	100	William Jones	
R. R. Jones ...	96	Pierce Owen ...	58
J. G. Hughes ...	94	J. K. Jones ...	56
J. D. Roberts	80	Thomas Hughes...	54
R. D. Williams		R. M. Jones ...	50
W. G. Hughes	65		
Thos. Williams			

GROEG.—Safon 200.

J. W. Jones ...	160	W. G. Hughes	120
W. H. Humphreys	152	W. M. Jones	
R. D. Williams ...	150	Moses Roberts ...	119
Pierce Owen	140	J. K. Jones ...	105
J. D. Roberts		R. M. Jones ...	104
R. Roberts ...	138	W. Jones	80
T. Hughes ...	131	T. Williams	
J. Thomas	124	John Evans ...	50
R. R. Jones		J. G. Hughes ...	38

LLADIN.—Safon 200.

R. D. Williams ..	195	J. W. Jones ...	140
R. R. Jones ...	190	Moses Roberts	131
W. H. Humphreys	188	John Thomas	
Pierce Owen ...	175	R. Roberts ...	127
J. D. Roberts ...	167	R. M. Jones ...	112
J. K. Jones ...	164	William Jones ...	78
W. G. Hughes ...	159	T. Williams ...	56
Thomas Hughes	143	John Evans ...	27
W. M. Jones		J. G. Hughes ...	20

ARITHMETIC AND ALGEBRA.—Safon 100.

R. D. Williams ...	97	J. W. Jones ...	46
R. R. Jones ...	81	W. G. Hughes ...	42
J. D. Roberts	75	R. M. Jones	35
W. H. Humphreys		William Jones	
Pierce Owen ...	71	T. Williams ...	25
Robert Roberts ...	60	W. M. Jones ...	20
J. K. Jones	56	John Evans	12
John Thomas		J. G. Hughes	
Thomas Hughes ...	50		

GEOMETRY.—Safon 100.

R. D. Williams ...	95	John Thomas ...	55
Pierce Owen ...	85	R. Roberts ...	50
J. D. Roberts ...	83	W. G. Hughes ...	48
Thomas Hughes ...	80	R. M. Jones ...	38
R. R. Jones ...	76	Thomas Williams..	36
J. W. Jones ...	75	William Jones ...	25
J. K. Jones ...	72	W. M. Jones ...	20
W. H. Humphreys	65	John Evans	12
Moses Roberts ...	62	J. G. Hughes	

Yn yr oll o'r papyrau gyda'u gilydd, saif y myfyrwyr fel y canlyn :—

Safon 950.

W. H. Humphreys, Bangor	734
R. D. Williams, Pandy Tudur	721
J. D. Roberts, Corwen	675
R. R. Jones, Sir Fôn	658
J. W. Jones, Arfon	643
Robert Roberts, Bolton	638
John Thomas, Tremadoc	612
Pierce Owen, Pentrecelyn	589
Thomas Hughes, Conwy	560
J. K. Jones, Beaumaris	528
W. G. Hughes, Clynog	475
Moses Roberts, Dyffryn Conwy ...	443
R. M. Jones, Arfon	428
W. M. Jones, Arfon	426
William Jones, Penrhyndeudraeth ...	257
Thomas Williams, Môn	238
John Evans, Llangoed	223
J. G. Hughes, Lleyn	153

Methodd Enoch Anwyl a sefyll gan afiechyd.

Rhanwyd £10 yn wobrwyon i'r Dosbarth, fel y canlyn :—

W.H. Humphreys £2 10s. R. R. Jones ... £1 10s.
R. D. Williams £2 10s. J. W. Jones ... £1 0s.
J. D. Roberts... £1 10s. Robert Roberts £1 0s.

Gwobrwyon Arferol :

£10 yr un i'r rhai canlynol :—J. T. Prichard, William Roberts, T. R. Jones, H. E. Griffith, R. H. Evans, J. P. Williams, R. H. Thomas, David Hughes, I. C. Roberts, T. E. Jones Gyffylliog, a Richard Morris, Llanarmon.

£7 yr un,—Owen Owen, William Davies, John Henry Williams, Thomas Lloyd, John Hughes, Thomas Pierce, William Foulkes, W. O. Williams, William Williams.

Gwobrwyon Neilldnol :

Ysgoloriaeth Roberts, £20. Oedwyd dyfarnu hon nes y ceir canlyniad Arholiad Prifathrofa Llundain.

Ysgoloriaeth Herbert Lewis (i rai o Siroedd Fflint a Dinbych). Bwriedir dyfarnu hon ynglŷn â'r Arholiad am fynediad i'r Athrofa yn mis Medi nesaf.

Ysgoloriaeth J. R. Jones, £10. J. T. Prichard.

£8 (gan Ymddiriedolwyr T. Jones), William Roberts.

Ysgoloriaeth Maer Pwllheli, £10, J. D. Evans.

£8, H. E. Griffith.

£6 (gan Ymddiriedolwyr T. Jones), R H. Evans.

£6, Owen Owen.

£5, Lloyd Williams.

£4 (gan Ymddiriedolwyr T. Jones), William Davies.

Ysgoloriaeth Charles (i rai o Feirion yn unig), £10, J. M. Edwards.

Lleygwyr i gael eu haddysg yn rhad :—J. D. Evans, R. T. Vaughan, Lloyd Williams, D. E. Jones.

Myfyrwyr y telir eu *fees* drostynt, sef £10 yr un, am y flwyddyn nesaf, mewn Colegau eraill, yn ol y penderfyniad a basiwyd yn Nghaerlleon,—J. D. Evans, H. E. Griffith, R. H. Evans, T. E. Jones, R. Morris.

Enwau y myfyrwyr o'r adran newydd sydd i gael eu haddysg yn rhad y flwyddyn nesaf : W. H. Humphreys, R. D. Williams, J. D. Roberts, R. R. Jones, J. W. Jones, R Roberts, J. Thomas, P. Owen, T. Hughes, J. K. Jones, W. G. Hughes, E. Anwyl.

D.S.—Bydd yr Arholiad am fynediad i'r Athrofa yn dechreu Medi 9fed, 1890.

CYFARFODYDD PREGETHU.

TREORCI.

CYNNALIWYD Cyfarfod Pregethu blynyddol Treorci Sabboth a Llun, Mehefin 29 a'r 30ain. Pregethwyd gan y Parchn. Owen Prys, B.A., Trefecca; Evan Phillips, Castellnewydd; a Samuel T. Jones, Rhyl.

LIBANUS.

Cynnaliwyd Cyfarfod i agor capel newydd Libanus, Corseinion, ar yr 22 a'r 23ain o Fehefin. Pregethwyd gan y Parchn. D. M. Davies, Penclawdd; A. Oliver, Pontardulais; a D. R. Williams, Cruglas, Abertawe.

CWMAMAN.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn y lle uchod Mehefin 17 a'r 18fed. Gwasan-

aethwyd gan y Parchn. Abraham Oliver, Pontardulais; a Thomas E. Edwards, Cwmafon.

FFLINT.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Fflint, Gorphenaf 15 a'r 16eg. Gweinyddwyd gan y Parchn. T. Levi, Aberystwyth; John Williams, Brynsiencyn; a Josiah Jones, Fflint.

TREFFYNNON.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Nhreffynnon, Sabbath, Gorphenaf 13eg. Pregethwyd gan y Parchn. John Evans, Llanfaircaereinion, a W. Jones, Liverpool.

Y PARCH. HUGH JONES, D.D., LIVERPOOL.

Diau fod ein Cyfundeb oll trwy Gymru a threfydd Lloegr, ac yn America hefyd, yn llawenhau wrth ddeall fod y gŵr rhagorol a'r pregethwr poblogaidd hwn wedi ei anrhydeddu â'r gradd o Ddoctor mewn Duwinyddiaeth o Athrofa enwog Princeton, America. Ni raid dyweyd dim am ei deilyngdod a'i ragoriaethau, gan eu bod yn hysbys er's llawer blwyddyn bellach trwy Gymru benbaladr. Dymunwn o'n calon i Dr. Jones flynyddoedd lawer eto o ddefnyddioldeb, llwyddiant a chysur.

AMRYWION.

Anrhegwyd y Parch. D. B. Edmunds, ar ei ymadawiad o Bettws i Dregynon, â *silver tea and coffee service*, a phethau eraill, fel arwyddion o barch. Traddodwyd anerchiadau yn y cyfarfod ymadawol gan y Parchn. E. Parry, M.A., Drefnewydd; T. Jones Davies, Pontyrch, ac eraill.

Da iawn oedd genym weled fod Mr. W. F. Lewis, mab y Parch. Dr. Dickens Lewis, wedi ennill y gradd o B.A., yn y *Lake Forest University*, Illinois; ac hefyd wedi ennill y *gold medal*, yr anrhydedd uchaf a fedd y Brifysgol hono i'w roddi, am ragoriaeth mewn areithyddiaeth a rheitheg. Yr oedd Principal Edwards, Aberystwyth, yn bresennol ar ddiwrnod rhoddi y graddau, a llon-gyfarchodd ei nai yn gynhes ar ei lwyddiant.

Y mae Mr. Edward Edwards, B.A., brawd y Parch. O. M. Edwards, Coleg Balliol, Rhydychain, wedi ennill y *Foundation Scholarship* yn Ngholeg St. John's, Caergrawnt.

MARWOLAETHAU PREGETHWYR.

Y PARCH. EVAN WILLIAMS, MORFA NEFYN.

Gan y Parch. W. Jones, *Fourcrosses.*

Boreu Iau, Mai 29ain, bu farw yr hen weinidog adnabyddus, y Parch. E. Williams, Morfa Nefyn, yn yr oedran addfed o 82. Ganwyd ef yn Pentre ucha', pentref bychan yn Lleyn, oddeutu tair milldir o Bwllheli, ac yma y treuliodd y rhan gyntaf o'i oes. Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1834. Bu yn efrydydd yn Athrofa y Bala am ysbaid; yr oedd yno ar yr un adeg a'r Parchn. W. Charles, Gwalchmai, a Dr. O. Thomas. Ordeiniwyd ef yn Nghymdeithasfa Bangor, Medi 1847, ar yr un adeg a'r hynod John Williams, Llecheiddior. Yn y flwyddyn 1858 symudodd i Morfa Nefyn i gymeryd gofal yr eglwys yno; ac efe yn awr oedd y gweinidog yn gystal a'r bugail hynaf perthynol i Gyfarfod Misol Lleyn ac Eifionydd. Yr oedd, o herwydd llesgedd, wedi cael ei attal i bregethu er's tair blynedd; ac attaliwyd ef rhag dyfod i'r capel o gwbl am y flwyddyn a hanner diweddaf, ond ni pharhaodd ei gystudd olaf ond chwe' diwrnod. Claddwyd ef Mehefin 3ydd yn mynwent newydd Nefyn. Yr oedd Mr. Williams o'i gychwyniad cyntaf fel pregethwr yn hynod gymeradwy. Yr oedd wedi ei gymhwyso gan natur i fod yn bregethwr poblogaidd. Teithiodd lawer trwy y Deheudir i bregethu; a bu yn pregethu yn y lleoedd mwyaf amlwg yn Nghymdeithasfäoedd y Gogledd a'r De. Cafodd lawer o odfaon anarferol o rymus, yn enwedig felly yn y rhan gyntaf o'i oes; a bu yn foddion yn llaw yr Arglwydd i ddychwelyd llawer o bechaduriaid o gyfeiliorni eu ffyrdd. Dysgwyliwn y gallwn roddi i'n darllenwyr ychwaneg o hanes yr hen weinidog anwyl hwn yn lled fuan.

Nodiadau Misol.

DADL Y CENADON WESLEYAIDD.

Y mae y ddadl bwysig a phoenus hon bellach ar ben. Nis gallasai lai na gwneyd drwg dirfawr i gymdeithas sydd â'i bywyd yn ymddibynu ar ymddiried a brwdfrydedd y bobl. Effeithiodd yn niweidiol ar gasgliadau y Gymdeithas, y rhai a aethant yn llai o dros naw mil o bunnau. Swm y cyhuddiadau a wnaeth-

pwyd yn erbyn y Cenadon gan y Parch. Hugh Price Hughes, yn y *Methodist Times*, yr hwn a olygir ganddo, a chan Dr. Lunn, oedd—fod cyflogau y cenadon yn rhy uchel, eu bod yn byw mewn pellder a dyeithrwch oddiwrth y brodorion, heb gydymdeimlad â hwynt, ac yn esgeuluso cyflawni y gwaith yr anfonwyd hwynt i'w gyflawni. Creodd hyn gyffro dirfawr, fel y dylasai wneyd, ar y maes Cenadol, ac yn y Cyfundeb gartref. Anfonodd y cenadon rai o'u plith eu hunain o'r India i'r wlad hon i'w cynnrychioli. Yr oedd y Gynnadledd Wesleyaidd wedi ceisio iachâu y briw yn ysgafn, a llefaru heddwch pryd nad oedd heddwch. Ond wrth geisio boddhau y ddwy blaid, methasant a boddloni yr un. Daeth y cenadon allan fel dynion gonest i fŷnu yr ymchwiliad llwyraf i'r cyhuddiadau. Nid oedd yn bosibl gwrthod cais mor gyfiawn. Penododd y Cyfeisteddfod Isbwyllgor neillduol, yn cael ei wneyd i fyny o wŷr o'r fath gyfrif a dylanwad fel nes gallai neb wrthod eu penderfyniad beth bynag a fyddai. Dygwyd dau o'r cenadon o India i gynnrychioli y cyhuddedigion, a rhoddwyd i'r cyhuddwyr bob mantais posibl i brofi eu haeriadau. Ac wedi ymchwiliad pwyllog, manwl, a thrwyadl, ennillodd y cenadon fuddugoliaeth lwyr. Prin y gwnaeth eu cyhuddwyr gais i brofi eu haeriadau, nac i droi draw y gwrth-gyhuddiadau a'r gwawd a bentyrid arnynt gan eu gwrthwynebwyr. Dyma oedd swm adroddiad yr Isbwyllgor: "Y mae cenadon ein Cymdeithas yn yr India yn cael eu clirio yn gyfangwbl oddiwrth yr holl gyhuddiadau a wnaed neu a awgrymwyd yn erbyn eu cymeriad, a chymeriad eu gwaith, pa un bynag ai gyda golwg ar eu dull o fyw, ai eu perthynasau â'r boblogaeth frodorol, Gristionogol ac fel arall." Dywedir fod y tystiolaethau, y rhai a gyhoeddwyd yn llawn, yn cyfiawnhâu pob sill o'r ddedfryd gref a diamwys hon. Rhaid i ni gyfaddef ein bod yn synu yn fawr at ymddygiad y Parch. Hugh Price Hughes, tra yn proffesu derbyn penderfyniadau y Pwyllgor yn hollol ac yn *loyal* yn ei holl gysylltiadau cyhoeddus, eto yn dal fod ei farn bersonol heb ei nhewid; ac yn ceisio gŵyrdroi gwaith y Pwyllgor yn argymhell fod i'r cenadon o hyn allan gael eu talu yn arian yr India yn lle arian Lloegr, i fod yr un peth a gostyngiad yn eu cyflogau: tra yr oedd y Pwyllgôr wrth wneyd hyn yn dyweyd yn bendant ei fod yn cael ei wneyd yn hollol annibynol ar *swm* y cyflogau.

Dyma olygfa boenus dros ben: gweled gŵr o safle ac enwogrwydd Mr. Hughes yn ceisio dal gafael yn gyndyn mewn pethau sydd wedi eu profi yn y modd llwyraf yn anwireddau, ac heb un cerpyn o brawf nac esgus o'u plaid.

BYDDIN IACHAWDWRIAETH.

Y MAE cynnydd dirfawr y gymdeithas hon yn un o ryfeddodau hanes crefyddol yr oes. Y mae ei chyllid blynyddol dros yr holl fyd yn cyrhaedd y swm anferth o un fil ar bymtheg o bunnau dros dri chwarter miliwn—hyny yw, saith gant ac un ar ddeg a phedwar ugain o filoedd o bunnau (£791,000). Y mae cylchrediad unedig ei holl gyhoeddiadau yn agos i ddeunaw ar hugain o filiwnau yn y flwyddyn. Gwerthir bob wythnos o'r *War Cry* a'r *Young Soldier* nifer yn tynu at hanner miliwn (414,456).

Byrnodion Amrywiaethol.

YMDDANGOSODD erthygl hynod ddyddorol y mis hwn yn un o'r prif gyhoeddiadau ar y clefyd hwnw ag y mae ei enw yn gymaint o ddychryn, fe allai, a'r un—y *cancer*. Ei hawdwr yw Dr. Snow, un o feddygon *Cancer Hospital* yn Llundain, ac felly gŵyr yn dda am ba beth y mae yn llefaru. Y ddwy ffaith bwysig a wneir allan yn yr erthygl yw y rhai hyn:—1. Fod y dolur hwn yn cynnyddu yn ein teyrnas yn gyson bob blwyddyn, er ys blynyddoedd bellach. 2. Mai y prif achos o hono ydyw—gorbryder, galar neu boen meddwl.

Dywed Dr. Parker ei fod yn adwaen gŵr wedi ennill y gradd o M.A. yn sillebu *Principal* Coleg fel pe byddai yn egwyddor foesol.

Y mae Dr. W. M. Taylor, o New York, yn gweithio yn galed i sicrhâu cronfa o £20,000 ar gyfer hen weinidogion Cynnulleidfaol. Casglodd swm da eisoes yn ei enwad ei hun, ac enwadau eraill. Cafodd gymunrodd o £2000 at yr amcan. Yr oedd Dr. Taylor yn pregethu yn y *Crescent Church*, Belfast, borcu Sabboth ar ol Cymanfa Gyffredinol yr Eglwys Henaduriaethol.

Bywgraffiaeth.

MR. EDWARD JONES, CROESOSWALLT.

Gan y Parch. T. E. ROBERTS, M.A., *Croesoswallt.*

"COFFADWRIAETH y cyfiawn sydd fendigedig." Y mae'r cyfiawn yn gadael rhywbeth heblaw galar ar ol yn meddwl a mynwes ei hen gyfeillion. Gedy adgof bendigedig ag sydd yn gwrthweithio dylanwad y galar. Adeg marwolaeth y cyfiawn hefyd yw yr adeg fwyaf rhesymol i'w glodfori. Y mae yn fwy felly nag adeg ei fywyd. O herwydd gellir, gyda phriodoldeb, edrych ar ei yrfa ddaearol fel tymmor o frwydro ag sydd yn diweddu mewn buddugoliaeth. Yn ystod ei fywyd gyda ni, pan y mae y frwydr yn myned ymlaen, er ein bod yn sylwi gyda llawenydd ar symudiadau y milwr, ac yn teimlo gwerthfawrogiad o'i alluoedd a'i wasanaeth, nid ydym yn ystyried fod yr adeg wedi dyfod i ni roddi mynegiant i'n teimladau a gwaeddi, "Bendigedig," uwch ben ei fywyd. Y mae y frwydr eto heb ei gorphen, y mae yna symudiadau pellach i'w gwneyd. Wedi i'r rhai hyn gael eu gwneyd, ac wedi i ninnau gael y bywyd yn gyfan ger ein bron, y pryd hyny yr ydys yn teimlo y gellir gyda diogelwch a phriodoldeb wneuthur adolygiad o'r bywyd, a'i gyhoeddi yn fywyd gorchfygol. *Coffadwriaeth* y cyfiawn sydd fendigedig. Ar y cyfrif yma y mae coffâu am y bywyd wedi iddo ddarfod yn dyfod yn beth llawn mor hyfryd, os nad yn fwy felly, ag ydyw sylwi arno pan yn cael ei fyw. Peth arall ag sydd yn gwneyd coffadwriaeth y cyfiawn yn fendigedig ydyw, ein bod, os yn ystyriol, yn rhwym o edrych ar ei fywyd yn yr oll o hono, nid yn unig fel buddugoliaeth, ond fel buddugoliaeth ag y mae a fyno hi nid yn gymaint â'r gorphenol ag â'r presennol a'r tragywyddol. Y mae'r ymdeimlad sicr sydd ynom fod y gorchfygwr yn fyw, ac i fyw byth gan fedi ffrwyth ei lafur, yn llenwi yr adgof am ei fywyd gyda hyfrydwch pur, digymysg. Y mae yna yn y coffhau yma lawenydd nid yn unig o herwydd y gorchfygu a tu, ond o herwydd y gogoneddu sydd eisoes wedi dechreu, ac sydd byth mwy i barhau.

Wrth goffhau am fywyd ein cyfaill anwyl a ffyddlawn Mr. Edward Jones, teimlwn mai priodol ydyw defnyddio geiriau yr angel wrth Jacob: "Cefaist nerth gyda Duw fel tywysog, ac a orchfygaist." Oddiwrth y dystiolaeth gyffredinol a glywid o bob cyfeiriad adeg ei farwolaeth a'i gladdedigaeth, y cymeriad neilldiol ag yr oedd Mr. Jones wedi ei ennill iddo ei hun ydoedd y cymeriad hwnw—yr uchaf a'r mwyaf gogoneddus sydd yn bosibl, sef y cymeriad o "Ŵr Duw." Yr oedd y gynnulleidfa fawr oedd yn y capel ac yn hebrwng ei gorff ddydd y claddedigaeth, y bobl o bob gradd oedd yn ymdyru ar hyd yr heolydd, ac amryw bethau eraill a ddygwyddodd, yn arwyddion o barchedigaeth mawr, a hwnw y parchedigaeth penaf oedd bosibl, yn gymaint ag mai tystiolaeth ydoedd i *waith gras.* Yn Mr. Jones ni a gaem gyflawniad o'r brophwydoliaeth hono, "Eu had hwynt a adwaenir ymysg y cenedloedd—y rhai a'u gwelant a'u hadwaenant mai hwynthwy yw yr had a fendithiodd yr Arglwydd." Yr oedd bendith ei rieni yn amlwg iawn arno ef, ac nid yw yn beth rhyfedd fod ganddo gymaint o gydymdeimlad â'r hen Gristionogion a fu, gan iddo dderbyn cymaint ganddynt. Yr oedd ei fam yn un odiaeth o grefyddol. Pan yn eneth ieuanc ceir ddarfod iddi fod am bymthegnos heb gysgu, ac mewn blinder corff a meddwl, am nad oedd yn gallu cael siorwydd fod Duw yn ei derbyn i'w ffafr. O'r diwedd, modd bynag, fe'i cafodd, ac fe fu hwn yn gryfder ynddi drwy ei hoes, ac yn allu bendithiol iawn yn ei bywyd. Cymerodd lafur mawr, fel y dywedai, "i fagu ei phlant i'r Arglwydd." Dysgai hwy yn ofalus, a chyflwynai hwy yn ffyddiog i ofal ei Thad nefol. Yr oedd yn hynod hoff o'r Bibl. Gadawodd ar ei hol lïaws o lyfrau wedi eu llenwi âg adnodau detholedig o'r Bibl. Yr oedd hefyd wedi llenwi ei meddwl â hwy, fel mewn canlyniad yr oedd megys Bibl byw. Cymaint oedd ei gwerthfawrogiad o air Duw fel yr oedd wedi myned i gyfrif rhai pennodau yn Efengyl Ioan fel ei heiddo hi. Tebygol yw y dywedasai yn debyg i fel y dywedodd un arall ag oedd yn arfer ystyried adnodau y Bibl fel ei eiddo ef, "Y mae yna ddigon ynddynt i eraill gael eu gwala drwyddynt heblaw myfi." Peth arall nodweddiadol iawn o fam gwrthddrych ein cofiant ydoedd ei ffydd mewn gweddi a'i chymundeb agos â Duw. Peth cyffredin fyddai ei chlywed yn gweddïo neu yn moliannu Duw yn ei hystafell, yn yr ardd, yn y meusydd, neu ar y ffordd i gapel Llanfyllin, a gwrthddrych ein cofiant yn fachgen ieuanc tirion yn marchogaeth gyda hi ar gefn y ferlen ag oedd i'w gweled yn aml ar y ffordd rhwng Rhosfawr a'r capel. Yr oedd Mrs. Jones eto yn nith i'r adnabyddus Mr. William Jones, Rhiwaedog, Bala, ac yn ferch i Mrs. Sydney Jones, Blaencwm, Pennant, Llangynog—gwraig a fu am flynyddoedd yn ardal Llangynog megys colofn yr Arglwydd, yn gwasgaru gwybodaeth a rhinwedd. Dysgodd ddegau i ddarllen ac ysgrifenu, a dysgodd fwy na hyny i fyw yn grefyddol. O dir fel hyn y tyfodd Mr. Jones, a chredwn ei fod yn blanhigyn hollol deilwng o'r tir.

Daeth i Croesoswallt yn y flwyddyn 1847, pan nad oedd ond 13 oed, ac o'r pryd hyny hyd ei farwolaeth, yn Ebrill diweddaf, treuliodd yr oll o'r amser oddigerth rhyw ddwy flynedd yn Croesoswallt. Yn y flwyddyn 1873, fe'i priodwyd âg Annie, merch ieuengaf y diweddar anwyl a pharchedig Rees Jones, Felinheli; ac y mae hi

a dau blentyn wedi eu gadael ar ei ol. Yn ystod y deugain mlynedd neu ragor y bu Mr. Jones yn Croesoswallt bu yn hynod ymdrechgar gyda chrefydd. Deugain mlynedd fuont o weithio â'i holl egni gydag achos Mab Duw, ac nid oes ond goleuni y dydd diweddaf a ddadguddia lawn faint a gwerth y llafur hwn.

Pan yn dadgan barn am nodweddion cymeriad ein cyfaill, yr ydym yn cael ein tueddu i osod yn gyntaf oll *ysbrydolrwydd ei gymeriad.* Cymeriad crefyddol o flaen pobpeth arall oedd ei gymeriad ef. Yr ydym eisoes wedi awgrymu fod ysbryd crefyddol wedi ei drosglwyddo i'w ofal gan ei rieni, ac ymddengys iddo yntau ei feithrin a'i fawrhau yn hynod iawn. Yr oedd yn amlwg yn byw o dan ddylanwad crediniaeth ddiysgog fod byd ysbrydol a thragywyddol yn bod, a bod yr hyn a berthyn i hwnw yn annhraethol bwysicach na'r hyn a berthyn i'r ddaear. Nid oedd, o ganlyniad, i'w gael yn cymeryd rhan flaenllaw gyda materion gwleidyddol a threfol, ond os byddai rhyw gynnulliad crefyddol yn agos byddai yn debyg o fod ynddo, ac os byddai rhyw fater ysbrydol ger bron y wlad byddai yn sicr o fod yn cymeryd dyddordeb ynddo. Gwelir yr un peth trwy fwrw golwg dros ei lyfrgell. Ni cheir ynddi ddim llyfrau o'r bron ar wleidyddiaeth, gwyddoniaeth, hanesiaeth gwledydd, na dim o'r llyfrau chwedleuaidd gwageddus a geir yn rhy fynych yn doraeth yn ein tai. Y mae'r llyfrau gan mwyaf o nodweddi ysbrydol, ïe, llawer o honynt yn Buritanaidd o ysbrydol. Y mae yr un peth i'w weled yn ei gysylltiadau masnachol. Bu am flynyddoedd lawer yn fasnachydd cyfrifol yn y dref yma; ond ni chaniatâi i'w fasnach gael y flaenoriaeth ar faterion crefyddol, nac hyd yn nod gyfyngu arnynt Beth bynag fyddai ei brysurdeb masnachol ni byddai byth yn colli yr un o gyfarfodydd crefyddol ei eglwys. Gyda'i wasanaethyddion, drachefn, a bu ugeiniau yn ei wasanaethu o bryd i bryd, yr oedd yr un mor awyddus ac ymdrechgar i'w gwneyd yn llanciau crefyddol ag oedd i'w gwneyd yn grefftwyr da; ac yr oedd yn fwy yn ei elfen pan yn dysgu crefydd a moes iddynt na phan yn eu dysgu ynghylch y fasnach. Cadwai lyfr dirwest yn y siop, a cheisiai gael gan y gweision oll roddi eu henwau ynddo. Anrhegai hwy â llyfrau da, a chymhellai hwynt i brynu rhai eraill. Siaradai â hwynt am faterion eu henaid, a threfnai iddynt i fyned gyda chysondeb i wahanol gyfarfodydd crefyddol.

Yr oedd fel hyn, fe welir, nid yn unig o ran ei syniadau, ei chwaeth, a'i arferion yn grefyddol, ond fe'i nodweddid ef â zel a difrifwch angherddol o blaid crefydd. Yr oedd yn caru Crist a'i achos, ac o herwydd hyny, byddai yn "cydlawenhau â'r gwirionedd," ond yn gruddfan yn ngwyneb unrhyw "anghyfiawnder"—unrhyw beth fyddai yn milwrio yn erbyn teyrnas Crist. Pa lewyrch bynag fyddai ar grefydd yn y wlad, byddai ef yn zelog ac yn ymdrechgar o'i blaid; ond byddai wrth fodd ei galon pan mewn sasiwn neu gyfarfod pregethu, neu pan y byddai llewyrch ar grefydd. Nid anghofir genym ei ddyddordeb a'i zel pan yr oeddid yn adeiladu y capel newydd; rhedai at y capel lawer gwaith yn ystod y dydd, a siaradai am dano beunydd. Ar y llaw arall yr oedd yn ddwys ac yn ddigofus iawn yn erbyn annuwioldeb, ac yn wir yr un modd yn erbyn claearineb crefyddwyr, ac ymosodai ar y pethau hyn yn ddiarbed. Arferai wasgaru llenyddiaeth bur hyd y dref; ac un adeg, flynyddau yn ol, bu yn un o'r prif offerynau i ddwyn oddiamgylch wasanaeth crefyddol —canu a phregethu, ar hyd yr heolydd. Crefydd oedd ei brif fater, a chrefyddwr o ddifrif ydoedd. Canai o ddifrif, gweddïai fel un yn ymdrechu â'i Dduw, ac fel rheol siaradai yn y gyfeillach neu'r Ysgol Sul gydag angherddolrwydd teimlad.

Ond heblaw crefyddoldeb ei ysbryd a'i ymddygiad, peth arall a'i nodweddai oedd ei ffyddlondeb diball. Yr oedd yn feddiannol ar helaethrwydd o yni naturiol, ac yr oedd hwnw yn cael ei roddi mewn gweithrediad cyson a rheolaidd ynglŷn â phethau crefyddol, ac ni byddai yn pallu mewn dim; ond byddai bob amser yn ei le gyda'i waith, ac yn ei gyflawni gydag egni a manylrwydd diball. Pan sefydlwyd achos Seisonig yn Croesoswallt 25 mlynedd yn ol, fe'i hapwyntiwyd ef gan eglwys Sïon i fyned ato, ac fe'i gwnaed yn flaenor pan nad oedd ond pur ieuanc. Er y pryd hyny bu yn ffyddlawn iawn i gyflawni gwahanol ranau ei swydd—yn arwain y canu, yn ysgrifenydd yr egiwys, yn athraw yn yr Ysgol Sul, ac eleni efe oedd yn arolygwr yr ysgol, ac yr oedd yn benderfynol yn ystod tymmor ei arolygiaeth o'i gwella. Y mae cymaint o bethau y gellid eu nodi am ein brawd fel mai anhawdd ydyw gwybod pa beth i'w adael allan, ond rhaid yw terfynu.

Terfynodd ei oes mewn afiechyd a eilw y meddygon yma yn *state of coma*, ac y mae'r gair yn un awgrymiadol. Awgryma "y cyfnewidiad" yn hanes ein cyfaill; awgryma ddiwedd ei ddydd—gwaith a dechreu ei orphwysdra. Y gair diweddaf ddywedodd wrthym yn yr eglwys oedd, "Calfaria i fyw, Calfaria i farw, Calfaria am byth." Y weithred gyhoeddus ddiweddaf a wnaeth oedd casglu o'i gwmpas nifer o blant lleiaf a mwyaf diamddiffyn yr Ysgol Sul, a rhoddi iddynt wledd fach a geiriau caredig. Defnyddiodd ei breswylfa y mis diweddaf y bu fyw i lettŷa pregethwyr; a chyhyd ag y caniataodd ei afiechyd iddo siarad siaradodd am bethau crefydd, gan anwybyddu bron bobpeth arall. Fel hyn y diweddodd ddydd ei waith caled. Gyda hyn caniataodd ei Arglwydd iddo ddechre gorphwyso—huno yn yr Iesu, ac fel un wedi gweithio mor ragorol caniatawyd iddo orphwyso ychydig cyn dechre ar ei hûn ddiweddaf. Bu yn huno am rai dyddiau mewn trwmgwsg yn ein presennoldeb ni cyn iddo gael ei gymeryd i huno y tu hwnt i'r llen. Heddwch i'w lwch yn y dystaw fedd, a gorphwysdra'r nef i'w enaid!

Cloffion.

MEDDYLIAU DUW.

Mae meddyliau Duw yn etifeddiaeth werthfawr i feddwl dyn, etifeddiaeth ddigonol i fyw arni am amser a thragywyddoldeb. Gwyn fyd y dyn sydd yn meddu archwaeth i ymddifyru ynddynt! Ond rywfodd, mae yn hynod o anhawdd cael ond ychydig o ddynolryw i fyw nemawr yn myd y meddwl. "Beth a fwytawn? neu, Beth a yfwn? neu, A pha beth yr ymddilladwn?" Pa fodd y byddwn byw? dyna sydd, gydag oferedd meddwl, yn myned â holl fryd a holl fyfyrdod y rhan fwyaf o ddynion. Felly, mewn gwirionedd, nid ydynt ond yn byw yn myd yr anifail. Mae yntau yn meddwl llawer, yn ol ei alluoedd ef o feddwl, am y borfa a'r dwfr. A phe byddai y gwartheg a'r defaid yn medru ymddyddan o gwbl, caem eu clywed yn fynych yn ymddyddan am yr ymborth a pha fodd y byddant byw. O drueni fod cynifer o eneidiau anfarwol—eneidiau sydd yn meddu galluoedd i fwynhau Duw a'i feddyliau, yn cael eu darostwng i fyw fel yr anifeiliaid a ddyfethir! Dywedwn eto, gwyn fyd y dyn sydd wedi derbyn a choledd archwaeth i ymddifyru yn meddyliau Duw! Gwelwyd ambell un felly yn byw yn dda ar ei etifeddiaeth yn y byd hwn, a hyny pan mewn prinder o bethau y ddaear. Ac yn ddiau, mae'r etifeddiaeth yn ddigon, a digon byth.—*Allan o Bregeth o waith y diweddar Barch.* Lewis Jones, *Bala, yn y* Gofadail Fethodistaidd.

ZEL A HUNANGAIS.

Camsyniad mawr yw meddwl nad oes dim a all dynu allan ymadferthoedd dyn i'w llawn weithrediad ond hunan-les. Fel arall yn hollol y mae. Nis gall hunan-gais byth gyneu enaid dyn i'w ŷni mwyaf tanllyd. Nid yw y dyn hunangar yn ymdrechu hyd yn nod am ei les ei hun, ond yn araf a dioglyd. Yr Apostol anhunangar sydd yn ei geisio gyda zel Merthyr a nwyd Sant.—*Holland.*

TRI AGORIAD.

Ceidw Duw dri agoriad yn ei ddwylaw ei hun,—agoriad bywyd, agoriad marwolaeth, ac agoriad gwlaw.—*Talmud.*

DUW A DIGON.

Dyro yr hyn a elli, hebot Ti yr ydym yn dlawd;
A chyda thi yn gyfoethog, cymer yr hyn a fyni ymaith.—*Cowper.*

GEIRIAU Y DOETHION.

Ni ddylai gwybodaeth na choed gael eu defnyddio nes y byddant wedi eu tymheru.

Po fwyaf a wyddom, mwyaf fydd ein syched am wybodaeth—fel lili y dwfr yn nghanol y dyfroedd, yn agor ei dail am ddyferion cyntaf y gawod ac yn llawenychu ynddi, yn nghynt nag y gwna y prysgwydd wedi sychu i fyny yn ŷ snialwch tywoddyd.

Y mae dillad da yn agor pob drws.

Y mae Duw yn iachâu, a'r meddyg yn cael y clod.

Aur yw y gwenwyn gwaethaf i eneidiau dynion.

Y mae ambell ddyn yn gwpbwrdd llyfrau, nid yn ysgolhaig.

Y sawl a fyno geffyl heb fai a raid fyned ar ei draed

Pa faint a ddarfu i'r drygau na ddygwyddasant gostio i ni!

Cronicl Cenadol.

Llydaw.

Llythyr oddiwrth y Parch. W. Jenkyn Jones.

Quimper, Gorphenaf 8fed, 1890.

Y gauaf, fel y gwyddoch, yw y tymmor mwyaf manteisiol i gynnal cyfarfodydd. Y mae nifer ein gwrandawyr yn llai yn ystod misoedd tecaf y flwyddyn, er i ni lwyddo i gynnal ein cyfarfodydd gyda chryn gysondeb hyd yma, yn ein holl ystafelloedd, oddieithr yn Douarnenez. Pan fydd genym hamdden, cymerwn daith diwrnod neu ddau gyda'r Bibl-gludwyr. Aethum yn nghwmni y ddau Fibl-gludwyr a Mr. Groignec yn ddiweddar ar ymweliad â Poul-david (Pwll-david), ac nid oes dim a rydd i ni y fath gyfleusdra i adnabod y bobl â'r teithiau hyn. Wrth gwrs, cyfarfyddir â phob math o bobl, a bydd y gair cyntaf yn fynych yn ddigon i ddangos o ba ysbryd y byddant. Edrycha rhai yn lled gellweirus ar y traethodynau a gynnygiwn iddynt, neu yn chwareus gofynant i ni a ydym yn gwerthu *umbrellas* am bris isel. Yn y lle hwn adwaenir ni yn dda, oblegid nid yw nebpell o Douarnenez, ac yma y preswyliai y cyntaf o'n dychweledigion, ac adwaenir ef fel Protestant a diwygiwr zelog. Ymwelsom â'i dŷ; cawsom ymddyddan â'i wraig, yr hon a'n derbyniodd gyda sirioldeb, ond yr oedd efe yn morio ar hyd glàuau gogledd-barth Ffrainc. Ar y ffordd yn ymyl, cyfarfyddasom â mynach a chynnygiasom iddo draethodyn, ond trodd ymaith mewn dychryn; yr oedd amryw yn edrych arnom ar ymyl y ffordd. Yna aethom i fewn i dŷ hen wraig, yr hon a gollodd ei hunan-feddiant can gynted ag y gwelodd ni yn myned dros y trothwy; nid oedd modd gosod gair i fewn fel eglurhâd nac esboniad, gorfu i ni ei gadael wedi ein llwyr orchfygu. Ychydig ddrysau ymhellach cyfarfyddasom âg un o'r un dosbarth; ewynai gan gynddaredd, a gallasem dybied ein bod wyneb yn wyneb âg un a rodiasai ymhlith beddau Gadara. Tystiai y wraig hon pe buasai hanner dwsin o rai tebyg iddi hi yn y pentref, na feiddiem ar ol hyny osod ein troed ar ddaear Poul-david. Y forwyn Fair, meddai, oedd unig sail ei gobaith; ac yr oedd ei pharch i'r Iesu yn cyfodi oddiar ei berthynas â'r forwyn "Y mae y forwyn mor berffaith â'i mab Iesu, ac hyd yn nod yn berffeithiach; y mae ei gallu yn y nef yn fwy na gallu ei mab; y mae Efe o barch i'w fam o dan orfod i ymgynghori â'i fam am bob achos, tra nad yw hi dan unrhyw orfodaeth i ymgynghori

âg Ef, er e bod yn gwneyd hyny oddiar deimlad o foesgarwch." (Ar werchez a zo ken parfet hag he Mab, ha parfetach mêmes, ha muiach a challoud he deuz evithau, &c.) Yna ychwanegai nad oedd yn ddigon ffol i gyffesu ei phechodau i dwll yn y mur, fel y gwna y Protestaniaid; a bod ganddi ormod o barch i'r Cymun Sanctaidd i yfed gwin *a meddwi* ar ol cyfranogi o hono. Drwy gyfeiliornadau a ffolineb au o'r fath y llwydda yr offeiriaid i gadw meddiant ar eu deiliaid; ni waeth ganddynt pa arfau i'w defnyddio, ond iddynt lwyddo yn eu hamcan. Ond daw dydd y dial cyn hir yn y byd hwn, ac y mae arwyddion eisoes ei fod yn agosâu. Cawsom gryn lawer o bleser yn y pentref wrth ymddyddan âg amryw eraill, gwŷr a gwragedd. Weithiau amgylchynid ni gan dyrfa o wragedd, y rhai a wrandawent yn astud ar yr hyn a ddywedem mewn atebiad i'w cwestiynau. Ceisiai amryw draethodau yn rhoddi hanes gwŷr meddw oeddynt wedi cael tröedigaeth, ac wedi dyfod yn ddynion sobr. Ymhobllе yma y mae rhyw *efail gôf* neu *gnwc-y-glap*, lle yr ymgasgla yr hamddenol ynghyd, ac o'r diwedd daethom ar draws y fan lle yr oedd degau yn ymgomio am wahanol bynciau; rhanasom yno gryn nifer o draethodynau, a buom yn ymddyddan am gryn amser ar grefydd y Bibl. Gwerthwyd amryw gopïau o'r Ysgrythyrau cyn dychwelyd o'r daith, a chyfarfuasom âg amryw a ymddangosent yn awyddus i wybod ffordd Duw.

Y Sabboth, 22ain o Fehefin, aethum oddiyma gyda phedwar o ddynion ieuainc, aelodau o'r dosbarth Biblaidd, i Goncarneau (Conc-Cernyw) i ranu traethodau. Treuliasom oddeutu pedair awr yn y lle, yn teithio drwy yr heolydd, gan gynnyg ein nwyddau i bawb, gwreng a boneddig, offeiriaid a lleygwyr, a ddymunent eu derbyn, a rhanasom yn ystod y prydnawn oddeutu pymtheg cant o draethodau. Cyfarfuasom â llawer o wawdwyr, ond ar y cyfan derbyniwyd ein traethodau a'n geiriau gyda sirioldeb, a gwelid ugeiniau yn eistedd ar y muriau neu yn cerdded drwy yr heolydd yn prysur ddarllen y traethodynau a roddasid iddynt. Drwy deithiau o'r fath gobeithiwn weled y dynion ieuainc yma yn ymwroli i wneyd rhywbeth dros Iesu Grist, ac i ddwyn tystiolaeth i'r gwirionedd.

Bu fy mrawd y Sabboth canlynol hefyd yn ymweled â rhan arall o'r wlad gyda'r ddau Fiblgludydd. Rhanasant hwythau oddeutu saith gant o draethodynau, yn Ploneour (Plwyf Enewr), Pouldreuzic (Pwll-traws), a Plogastell (Plwyf-castell). Y mae y gwaith o ranu traethodau wedi dyfod bellach yn llawer haws nag ydoedd flynyddoedd yn ol. Adwaenir ni gan y bobl, ac yn fynych deuant i ymofyn am danynt.

Bu genym ar y 3ydd o'r mis hwn gyfarfod yn Brest, i ymgynghori mewn cysylltiad â llafur y Biblgludwyr yn y wlad hon. Yr oedd Mr. Monod o Paris, a'r Parch. Major Paull, un o ysgrifenyddion Cymdeithas y Biblau, ynghyd a'r gweinidogion, efengylwyr a Biblgludwyr sydd yn llafurio yn Llydaw, wedi dyfod at eu gilydd am y waith gyntaf er ys blynyddoedd. Ffurfiwyd Pwyllgor Cynnorthwyol ar gyfer Llydaw yn neillduol, i gyfarfod yn achlysurol i ymdrin âg achosion yn dwyn cysylltiad â'r achos yn y rhanbarth hon o Ffrainc, a gobeithio y bydd yn ddefnyddiol i hyrwyddo y gwaith ymlaen.

Brynian Khasia.

DOSBARTH SHANGPOONG.

Mewn llythyrau dyddiedig Ebrill 26ain a Mai 24ain, rhydd y Parch. R. Evans hanes amryw deithiau a gymerasai yn ddiweddar trwy rai o bentrefi y dosbarth. Ymddengys fod y gwaith yn myned rhagddo yn lled gysurus. Yn ystod un o'r teithiau hyn bedyddiwyd saith a deugain o bersonau mewn tri o'r pentrefi.

Mae Mrs. Evans, mewn llythyr diweddar yn ysgrifenu fel y canlyn:—"Yr oedd yn dda iawn genyf gael y sypyn o *calico*, *prints*, llyfrau, nodwyddau, gwniaduron, *pencils*, &c., a anfonwyd mor garedig gan y cyfeillion gartref. Yr oedd enwau y cyfeillion wrth rai o'r pethau. A wnewch chwi gyflwyno fy niolchgarwch gwresocaf iddynt trwy gyfrwng "Y Drysorfa"—H. K. Humphreys, Robert Jones, Mrs. Parry, a C. E. Evans, Caernarfon; M. Morris, Pontcysyllte; Mrs. Edwards, a Mrs. Jones, Porthaethwy. Mae plant yr ysgol yn defnyddio llawer iawn o nodwyddau er eu bod yn ceisio bod yn ofalus, a phob amser yn eu rhoddi i fyny i mi ar derfyn y dosbarth. Yr wyf yn sicr y bydd yn dda ganddynt gael y dosbarthiadau gwnïo eto."

Y DIWEDDAR BARCHEDIG T. JERMAN JONES.

Rhanau o Lythyr oddiwrth y Parch. J. Roberts.

Derbyniwyd llythyrau oddiwrth y Parchn. J. Roberts, J. Jones, R. Evans, C. L. Stephens, ac eraill o'r Cenadon yn dadgan eu teimladau galarus yn wyneb marwolaeth y Parch. T. Jerman Jones. Ni chaniatâ ein gofod i ni roddi y llythyrau hyn yn gyflawn. Rhoddwn ranau o lythyr y Parch. J. Roberts, dyddiedig Mai 21.

"Y mae y newydd trwm am farwolaeth fy anwyl gyfaill a'm cydweithiwr am faith blynyddoedd, y Parch. T. Jerman Jones, wedi fy mharlysu yn hollol. Diau i chwi yna gael ergyd drom, ac fod yna lawer yn ei theimlo, ond yma yn Khasia y mae yn cael ei theimlo yn ei grym. Y mae yn anmhosibl i chwi yna ddeall pa beth a pha faint oedd Mr. Jerman Jones i Khasia ac i'w gydgenadon, ac yn sicr nid oes neb byw a ŵyr pa beth oedd i mi yn bersonol. Buom yma am dros ddeunaw mlynedd gyda'n gilydd, ac, oddigerth unwaith neu ddwy, ni bu gair o anghydwelediad rhyngom ynghylch dygiad y gwaith ymlaen.

O'i gymharu â'r hyn ydyw yn awr, nid oedd y gwaith ond bychan a llawn helbul, pan gyfarfyddasom gyntaf ar làn y Swrma yn Sylhet ddeunaw mlynedd i fis Rhagfyr diweddaf. Yn fuan wedi hyny bu raid i ni wynebu un o'r profedigaethau mwyaf a all gyfarfod Cenadaeth, fel y gwyddoch chwi yn dda. Y mae yn anhawdd gwybod beth a ddaethai o'r gwaith yr adeg hono oni b'ai ei fod ef gyda ni. Y fath ysbryd a daflai i bawb a phob peth—y fath *tact* a ddangosai —fel y dyoddefai yn dawel a ffyddiog pan ddifenwid ef ac y dywedid pob drygair yn ei erbyn. Yr wyf yn gwybod mai am ei weithgarwch a'i yni y mawrygir ef fwyaf gan y lliaws, ond yr wyf fi yn ei fawrygu lawn cymaint am ei ddyoddefgarwch ag am ei weithgarwch. Yr oedd Mr. Jones yn gallu dyoddef yn ardderchog. Ond gadawaf hyna yn awr. Diau nad yw wedi gorphen ei waith, bydd ei ysbryd yn sicr o fod yn ein mysg eto yn ein bywiocâu, ac yn peri i ni obeithio. Yr oedd sefydlogrwydd ei gymeriad yn hynod iawn. Bum yn ddigon agos ato, a hyny am gynifer o flynyddoedd, fel nad wyf yn dyweyd hyn ar antur. Gwelais ef mewn amgylchiadau pur wahanol i'w gilydd—gydag Ewropeaid o radd uchel, a chyda y Khasiaid iselaf; yn y gynnulleidfa fawr, ac yn y gongl heb neb ond ein dau; yn teithio llechweddi serth y Bryniau, ac yn ddiffygiol gan y daith, ac yna yn gorwedd ynghyd i orphwys; yn cyfarfod storm mewn Henaduriaeth, ac yn dadlu treuliau y Genadaeth mewn *District Committee;* yn amgylchiadau cysurus y stâd briodasol, ac yn unig fel meudwy am flynyddoedd; ond yr un oedd fy nghyfaill ymhob man. Fel yr Iesu, yr hwn a garai mor fawr, gwelodd lawer tro ar fyd ac eglwys, ond yr oedd ganddo un amcan mawr o'i flaen, sef rhoddi ei hunan yn aberth byw, sanctaidd, a chymeradwy, i Dduw, ac ar allor gwasanaethgarwch. Ac fe wnaeth hyny; do, fe *wnaeth* hyny. "Canwyll yn llosgi" ydoedd ef, ac yr oedd yn llosgi mor gyflym, ac yn goleuo mor danbaid, fel bron na ddywedwn ei bod wedi ei goleuo yn y ddau ben. O mor dywyll ydyw ar ol i'r ganwyll hon ddiffoddi! Duw a drugarhao wrthym! Yr ydym yn unig iawn. "Fy nhad, fy nhad, cerbyd Israel a'i farchogion." Y mae arnaf ofn y meddyliwch fy mod yn blentynaidd, ond yn wir yr wyf yn teimlo fel ar dori fy nghalon. Heb son am golli cyfaill oedd mor gu genyf, ac yn sicr "gofid sydd arnaf am danat ti, fy mrawd: cu iawn fuost genyf fi: rhyfeddol oedd dy gariad ataf fi, tu hwnt i gariad gwragedd. Pa fodd y cwympodd y cedyrn, ac y dyfethwyd arfau rhyfel!" Ië, heb son am hyny, Pa beth a wnawn, pa fodd yr awn ymlaen hebddo? Y mae amgylchiadau pwysig iawn o'n blaenau, ag y byddai ei bresennoldeb ef o werth amhrisiadwy ynddynt. Ië, Duw a drugarhao wrthym, ac a'n bendithio. Bydd yn dda iawn genyf os gwnewch erfyn ar i bobl Dduw weddïo llawer iawn drosom. Y mae yma alar mawr iawn drwy yr holl wlad am Mr. Jerman Jones; ni welais y fath deimlad er pan wyf yn y wlad. Treuliasom gyfarfod y Sabboth diweddaf i dynu i ni ein hunain wersi oddiwrth ei fywyd gwerthfawr, ac i ddiolch i Dduw am dano. Ar y diwedd cododd yr holl Gristionogion ar eu traed i ddangos eu parch i goffadwriaeth ein hanwyl frawd, ac i adnewyddu ein cyfammod, megys ar ei fedd, i fwy o weithgarwch nag erioed gyda theyrnas ein Harglwydd Iesu Grist. Yr ydym oll yn teimlo yn ddwys iawn dros Mrs. Jones yn ei thrallod mawr, ac y mae yr eglwys yma wedi penderfynu anfon llythyr ati i ddadgan hyny. Bu Mrs. Jones yn briod ragorol i Mr. Jones, a gweithiodd yn egnïol wrth ei ochr hefyd gyda'r deyrnas nad yw o'r byd hwn. Bydd yma golled fawr ar ol Mrs. Jones mewn llawer cylch. Duw fyddo yn noddfa iddi."

Sylhet.

GWAITH YMYSG Y MERCHED.

LLYTHYRAU ODDIWRTH MISS WILLIAMS.

Sylhet, Mai 28, 1890.

MAE yn awr bedwar mis yn llawn er pan gyrhaeddais Sylhet, a diau eich bod yn dysgwyl cael clywed pa fodd y mae pethau yn myned ymlaen. Teimlaf fy mod yn dyfod ymlaen yn well gyda'r bobl, na chyda'r iaith—y llyfrau. Un peth yw myned yn llwyddiannus trwy arholiad yn Bengalee—peth arall yw siarad gyda thrigolion Sylhet (Sylhetee). Mae eu hiaith y fath gymysgedd. Fy mwriad ar y cyntaf ydoedd rhoddi pump neu chwe' awr y dydd i'm llyfr, ond bwriad ydoedd, fel amryw eraill, na sylweddolwyd mo hono hyd yn hyn. Treuliaf awr y boreu gyda'r "Munshi" (yr athraw sydd yn rhoddi gwersi iddi yn y Fengalaeg). Weithiau (megys boreu heddyw) rhaid i'r wers y boreu roddi ffordd i ymweled â chleifion.

Afreidiol yw i mi hysbysu trefn y modd ion ar y Sabboth, gan eu bod, mae'n debyg, yn hysbys i chwi; ond gallaf eich hysbysu fy mod wedi cymeryd drosodd ddosbarth y merched, yr hwn a ddygid ymlaen gan Miss Dass, yr hynaf o ferched Gour Babu. Ein maes llafur yn bresennol yw "Gwyrthiau yr Arglwydd Iesu." Hefyd cynnelir dosbarth Biblïaidd ar brydnawn Iau, ar ol yr ysgol. Rhifa y dosbarth bedair, gwlaw a hîndda. Maes llafur, "Actau yr Apostolion." Yn ychwanegol eir am 4 o'r gloch i addysgu mewn *Zenana* (fy *Zenana* gyntaf yn Sylhet). Fe allai nad annyddorol fyddai genych wybod y modd y daethum i gael mynediad i mewn, a'r canlyniadau. Cyn pen mis ar ol cyrhaedd, gofynwyd i mi fyned i ymweled â merch i "Munshi," fy athraw Bengalaidd. Gan fod Miss Dass yn awyddus i ddysgu cymerais hi gyda mi; ac heblaw hyny yr oedd o wasanaeth mawr i mi fel cyfleithydd, nid yn unig mewn pethau bychain ond hefyd yn y pethau mawr, y pethau mwyaf, pwysicaf, fel y ceir gweled. Dynesai at bump o'r gloch pan

gyrhaeddasom i'r *Compound.* Ar y naill law yr oedd ystafelloedd y meibion, ar y llaw arall rhai y merched,—dwy ystafell yn unig, heb ffenestri iddynt. Erbyn myned i mewn yr oedd yn bur dywyll, ond rhoddai yr ychydig dân ar ganol y llawr ddigon o oleuni i ni allu gwneyd allan pwy oedd yn gorwedd yn ei ymyl ar y llawr oer.

Cynnyrchai ein presennoldeb ni ychydig o gywreinrwydd (yn enwedig lliw fy ngwyneb I); ac ymgasglodd yr oll o'r perthynasau a'r cymydogion o'n hamgylch. Felly y gorchwyl cyntaf ydoedd gwaghau y *bedroom (?)* o tua dwsin neu ychwaneg o ferched, gan gymeryd trugaredd ar tua thair neu bedair. Wedi deall nad oedd gobaith cael dychwelyd yn fuan, penderfynwyd gwneyd y goreu o'r *boxes* a'r ystolion gwellt. Chwareu teg hefyd, fe ddaethant â chadair fawr, rhy fawr i un o honom. Yr oeddynt yn hynod groesawus; yn wir yn ormod felly un tro. Pan ofynwyd, "A ydych chwi yn ysmocio?" nis gwn pa un ai camddeall yr ateb a wnaethant, ynte pa beth, ond daethant â'r *cigars, matches,* a'r pethau anghenrheidiol i'r bwrdd. *Fel rheol,* pan yn ymweled â phobl y tro cyntaf, pa un bynag ai claf ai iach fyddont, ni byddaf yn dyfod â chrefydd i mewn. Mae rhai o honynt yn elyniaethus i hyd yn nod yr enw "Cristionogion;" ac ofnant yn eu calonau i bresennoldeb gwyneb gwyn yn eu tai, eu troi yn Gristionogion. Ond yma aethom dros ben y rheol. Yr oedd clywed y merched hyn yn llefain "Ala, Ala," yn ormod heb i minnau gael "dangos fy ochr," a dyweyd gair am fy Nuw innau, pe na buasai ond i egluro ei deitl anrhydeddus—Iesu, h.y., Gwaredwr—ei gariad anfeidrol. Dechreuwyd, Miss Dass yn cyfieithu i ddechreu; yna aeth ymlaen ei hunan i fynegi iddynt. Yn awr ac eilwaith torid ar ein hymddyddan, ond pan elai yn dawelwch drachefn, dywedent,—"Go on; tell us some more; tell us some more; it is good." Anhawdd mynegi fy nheimladau; ar y naill law, eu parodrwydd i wrandaw, a'u tystiolaeth am y gwirionedd fel y disgynai ar eu clustiau y pryd hwnw—rai o honynt, mi gredaf, am y tro cyntaf erioed; ac ar y llaw arall, gofidiem dros y miloedd yn Sylhet nad ydynt wedi clywed hyd yn nod A B C trefn fawr y Prynedigaeth unwaith.

"*Jesus,* to those who fall, how kind Thou art!
How good to those who seek!
But what to those who find? Ah, this—
Nor tongue nor pen can show:
The love of Jesus what it is,
None but His loved ones know."

Ond pa fodd y gwybyddant? "Pa fodd y clywant heb" genadesau? 'Waeth heb roddi y gwreiddiol, oblegid ni chaiff pregethwyr ddim myned i mewn i'r *Zenanas,* i ymddyddan â'r merched, yn neilluol felly y Mahometaniaid.

Parheais i ymweled â'r fan am tua pythefnos fy hunan; oblegid yr oeddwn yn awyddus i ddal gafael ynddynt, i ddyweyd mwy wrthynt am y newyddion da.

Un Sabboth aethum â Miss Dass gyda mi yno: ac ar ol cymeryd y *temperature* a'r *pulse,* gofynais a oeddynt yn hoff o ganu, ac a ganiateid i mi ganu iddynt, gan ychwanegu wrth Munshi, yr hwn oedd yn bresennol,—"Gwyddoch am bwy y byddaf yn canu?" Gyda gwên anhawdd ei hesbonio, atebodd yn bur hwyrfrydig, "Gwn." Cyn ymadael, rhoddwyd caniatâd i ni fyned yno i'w haddysgu bob wythnos. Gan fod yr wythnos yn llawn eisoes, eir yno am 4 ar y Sabbath. Bydd rhaid aros ychydig cyn y deuant ynghyd yn gryno; weithiau rhaid myned i'r tai agosaf i ymofyn am y cymydogion. Daw ynghyd weithiau o ddeunaw i ugain, rhwng gŵr, gwragedd a phlant. Yn naturiol iawn, amddiffynant eu crefydd eu hunain weithiau.

Bob prydnawn Sadwrn ymwelir â *Zenana* arall, lle y triga tair o wragedd gweddwon, ynghyd a thri o blant. Priodwyd* un o honynt pan nad oedd ond dwy flwydd a hanner oed. Arferai y Misses Dass ymweled â hwynt yn gyson er's tro. Dysgir iddynt ddarllen, ysgrifenu a gwnïo; yna canu a darllen rhan o'r Bibl. Ymddangosant ambell dro yn bur ddifater. Gofynwyd i un o honynt dro yn ol, a oedd hi yn caru yr Arglwydd Iesu ac yn credu yndd o Ef? Atebodd un o honynt "fod yn rhaid iddynt gael gwybod mwy am dano, i allu credu ynddo;" a gofynodd yr eneth fach, "A ydyw Ef yn fyw yn awr?"

Mae gwraig weddw arall hefyd, ag yr wyf yn teimlo dyddordeb nid bychan ynddi, ac yn rhyw gwestiyno weithiau, "Pa beth ddaw o honi?" Ei henw ydyw Jobah. Hindw ydyw. Fel y gwyddoch priodant eu plant yn ieuainc iawn; fel rheol tua 10 neu 12 oed. Priodwyd Jobah pan nad oedd ond chwe' mlwydd oed! i ddyn pur oedranus; a phan tua naw oed, bu ei gŵr farw, a dyna Jobah yn wraig weddw. Celwyd oddiwrthi am ddiwrnod neu ddau yr hysbysrwydd am farwolaeth ei gŵr, gwnaed gwledd fawr, gwisgwyd y wraig ieuanc—ydoedd yn awr yn weddw—mewn dilladau gwychion, rhoddwyd arni ei holl dlysau, &c., &c. Dywedai ei bod yn methu deall paham y gwnaent fel hyn â hi. Yn hwyr y dydd, pa fodd bynag, eglurwyd yr oll. Tynwyd oddiam dani y dilladau prydferth, a'r gemau, pa rai nas gwelai byth drachefn, a rhoddwyd dillad gweddwdod am Jobah druan. Hefyd gorfodwyd hi, yn ol yr arferiad Hindwaidd, i ddechreu ymprydio am rhyw gymaint o ddyddiau, ac hefyd i fyw ar ddim ond un pryd o fwyd y dydd. Hyn a wna hyd heddyw. Daethum i gyfarfyddiad â hi pan yn *attendio* gwraig i ryw Babu. Yr ydoedd wedi gadael ei thŷ ei hun, yn y dref, er mwyn dyfod am ychydig amser i ofalu am y teulu hwn. A thra yma aeth ei thŷ hi, ymhlith eraill, ar dân a llosgwyd yr hyn oll a feddai. Mae yn hollol dlawd, ac heb yr un berthynas ar y ddaear. Amlyga

* Mae yr un ystyr gyfreithiol i ddyweddïo ag i briodi, ac y mae merch fyddo wedi ei dyweddïo yn cael ei hystyried byth yn weddw ar farwolaeth yr un y dyweddïir hi iddo.

awydd i wyood ychwaneg am "y grefydd newydd," fel y dywed.

Rhaid terfynu yma heno. Er ein bod heddyw wedi cau yr ysgol am bythefnos yr wyf wedi bod yn dra phrysur. Yfory bwriadaf gychwyn i Nongrymai am tua phythefnos. Yr wyf yn teimlo braidd oddiwrth y gwres.

Cherrapoonjee, Mehefin 3, 1890.

Cyrhaeddais yma yn hwyr nos Wener, ac yr wyf eisoes yn teimlo lles oddiwrth y newidiad. Yfory yr wyf yn dysgwyl gallu cychwyn i Nongrymai. Yn fy llythyr diweddaf dywedais y byddai genyf fwy i'w ddyweyd am Jobah, felly äf ymlaen.

Amlyga awydd i dd'od i ddeall ychwaneg am y "grefydd newydd," ys dywed. Pan yn gofyn rhyw ddiwrnod i wraig y Babu, oedd dan ofal Jobah, a wnai hi anfon ei genethod i'r ysgol? atebent, "Fe ddywed pobl ein bod ni yn dyfod yn Gristionogion." Mae gan Jobah eneth fechan dan ei gofal am rhyw ysbaid, ac yr wyf wedi llwyddo i gael ganddi ei hanfon i'r ysgol. Ambell ddiwrnod daw y ddwy gyda'u gilydd, a'r pryd hyny, pan geir Jobah i'r *vestry*, cymerir mantais i ymddyddan â hi. Nid oes ganddi yr un ddirnadaeth am a ddygwydd iddi pan yn cau ei llygaid am y tro olaf ar y byd hwn. Meiddiodd ddyfod can belled a'm tŷ un Sadwrn yn ddiweddar mewn *ghari* (cerbyd cauedig). Cwestiynai lawer iawn; a phan yn ei hateb gan bwy yr oeddwn wedi cael y naill beth a'r llall, "Ah," meddai, â'i llygaid yn fyw o deimlad, "mae genych chwi ffryndiau yn Nghymru, a dyna chwithau wedi dyfod yma i fod yn ffrynd i mi. A fyddwch chwi yn ffrynd i mi?" Druan o Jobah! Gobeithio nad yw y dydd ymhell pan y bydd wedi dyfod i adnabyddiaeth o'r gwir Gyfaill, y Cyfaill a lŷn pan y bydd pob cyfaill arall yn gorfod troi cefn. Mae arnaf awydd gofyn, A wnewch chwi gofio Jobah yn eich gweddïau? Ewch â hi wrth ei henw at y Gŵr dosturiodd wrtn y weddw o Nain am iddo gymeryd trugaredd ar ei henaid hithau.

Pythefnos i'r Sul diweddaf aethum i ymweled â theulu arall, nid am y tro cyntaf, ond i ffarwelio â hwynt megys, am dro. Nid yw y teulu hwn ond esiampl o ddwsinau o deuluoedd eraill yr ymwelir â hwynt, er rhoddi meddyginiaeth iddynt; ac ydynt yn gorfod treulio eu dyddiau heb glywed gair o son am Iesu Grist, y Meddyg mawr, o herwydd yn un un peth nas gallaf siarad â hwynt ond ychydig iawn. Heblaw hyny, pan y deuaf i allu ymddyddan â hwynt, beth fydd un rhwng cynifer? Cyn ffarwelio â hwynt, mynegwyd iddynt yr hen hen hanes am Iesu a'i werthfawr waed. Mahometaniaid ydynt, rhagfarnllyd iawn hefyd rai o honynt. Canwyd iddynt, yna eglurodd Misa Dass ystyr y geiriau. Ar ol gwrandaw am ychydig, meddai un wraig, "Yr wyf fi wedi myned yn rhy hen i droi fy nghrefydd yn awr; a waeth i chwi heb siarad, wnaf fi byth gredu yn Iesu Grist; wnaf fi ddim newid fy nghrefydd pe gorfyddai i mi farw." Y fath gysur ydyw cofio fod Crist yn caru y merched truain hyn yn annhraethol fwy nag y gallwn ni, ac y bydd iddo yn ei amser da ei hun eu tynu ato ei hun. A pha beth mwy a ddywedaf? Pa nifer o ferched ieuainc ydych yn fwriadu anfon allan y flwyddyn hon? "Y cynhauaf yn wir sydd fawr, ond y gweithwyr yn anaml." Mae y drysau yn agored, ond heb neb i fyned i mewn trwyddynt. Pa le y mae fy chwiorydd Cymreig? Oni ddaw rhai o honynt allan yn fuan? Mae calonau briwedig i'w cysuro tra y mae y dyddiau yn myned heibio. Er ein bod yn awr yn cael ein hamgylchu gan lawer o anhawsderau, eto yr ydym yn myned ymlaen gan ymddiried yn addewidion Duw."

Dymuna Miss Williams gyflwyno ei diolchgarwch gwresocaf i "Ddyn Dall" o Gaergybi am 10s., "A Friend from Llanrwst" am £1, a'r £1 1s. trwy law Dr. Griffiths gan ryw un yn Abercarn; hefyd am *prints* a *cottons*, o Croesor a Manchester.

COFGOLOFN AR FEDD Y PARCH. T. JERMAN JONES.

Bydd *D. Hughes, Esq.*, 4, *William Moult Street, Liverpool*, yn barod i dderbyn hyd y dydd olaf o fis Medi unrhyw danysgrifiadau y dymuna cyfeillion eu hanfon at yr amcan hwn. Fe ddeallir nad oes bwriad i benodi casglyddion at yr achos, na gwneyd dim pellach na hysbysu yn y dull hwn fod y cyfleusdra yn agored i'r rhai fyddo yn dewis cyfranu. Felly y penderfynwyd gan y Gymanfa Gyffredinol.

DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

Dymuna y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar dderbyniad y symiau canlynol er yr hysbysiad diweddaf:—

	£	s.	d.
"At y Genadaeth"	0	10	0
Oddiwrth Ewyllysiwr Da o Sir Benfro	10	0	0
Oddiwrth Ddwy Chwaer o Bwllheli, trwy law Mr. Robert Rowland, U.H.	20	0	0
Oddiwrth Mr. John R. Davies, Palmyra, Ohio, U.D.A., trwy law y Parch. T. C Davies	2	0	11
Oddiwrth Mrs. Mary Lewis, eto	0	4	1
Oddiwrth Mr. T. Edwards, Uchelddre, Sir Fôn	5	0	0

(Derbyniodd yr Ysgrifenydd yr un pryd £2 10s. oddiwrth Mr. Edwards tuag at y Jiwbili.)

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. Herbert Lewis, Esq., J.P., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* Josiah Thomas, M.A., 28, *Breckfield Road South, Liverpool.*

P. M. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.